

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) Adroddiad Cyfnod 1

Mehefin 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDiwygio@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Adroddiad Cyfnod 1

Mehfin 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 12 Gorffennaf 2023. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
David Rees AS
Llafur Cymru



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Darren Millar AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS *
Llafur Cymru

* Ar ôl iddi gael ei phenodi'n Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 17 Mai 2024, esgusododd Sarah Murphy AS ei hun yn ffurfiol o holl weithgareddau'r Pwyllgor.

Cymerodd yr Aelod a ganlyn ran yn yr holl weithgarwch Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.49:



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar yr adroddiad:



Vikki Howells AS
Llafur Cymru

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Rhagair y Cadeirydd | 7 |
| Argymhellion | 9 |
| 1. Cyflwyniad | 15 |
| Y Bil..... | 15 |
| Cylch gorchwyl..... | 15 |
| Yr amserlen graffu | 16 |
| Ein dull gweithredu..... | 17 |
| Cyfranogiad Jane Dodds AS | 17 |
| Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd | 17 |
| Ein barn ni | 18 |
| 2. Egwyddorion cyffredinol y Bil | 19 |
| Y cefndir | 19 |
| Ystyried cymhwysedd deddfwriaethol..... | 20 |
| Egwyddorion cyffredinol y Bil | 21 |
| Dulliau eraill..... | 24 |
| Egwyddor cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol..... | 28 |
| Ymgynghori | 34 |
| Ein barn ni | 38 |
| 3. Rheolau cwota | 41 |
| Darpariaethau yn y Bil | 41 |
| Opsiynau eraill..... | 44 |
| Y rhesymeg dros y rheolau cwota | 48 |
| Dethol ymgeiswyr | 55 |

| | |
|---|------------|
| Effaith tynnu ymgeiswyr oddi ar restr..... | 59 |
| Seddi gwag | 61 |
| Ein barn ni | 63 |
| 4. Gorfodi a chydymffurfiaeth | 66 |
| Darpariaeth yn y Bil | 66 |
| Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol..... | 66 |
| Dulliau o orfodi cwotâu..... | 69 |
| Rôl asiantiaid pleidiau..... | 72 |
| Rôl y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol..... | 73 |
| Ein barn ni | 74 |
| 5. Datganiad ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio..... | 77 |
| Darpariaeth yn y Bil | 77 |
| Y gofyniad i ymgeiswyr wneud datganiad | 77 |
| Gwneud datganiadau ffug..... | 84 |
| Archwilio papurau enwebu | 91 |
| Ymdrin â data personol | 92 |
| Ein barn ni | 94 |
| 6. Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf | 97 |
| Darpariaeth yn y Bil | 97 |
| Cwmpas yr adolygiad | 97 |
| Mecanwaith adolygu..... | 99 |
| Ein barn ni | 101 |
| 7. Gweithredu'r Ddeddf..... | 105 |
| Amserlen ar gyfer gweithredu..... | 105 |
| Y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth..... | 106 |

| | |
|---|------------|
| Amserlen yr etholiad | 108 |
| Codi ymwybyddiaeth..... | 110 |
| Goblygiadau ariannol..... | 111 |
| Ein barn ni | 117 |
| 8. Cymhwysedd deddfwriaethol..... | 120 |
| Y cefndir | 120 |
| A yw darpariaeth ‘yn ymwneud â’ mater a gedwir yn ôl..... | 126 |
| Addasu’r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl | 133 |
| Hawliau dynol..... | 137 |
| Goblygiadau ansicrwydd | 139 |
| Ein barn ni | 145 |
| 9. Mynd i’r afael â rhwystrau: dull ‘mwy na chwotâu’ | 148 |
| Dull ‘mwy na chwotâu’ | 148 |
| Menywod fel grŵp amrywiol | 148 |
| Y Senedd | 151 |
| Pleidiau gwleidyddol | 153 |
| Rhwystrau ariannol..... | 157 |
| Aflonyddu a cham-drin..... | 160 |
| Rhannu swyddi..... | 161 |
| Mentora a hyfforddiant..... | 163 |
| Data amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau..... | 163 |
| Ein barn ni | 166 |
| Atodiad 1 Canfyddiadau arolwg YouGov | 170 |
| Cefndir | 170 |

| | |
|--------------------|-----|
| Canfyddiadau | 170 |
| Ymatebion | 171 |
| Canrannau | 172 |
| Methodoleg | 174 |

Atodiad 2 Profion cymhwysedd deddfwriaethol175

Atodiad 3 Tystiolaeth178

| | |
|----------------------------------|-----|
| Sesiynau tystiolaeth lafar | 178 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig..... | 180 |

Rhagair y Cadeirydd

Mae amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig senedd cenedl yn ganolog i ddemocratiaeth sy'n gweithio'n dda. Mae dod â phobl ynghyd o bob cefndir yn cyfoethogi ein gwaith ac rydym yn cefnogi'r dyhead am Senedd sy'n wirioneddol gynrychioliadol. Mae'r Bil hwn yn gam tuag at sicrhau cynrychiolaeth gwbl amrywiol drwy geisio sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth dynion a menywod yn y Senedd.

Yn 2003, y Senedd oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i sicrhau'r cydraddoldeb hwnnw. Er nad yw cyfran yr Aelodau sy'n fenywod erioed wedi gostwng o dan 42 y cant, mae'n siomedig nad yw cynrychiolaeth gyfartal wedi'i sicrhau'n gyson, er gwaethaf y camau a gymerwyd gan rai pleidiau gwleidyddol o'u gwirfodd. Wrth inni edrych tuag at ethol Senedd â 96 o Aelodau yn 2026, mae'n briodol inni feddwl am fesurau a allai gyfrannu at ethol Senedd sy'n adlewyrchiad go iawn o'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwyllo gan y dystiolaeth ryngwladol ac academaidd fod cwotâu deddfwriaethol yn fecanwaith effeithiol ar gyfer cynyddu lefelau cynrychiolaeth menywod mewn seneddau, ac felly'n cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod na all y Bil warantu cydraddoldeb, ac y bydd angen ymrwymiad gan bleidiau gwleidyddol i osod menywod mewn safleoedd y gellir eu hennill ar restrau mewn seddi y gellir eu hennill. Rhaid rhoi camau anneddfwriaethol eraill ar waith hefyd, i gyd-fynd â'r Bil, i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae menywod yn aml yn eu hwynebu wrth geisio cael eu dethol a'u hethol i'r Senedd.

Tynnwyd cryn dipyn o sylw at y ddarpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i ymgeisydd, fel rhan o'r broses o gael ei enwebu gan blaid wleidyddol, wneud datganiad ynghylch a yw'n fenyw ai peidio. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn fodlon ar y ddarpariaeth ac maent o'r farn bod hon yn ffordd gymesur o weithredu a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheolau cwota. Fodd bynnag, fel Pwyllgor, rydym i gyd yn cytuno bod angen diogelu rhag unrhyw ymgais i gamddefnyddio'r broses drwy gynnwys gwneud datganiad ffug yn y drosedd o arfer lwgr sy'n gymwys i ddarparu unrhyw wybodaeth ffug arall ar ffurflen enwebu.

Er bod safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylid cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol ac ynghylch agweddau eraill ar y Bil, rydym yn unfrydol yn ein pryderon ynghylch y risgiau posibl a allai godi os na fydd yr ansicrwydd ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â'r Bil hwn yn cael ei ddatrys cyn i'r Bil gael ei weithredu. Os bydd y Senedd yn pasio'r Bil, credwn fod rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol arfer ei bŵer o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyfeirio'r Bil i'r Goruchaf Lys er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ansicrwydd yn ei gylch.

David F. Rees.

David Rees AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Argymhellion

Argymhelliad 1. Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), ond, drwy gydol eu gwaith craffu parhaus ar y Bil, dylai Aelodau o'r Senedd roi sylw i'r materion a amlygir yn ein hadroddiad.....Tudalen 40

Argymhelliad 2. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pa sefyllfaoedd sy'n ymwneud â thynnu ymgeisydd oddi ar restr y manylir arnynt yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn unol ag adran newydd 7D(1)(a) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), a darparu manylion am fwriadau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob amgylchiad.....Tudalen 64

Argymhelliad 3. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i newid y "may" yn adran newydd 7D(1) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) i "must", gan ei fod yn ymwneud â darpariaeth i'w gwneud yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau mewn perthynas ag effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr ymgeiswyr ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B.....Tudalen 64

Argymhelliad 4. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gadarnhau y bydd darpariaeth a wneir yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau mewn perthynas ag effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr o ymgeiswyr ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl ar ôl i restr gael ei chyflwyno, bod rhaid ailasesu'r rhestr sy'n weddill yn erbyn y rheolau cwota. Os bydd yr asesiad hwnnw'n canfod nad yw'r rhestr yn cydymffurfio mwyach, dylid rhoi cyfle i'r blaid aildrefnu ei hymgeiswyr i sicrhau cydymffurfiaeth. Os yw'r blaid o'r farn ei bod yn dymuno sefyll ymgeisydd ychwanegol yn lle'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegol hwnnw fod wedi gwneud yr un datganiad â'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl ynghylch a yw'n fenyw ai peidio.....Tudalen 64

Argymhelliad 5. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau gael eu llenwi gan y person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr a wnaeth yr un datganiad â'r Aelod sy'n gadael ynghylch a yw'n fenyw ai peidio. Os nad oes ymgeiswyr o'r fath ar y rhestr, rhaid i'r sedd wag gael eu llenwi gan y person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr na wnaeth yr un datganiad.....Tudalen 65

Argymhelliad 6. Wrth roi ein hargymhellion 4 a 5 ar waith yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu

data i sicrhau bod unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chadw datganiadau ymgeiswyr ynghylch a ydynt yn fenyw ai peidio am gyfnod priodol (sef cyfnod y Senedd berthnasol ar gyfer seddi sy'n digwydd dod yn wag).

.....Tudalen 65

Argymhelliad 7. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer dynodi dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Tudalen 75

Argymhelliad 8. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi sicrwydd y bydd y safonau perfformiad a'r drosedd o dorri dyletswydd swyddogol sy'n gymwys i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn cael eu hestyn i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (a'r dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol). Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai amlinellu a fydd angen unrhyw newidiadau o ran deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth i gyflawni hyn.

.....Tudalen 75

Argymhelliad 9. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymrwymo i wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau i estyn y drosedd o arfer lwgr o ran darparu datganiadau ffug mewn papurau enwebu a phapurau eraill i gynnwys datganiadau ffug a wneir o dan adran 7D(2) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006). Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai amlinellu a fydd angen unrhyw newidiadau o ran deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth i gyflawni hyn.

.....Tudalen 95

Argymhelliad 10. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, os bydd y Senedd yn penderfynu sefydlu pwyllgor yn unol â chynnig o dan adran 2(1) o Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024, gasglu a chyhoeddi data digonol ynghylch amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau etholedig i lywio adolygiad y pwyllgor. Os caiff y Bil ei ddiwygio yn unol â'n hargymhelliad 11 i osod cyfrifoldeb am adolygu effaith a gweithrediad y Ddeddf a darpariaeth gysylltiedig ar Weinidogion Cymru, dylid ymgorffori'r gofyniad i gasglu a chyhoeddi data yn y ddarpariaeth adolygu statudol honno.Tudalen 102

Argymhelliad 11. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2:

- I ddileu adran 2 (adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf) o'r Bil ar y sail bod y ddarpariaeth yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol.

- I'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno neu o dan Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Seneddau yn y dyfodol a'u pwyllgorau o ran p'un a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud gwaith craffu ôl-ddeddfwriaeth, ac os felly, pryd a sut.Tudalen 103

Argymhelliad 12. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein hargymhelliad 11, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 2(2)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor a sefydlir i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno neu o dan Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024 gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd gyntaf i'w hethol ar ôl i adran 1 o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ddod i rym).Tudalen 104

Argymhelliad 13. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein hargymhellion 11 na 12, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 2(2)(b) i ddileu'r gofyniad presennol bod rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd bennu bod gwaith y pwyllgor i'w gwblhau o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd gyntaf i'w hethol ar ôl i adran 1 o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ddod i rym, a rhoi yn ei le ddarpariaeth y caiff y cynnig gynnwys terfyn amser arfaethedig erbyn pryd y mae rhaid cwblhau adroddiad y pwyllgor.Tudalen 104

Argymhelliad 14. Fel rhan o'r broses o ddatblygu ac ymgynghori ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ynghylch amserlen arfaethedig yr etholiad, a mynd ati i'w gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys asesiad o unrhyw effeithiau ar bobl o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol.Tudalen 117

Argymhelliad 15. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi manylion yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ar wahân i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Tudalen 118

Argymhelliad 16. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol egluro a fydd y gost ychwanegol o £6,000 a nodwyd ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei

hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru neu'r Comisiwn Etholiadol, ac adlewyrchu'r gost ychwanegol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig..... Tudalen 119

Argymhelliad 17. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda'r Llywydd, y Comisiwn Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol i ddatblygu a chyhoeddi llwybr clir ar gyfer nodi, rheoli a lliniaru unrhyw risgiau i'r broses o gynnal etholiad y Senedd yn 2026, a/neu i ganlyniadau'r etholiad hwnnw, a allai ddeillio o'r diffyg consensws ynghylch a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i basio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ai peidio. Rhaid cyhoeddi'r llwybr cyn y gofynnir i'r Senedd basio'r Bil yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol.
..... Tudalen 146

Argymhelliad 18. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, ar ôl cyfnod cyfredol etholiad cyffredinol y DU, drafod â Llywodraeth y DU y mecanweithiau ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth o ran y cwestiwn ynghylch a fyddai Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys unrhyw ddefnydd posibl o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu Ddeddf gan Senedd y DU gyda'r nod o osgoi trafodaeth gyfreithiol hir a sicrhau bod unrhyw ansicrwydd yn cael ei ddatrys cyn etholiad y Senedd yn 2026. Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol osod datganiad gerbron y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn cyn y gofynnir i'r Senedd basio'r Bil yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol.
..... Tudalen 146

Argymhelliad 19. Os bydd y Senedd yn pasio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol, yna er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch a fyddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol arfer ei bŵer o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyfeirio'r Bil i'r Goruchaf Lys a gofyn i'r mater gael ei ystyried, os yn bosibl, o fewn amserlen gyflym na fyddai, pe ceid bod y Bil o fewn cymhwysedd, yn atal cwotâu ymgeiswyr rhag cael eu gweithredu ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026..... Tudalen 147

Er nad ydynt yn ymwneud â darpariaethau'r Bil, mae gweddill yr argymhellion yn ymdrin â rhwystrau eraill o ran dethol ac ethol ymgeiswyr a busnes seneddol ar ôl yr etholiad.

Argymhelliad 20. Dylai Comisiwn y Senedd gomisiynu archwiliad sy'n sensitif i rywedd o ddiwylliant, ffyrdd o weithio a chyfleusterau'r Senedd. Dylai canlyniadau'r archwiliad fod ar gael mewn digon o amser i lywio penderfyniadau

ar brosiect Bae Caerdydd 2032, a phenderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Seithfed Senedd ynghylch ei ffyrdd o weithio. Tudalen 166

Argymhelliad 21. Dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod ei brosiectau Tŷ Hywel 2026, Siambr 2026 a Bae Caerdydd 2032 yn cael eu llywio drwy ymgysylltu ac ymgynghori â sefydliadau amrywiaeth i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan arfer gorau a'u bod yn cael eu diogelu at y dyfodol o ran anghenion posibl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, yn ogystal â'r anghenion a nodwyd gan Aelodau presennol, staff cymorth, staff Llywodraeth Cymru, staff y Comisiwn ac undebau llafur cysylltiedig. Dylid gwneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori tebyg i lywio gwaith i sicrhau bod pwyllgorau, eu cyfarfodydd a'u gweithgareddau anffurfiol yn gwbl hygyrch i'r Aelodau, staff y Comisiwn a chyfranwyr at eu gwaith. Tudalen 167

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i'r ffyrdd gorau o ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr sy'n fenywod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gellir targedu a dyrannu cyllid, ac ar ba ffurf y rhoddir y cymorth ariannol hwn. Dylai'r gwaith ymchwil gael ei gwblhau mewn pryd i sicrhau y gall cynlluniau cymorth ariannol newydd fod ar waith mewn digon o amser i alluogi darpar ymgeiswyr i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch p'un a ddylent sefyll i gael eu dethol neu eu hethol yn etholiad Senedd yn 2026. Tudalen 167

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a phartneriaid eraill i sicrhau bod digon o arweiniad a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr ac Aelodau etholedig ar fynd i'r afael â cham-drin ac aflonyddu, gan gynnwys sut i roi gwybod amdano a pha gymorth sydd ar gael i'r rhai y mae'n effeithio arnynt. Tudalen 168

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth y DU i ofyn am wybodaeth am sut y mae Llywodraeth y DU wedi dal ati i adolygu adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ers 2020, a pha ystyriaeth bellach y mae wedi'i rhoi i gychwyn y ddarpariaeth. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ailadrodd ei galwad i gychwyn adran 106 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd (a/neu i'r pŵer i wneud hynny gael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru). Tudalen 169

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam y mae adran 30 o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (fel y'i mewnosodwyd gan welliant yng Nghyfnod 2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chasglu a chyhoeddi data amrywiaeth

ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol gwmpasu etholiadau'r Senedd yn unig, ac
nid pob un o etholiadau datganoledig Cymru.....Tudalen 169

1. Cyflwyniad

Y Bil

1. Ar 11 Mawrth 2024, cyflwynodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd, Jane Hutt AS ('yr Aelod sy'n gyfrifol'), Fil gan Lywodraeth Cymru, sef Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil'), i'r Senedd.¹ Ar yr un diwrnod, gosododd Femorandwm Esboniadol ('y Memorandwm') i gyd-fynd â'r Bil (a oedd yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol)², cyhoeddodd Ddatganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth³, a gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig⁴. Ar 12 Mawrth 2024, gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn.⁵

2. Wedi iddo gael ei benodi, ysgrifennodd y Prif Weinidog newydd at y Llywydd i gadarnhau y byddai Jane Hutt AS, y Trefnydd a'r Prif Chwip, yn parhau fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.⁶

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil atom ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 7 Mehefin 2024.

Cylch gorchwyl

4. Ar 13 Mawrth 2024, gwnaethom gytuno i ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcan polisi a nodir yn y Bil, sef gwneud y Senedd yn deddfwrfa fwy effeithiol drwy sicrhau ei bod yn cynrychioli, yn gyffredinol, gyfansoddiad y boblogaeth o ran rhywedd.
- Y system orfodi a sancsiynau posibl am beidio â chydymffurfio.

¹ Mae gwybodaeth am y Bil a'i hynt drwy'r Senedd ar gael ar [dudalen y Bil ar y we](#)

² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024

³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024

⁴ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\)](#), 11 Mawrth 2024.

⁵ Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#) [paragraffau 121-130], 12 Mawrth 2024

⁶ [Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog](#), 5 Ebrill 2024

- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm.
- Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm).
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd.
- Y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

Yr amserlen graffu

5. Ar 12 Mawrth 2024, penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen ar gyfer ein trafodaethau ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Pennodd mai 7 Mehefin 2024 fyddai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad. Roedd hynny'n rhoi naw wythnos eistedd i ni i gwblhau ein gwaith, sy'n wahanol i'r 12 wythnos eistedd y byddem yn disgwyl eu cael fel arfer i wneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar Filiau.

6. Cyn cymeradwyo'r amserlen, gofynnodd y Pwyllgor Busnes i'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS, roi rhagor o wybodaeth ynghylch yr angen am amserlen graffu gyflym ar gyfer y Bil. Mewn gohebiaeth wedi hynny, dywedodd hi fod yr amserlen arfaethedig yn "sylfaenol ar gyfer cynnal llwybr tuag at weithredu'r mesurau mewn da bryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026" ac ategodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lynu wrth Gonfensiwn Gould (na ddylid newid cyfraith etholiadol o fewn chwe mis i etholiad y byddai'r newid yn effeithio arno).⁷

⁷ [Llythyr oddi wrth y Llywydd](#), 15 Mawrth 2024 [gweler y llythyr atodedig]

Ein dull gweithredu

7. Ar 15 Mawrth 2024, gwnaethom gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig. Er mwyn sicrhau y gallai'r dystiolaeth a fyddai'n dod i law lywio'r rhan fwyaf o'n sesiynau tystiolaeth lafar, y dyddiad cau oedd 12 Ebrill 2024. Cawsom 485 o ymatebion.⁸
8. Gwnaethom hefyd gomisiynu cwestiwn mewn arolwg omnibws YouGov ar wleidyddiaeth Cymru i gael syniad o agweddau'r cyhoedd at egwyddor cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol ar gyfer etholiadau'r Senedd.⁹
9. Rhwng 13 Mawrth a 1 Mai 2024, gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Aelod sy'n gyfrifol a rhanddeiliaid allweddol.¹⁰
10. Rydym wedi gohebu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Comisiwn y Senedd a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.¹¹
11. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu eu barn, eu profiadau, eu tystiolaeth a'u harbenigedd â ni. Gwyddom na fydd pawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn cytuno â'n casgliadau a'n hargymhellion. Serch hynny, hoffem sicrhau pawb sydd wedi cymryd rhan yn ein gwaith ein bod wedi ystyried a rhoi sylw i bob cyfraniad yn ofalus wrth inni wneud ein gwaith craffu, dod i'n casgliadau, a llunio'r adroddiad hwn.

Cyfranogiad Jane Dodds AS

12. Er nad yw Jane Dodds AS yn aelod ffurfiol o'r Pwyllgor, mae wedi cymryd rhan lawn yn ein gwaith yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.¹² Mae hyn yn cynnwys datblygu a chytuno ar y casgliadau a'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

13. Yn unol â'u harfer, bu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn craffu ar y Bil o ran priod feysydd eu diddordeb. Mae gwybodaeth am eu gwaith, a'u casgliadau, i'w gweld ar dudalen y Bil ar y we.

⁸ Mae'r ymatebion ysgrifenedig a gawsom ar gael yn llawn ar [dudalen y Bil ar y we](#).

⁹ [Canfyddiadau arolwg YouGov](#), Ebrill 2024

¹⁰ Mae manylion am y sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys lincs i'r trawsgrifiadau a darllediadau Senedd.tv, ar gael ar [dudalen y Bil ar y we](#) ac yn Atodiad 3.

¹¹ Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar [dudalen y Bil ar y we](#).

¹² Mae Rheol Sefydlog 17.49 yn darparu y caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor, ond na chânt bleidleisio.

Ein barn ni

- 14.** Mae'r Bil yn rhan o becyn o ddiwygio etholiadol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn derbyn bod cyd-ddibyniaeth rhwng y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac yn cydnabod yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth cyn etholiad y Senedd yn 2026, rydym yn siomedig â'r amser cyfyngedig a oedd ar gael i ni i graffu ar yr egwyddorion cyffredinol.
- 15.** Mae'r amserlen fyrrach o reidrwydd wedi cyfyngu ar ein dull craffu a'r amser a oedd ar gael i gasglu tystiolaeth ac i ystyried y dystiolaeth honno wrth lunio ein casgliadau. Mae hefyd wedi cyfyngu ar yr amser a oedd ar gael i'r cyhoedd i ymgysylltu â'n gwaith ac wedi cyfyngu ar allu rhanddeiliaid i wneud eu gwaith dadansoddi hwythau, ac i baratoi eu tystiolaeth. Mae hyn yn arbennig o anffodus o ystyried diddordeb mawr y cyhoedd yn y Bil ac yn y broses o ddiwygio'r Senedd yn fwy cyffredinol, ac oherwydd mai dyma'r Bil cyntaf y nodwyd ei fod, ym marn Llywydd y Senedd, yn gyfan gwbl y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 16.** Mae angen digon o amser er mwyn craffu'n effeithiol ac, er ein bod wedi gwneud ein gorau glas o fewn yr amserlen heriol, ein barn ni yw na ddylai hyn fod yn gysail ar gyfer defnyddio amserlenni craffu byrrach yn y dyfodol.

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

Y cefndir

17. Mewn datganiad llafar wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Dyma'r ail Fil mewn pecyn o ddiwygiadau a'i ddiben yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol sy'n gallu gwasanaethu pobl Cymru yn well.

[...] diben y Bil hwn yw cryfhau'r Senedd drwy geisio sicrhau ei fod yn adlewyrchu cyfansoddiad y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu, yn enwedig o ran cynrychiolaeth menywod".¹³

18. Cyflwynwyd y Bil yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru o ddiwygio etholiadol, sy'n cynnwys Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)¹⁴ a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)¹⁵.

19. Dylid darllen y Bil ar y cyd â'r ddarpariaethau yn Rhan 2 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sy'n ymwneud â'r system etholiadol arfaethedig ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd.

20. Yn hytrach na chreu deddfwriaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun, mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").

Blwch 1 Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

Os caiff ei basio, bydd y Bil yn:

- Cyflwyno cwota rhywedd statudol integredig i'r system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig y disgwylir iddi gael ei chyflwyno gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).
- Pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn dewis cyflwyno rhestr neu restrau o ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd, ei gwneud yn ofynnol bod y rhestrau hynny'n cydymffurfio â'r rheolau cwota a nodir yn y Bil.

Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraffau 121 a 123], 12 Mawrth 2024

¹⁴ [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\)](#)

¹⁵ [Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#)

- Ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr plaid ym mhob un o etholaethau'r Senedd yn fenywod (pan fo'r rhestr yn cynnwys dau neu ragor o ymgeiswyr). At hynny, ei gwneud yn ofynnol i restr fod wedi'i threfnu fel bod rhaid i ymgeisydd ar restr nad yw'n fenyw gael ei ddilyn yn syth gan ymgeisydd sy'n fenyw (oni bai mai dyna'r ymgeisydd olaf ar y rhestr). Dyma'r meini prawf gosod fertigol.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw (pan fo plaid wedi cyflwyno rhestrau mewn dwy neu ragor o etholaethau'r Senedd). Dyma'r meini prawf gosod llorweddol.
- Darparu ar gyfer creu Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (SCEC) i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r meini prawf gosod llorweddol.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ar restr plaid nodi p'un a yw'n fenyw ai peidio.
- Darparu ar gyfer adolygu gweithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd¹⁶ gynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu materion penodedig).

Ystyried cymhwysedd deddfwriaethol

21. Mae'r Llywydd wedi dweud na fyddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd ei fod:

- Yn ymwneud â chyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl.
- Yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, sef Deddf Cydraddoldeb 2010.¹⁷

22. Gwnaethom geisio ein cyngor cyfreithiol ein hunain i lywio ein trafodaeth. Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol yn fanylach ym mhennod 8.

¹⁶ Yn yr adroddiad Saesneg, defnyddir y term "Llywydd" wrth gyfeirio at ddeiliad presennol y swydd a "Presiding Officer" neu "PO" wrth gyfeirio at ddarpar ddeiliad y swydd mewn Senedd yn y dyfodol. Defnyddir y term "Llywydd" yn gyffredinol yn Gymraeg

¹⁷ [Datganiad y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol](#), 11 Mawrth 2024

Egwyddorion cyffredinol y Bil

23. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.10, ein rôl ni yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo i gyfnodau nesaf y broses deddfwriaethol.

24. Clywsom wahaniaeth barn am egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd mwyafrif helaeth y rhai a rannodd eu barn bersonol yn gwrthwynebu'r Bil (gweler Blwch 2), tra bo'r sefydliadau a'r bobl a rannodd eu barn broffesiynol yn fwy cefnogol i'r cynigion (gweler Blwch 3).

***Blwch 2 Enghreifftiau o farn am egwyddorion cyffredinol y Bil a roddwyd gan bobl a gyfrannodd at ein gwaith gan roi eu barn bersonol*¹⁸**

Dyma rai o'r prif themâu:

- Awgrymiadau y dylid seilio cwotâu ymgeiswyr (neu fesurau deddfwriaethol eraill) ar ryw yn hytrach na rhywedd.
- Dylid dethol/ethol ymgeiswyr ar sail teilyngdod, ac nid ar sail eu nodweddion (p'un a yw hynny'n seiliedig ar ryw, rhywedd neu nodweddion gwarchoddedig eraill).
- Gan fod datganiad ymgeisydd ynghylch a yw'n fenyw ai peidio i'w dderbyn fel ffaith, a fyddai hyn yn caniatáu i ymgeiswyr gwrywaidd ddatgan eu bod yn fenywod (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o gamddefnyddio'r broses, risgiau i fenywod a merched, erydu hawliau menywod a merched, creu cynsail ar gyfer caniatáu i bobl hunanddiffinio eu rhywedd mewn agweddau eraill ar fywyd a/neu lai o gynrychiolaeth fenywaidd).
- Galwadau ar ymgeiswyr i ddarparu tystysgrifau geni neu ddogfennau eraill fel tystiolaeth i ategu eu datganiadau.
- Galwadau am refferendwm cyn i'r cynigion ddod i rym.

Dyma rai o'r materion eraill a godwyd:

- Cefnogaeth i'r egwyddor o gael Senedd fwy cynrychioliadol, ond amheuan ynghylch ai cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol yw'r ffordd briodol o wneud hynny (gyda chyfeiriad at hanes y Senedd o ran cynrychiolaeth fenywaidd).

¹⁸ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar dudalen.yr.ymgynghoriad.ar.y.we

- Dylai pob Aelod o'r Senedd allu cynrychioli pob un o'i etholwyr waeth beth fo'i nodweddion.
- A fyddai'r Bil yn gwella ansawdd y gynrychiolaeth (gyda chyfeiriad at y posibilrwydd o osod ymgeiswyr llai cymwys yn uwch ar y rhestrau er mwyn bodloni'r cwota).
- Gallai fod canfyddiad bod Aelodau o'r Senedd sy'n fenywod wedi'u hethol dim ond oherwydd cwotâu ymgeiswyr, yn hytrach nag yn ôl eu teilyngdod.
- Galwadau am ganolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau sy'n anghymhell neu'n atal menywod rhag sefyll i'w hethol (gan gynnwys materion fel gofal plant, aflonyddu, amodau gwaith, natur rôl Aelod o'r Senedd, ac i ba raddau y mae pleidiau gwleidyddol yn groesawgar i fenywod).
- A fyddai effaith anghymesur ar bleidiau llai y bydd ganddynt, efallai, gronfa lai o ymgeiswyr.
- A yw'r Bil yn ddigon cynhwysol o ran pobl anneuaid a menywod traws.
- A yw'r Bil yn gwahaniaethu yn erbyn dynion.
- Cyfeiriad at ddadleuon ehangach am hunaniaeth o ran rhywedd.
- A yw pwerau'r SCEC i aildrefnu rhestrau pleidiau yn briodol.
- Goblygiadau o ran canfyddiad pobl o Lywodraeth Cymru/enw da Llywodraeth Cymru a/neu'r Senedd, a hynny gartref neu'n rhyngwladol (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys diffyg consensws o ran cymhwysedd deddfwriaethol; cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol; canlyniadau anfwriadol posibl; goblygiadau ar gyfer democratiaeth Cymru ac ymgysylltiad pleidleiswyr; a blaenoriaethu o ran darparu gwasanaethau/meysydd polisi fel iechyd, addysg, trafnidiaeth a datblygu economaidd).
- Costau (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys gwrthwynebiad i'r Bil a/neu bryder ynghylch heriau cyfreithiol).
- Gwybodaeth i'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth.
- Gwrthwynebiad i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn enwedig mewn perthynas â nifer yr Aelodau a'r system etholiadol rhestr gaeedig.

Blwch 3 Enghreifftiau o farn am egwyddorion cyffredinol y Bil a roddwyd gan sefydliadau a phobl a gyfrannodd at ein gwaith yn rhinwedd eu swyddi

Dyma rai o'r prif themâu:

- Y manteision a fyddai'n dod yn sgil cynrychiolaeth well, o ran safbwyntiau mwy amrywiol, profiadau bywyd, llunio polisiau'n well, gwneud penderfyniadau'n well a mwy o ddilysrwydd.¹⁹
- Galwadau am fesurau amrywiaeth a chynhwysiant ehangach i fynd i'r afael â phrofiad menywod o wahaniaethu croestoriadol, ac i wella cynrychiolaeth pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill/pobl o grwpiau ar yr ymylon.²⁰
- Paramedrau'r datganiad ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio, yn galw am ddull mwy diffiniedig, ac yn codi'r posibilrwydd o heriau cyfreithiol.²¹

Dyma rai o'r materion eraill a godwyd:

- Pwysigrwydd y Bil o ran y pecyn ehangach o ddiwygio etholiadol (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys dylanwad pleidiau gwleidyddol yn y system etholiadol rhestr gaeedig, a'r nod o sicrhau Senedd fwy cynrychioliadol yn ogystal â Senedd sydd â mwy o gapasiti).²²
- Y defnydd eang o gwotâu ymgeiswyr ledled y byd ac awgrymiadau mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu cynrychiolaeth menywod.²³
- Hanes cryf y Senedd o ran cynrychiolaeth menywod fel cyd-destun o ran a oes angen y Bil ai peidio.²⁴

¹⁹ Er enghraifft: SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB9-P Cymdeithas Fawcett (Saesneg yn unig), SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig), SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig)

²⁰ Er enghraifft: SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB12-P Athina Mara (Saesneg yn unig), SCECLB14-P Yr Athro Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig), SCECLB36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig)

²¹ Er enghraifft: SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB8-P Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Saesneg yn unig), SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig), SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig), SCECLB24-P Chwiorydd Plaid (Saesneg yn unig), SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig), SCECLB39-P Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru (Saesneg yn unig)

²² SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

²³ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB25-P Dr Anne Jenichen (Saesneg yn unig)

²⁴ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig)

- Bod hanes y Senedd o ran cynrychiolaeth menywod yn agored i niwed ac yn agored i fod yn anghyson os yw'n dibynnu ar y camau y mae rhai pleidiau gwleidyddol yn eu cymryd o'u gwirfodd, ac ar lwyddiant etholiadol y pleidiau hynny.²⁵
- Yr angen i ddenu menywod i sefyll fel ymgeiswyr ac i fynd i'r afael â'r ystod o rwystrau sy'n wynebu menywod sy'n sefyll i'w hethol (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys aflonyddu a chamdriniaeth, cyfrifoldebau gofalu, a diwylliant gwleidyddol), a galwadau am fesurau megis cymorth ariannol, rhannu swyddi, a mentora/hyfforddiant.²⁶
- A allai'r Bil atal pobl drawsryweddol a phobl nad ydynt yn cydymffurfio o ran eu rhywedd rhag sefyll i'w hethol.²⁷
- A yw'n ymddangos bod y Bil yn cyflwyno system o hunanddiffinio rhywedd, ac y gallai arwain at orgynrychiolaeth o ran dynion (gyda chyfeiriad at faterion a oedd yn cynnwys diffyg sancsiynau am ffugio datganiad a'r sail dros herio).²⁸
- A yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio.²⁹

Dulliau eraill

25. Roedd ein cylch gorchwyl yn cynnwys ystyried a oes angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion polisi'r Bil. Buom yn trafod a oes angen cwotâu rhywedd deddfwriaethol neu a yw'r camau y gall pleidiau gwleidyddol eu cymryd o'u gwirfodd ar hyn o bryd yn ddigonol.

26. Dywedodd Llafur Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod ganddi fesurau cydraddoldeb ar waith eisoes, gan gynnwys gweithredu cwotâu ymgeiswyr ar gyfer rhestrau rhanbarthol.³⁰ Esboniodd Plaid Cymru ei bod wedi cymryd mathau gwahanol o gamau dros y 25 mlynedd diwethaf i sicrhau cymysgedd gwell o

²⁵ SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

²⁶ Er enghraifft: SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB9-P Cymdeithas Fawcett (Saesneg yn unig), SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB41-P Plaid Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷ SCECLB11-P Little Brighthouse (Saesneg yn unig), SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig)

²⁸ Er enghraifft: SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB24-P Chwiorydd Plaid (Saesneg yn unig)

²⁹ Er enghraifft: SCECLB1-P Keith Bush CB (Saesneg yn unig), SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis, SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig), SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

³⁰ SCECLB29-P Llafur Cymru (Saesneg yn unig)

ymgeiswyr, gan gynnwys gefeillio ei 20 etholaeth uchaf yn etholiad diwethaf y Senedd.³¹

Tabl 1 Cynrychiolaeth fesul plaid ers 1999³²

| | | Menywod | | Dynion | | Cyfanswm |
|-------------|--------------------------------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
| | | Nifer | Y cant | Nifer | Y cant | |
| 1999 | Llafur Cymru | 16 | 57 | 12 | 43 | 28 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 0 | 0 | 9 | 100 | 9 |
| | Plaid Cymru | 6 | 35 | 11 | 65 | 17 |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 3 | 50 | 3 | 50 | 6 |
| | Total | 25 | 42 | 35 | 58 | 60 |
| 2003 | Llafur Cymru | 19 | 63 | 11 | 37 | 30 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 2 | 18 | 9 | 82 | 11 |
| | Plaid Cymru | 6 | 50 | 6 | 50 | 12 |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 3 | 50 | 3 | 50 | 6 |
| | Annibynnol | 0 | 0 | 1 | 100 | 1 |
| | Cyfanswm | 30 | 50 | 30 | 50 | 60 |
| 2007 | Llafur Cymru | 16 | 62 | 10 | 38 | 26 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 1 | 8 | 11 | 92 | 12 |
| | Plaid Cymru | 7 | 47 | 8 | 53 | 15 |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 3 | 50 | 3 | 50 | 6 |
| | Annibynnol | 1 | 100 | 0 | 0 | 1 |
| | Cyfanswm | 28 | 47 | 32 | 53 | 60 |
| 2011 | Llafur Cymru | 15 | 50 | 15 | 50 | 30 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 4 | 29 | 10 | 71 | 14 |
| | Plaid Cymru | 4 | 36 | 7 | 64 | 11 |

³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 263], 18 Ebrill 2024

³² Cynrychiolaeth fel yr oedd adeg yr etholiad dan sylw. Nid yw'n ystyried newidiadau dilynol mewn aelodaeth grwpiau, is-etholiadau neu lenwi seddi rhanbarthol. Ffynhonnell ar gyfer 1999-2016: [Senedd sy'n gweithio i Cymru](https://senedd.wales/gweithio-i-cymru). Tachwedd 2017. Rhagdybiaethau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael yw'r ffigurau ar gyfer 2021.

| | | Menywod | | Dynion | | Cyfanswm |
|-------------|--------------------------------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
| | | Nifer | Y cant | Nifer | Y cant | |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 2 | 40 | 3 | 60 | 5 |
| | Cyfanswm | 25 | 42 | 35 | 58 | 60 |
| 2016 | Llafur Cymru | 15 | 52 | 14 | 48 | 29 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 3 | 27 | 8 | 73 | 11 |
| | Plaid Cymru | 4 | 33 | 8 | 67 | 12 |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 1 | 100 | 0 | 0 | 1 |
| | UKIP | 2 | 29 | 5 | 71 | 7 |
| | Cyfanswm | 25 | 42 | 35 | 58 | 60 |
| 2021 | Llafur Cymru | 17 | 57 | 13 | 43 | 30 |
| | Ceidwadwyr Cymreig | 3 | 19 | 13 | 81 | 16 |
| | Plaid Cymru | 5 | 38 | 8 | 62 | 13 |
| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 1 | 100 | 0 | 0 | 1 |
| | Cyfanswm | 26 | 43 | 34 | 57 | 60 |

27. Roedd rhai cyfranwyr o blaid cyflwyno cwotâu ymgeiswyr statudol. Er enghraifft, dywedodd yr Athro Meryl Kenny fod cwotâu cyfreithiol, yn ei barn hi, yn sicrhau bod cynrychiolaeth yn gyfrifoldeb ar bawb, a dywedodd fod lefelau cynrychiolaeth menywod yn y Senedd yn amrywio'n sylweddol ar draws y pleidiau, bod y lefelau hynny wedi amrywio dros amser, a'u bod i'w priodoli i raddau helaeth i gwotâu ymgeiswyr gwirfoddol a fabwysiadwyd gan rai pleidiau.³³ Roedd 5050Amrywiol³⁴ o'r farn bod mabwysiadu cwotâu gwirfoddol gan rai pleidiau wedi methu â sicrhau canlyniadau cyson, hirdymor.³⁵ Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru ("ERS Cymru") fod cwotâu gwirfoddol yn dibynnu ar bleidiau i optio i mewn (ac ar lwyddiant etholiadol y pleidiau hynny), a bod hynny'n rhywbeth na ellir ei adael i ffawd.³⁶ Ategwyd hyn gan Joyce Watson AS, Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS, wrth iddynt roi tystiolaeth fel

³³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 415-416], 18 Ebrill 2024

³⁴ Ymgyrch glymbleidiol mewn partneriaeth rhwng Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cyngor Hil Cymru, ac EYST Cymru (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig)

³⁵ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 24 Ebrill 2024

aelodau o Gawcws Menywod y Senedd.³⁷ Dywedodd Joyce Watson AS, Cadeirydd Cawcws Menywod y Senedd:

*“The evidence is clear, and I’ve presented it, that wherever you leave something to a party, the governing body of that party can change and their views can change, so it’s subject to change, subject to individuals supporting that position. What this does—and why I support this—is that it puts it in legislation. And I think that’s helpful to the parties as well, because the parties don’t have to say, ‘We’re doing this’, and you have all of the internal wrangling about it. What the parties will then say is, ‘The law determines that we have to do this’, and I think that’s very helpful”.*³⁸

28. Ar y llaw arall, dywedodd Janet Finch-Saunders AS, aelod arall o Gawcws Menywod y Senedd, nad oedd hi o’r farn bod angen deddfwriaeth. Dywedodd y dylai pleidiau fod yn annog menywod, ond ei bod yn teimlo bod ei phlaid hi [y Ceidwadwyr Cymreig] eisoes yn gwneud hynny.³⁹

29. Diystyrododd Merched Cymru a’r Rhwydwaith Hawliau Menywod yr angen am gwotâu deddfwriaethol, gan ddadlau bod lefelau cymharol uchel o gynrychiolaeth menywod yn y Senedd, a hynny oherwydd y camau a gymerwyd gan bleidiau gwleidyddol o’u gwirfodd.⁴⁰ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod at ganfyddiadau’r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd (‘y Pwyllgor Diben Arbennig’):

*“But [Reforming our Senedd: A stronger voice for the people of Wales] acknowledges that ‘seven out of the ten best performing countries for female representation do not use quotas, Dr Fiona Buckley and Dr Meryl Kenny identified that of these, many had a well-established system of voluntary party quotas’”.*⁴¹

³⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 278, 280-281 a 285], 24 Ebrill 2024

³⁸ RoP [para 278], 24 April 2024

³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 291], 24 Ebrill 2024

⁴⁰ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig) a SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

⁴¹ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

30. Dywedodd yr Athro Mona Lena Krook wrthym fod effeithiolrwydd cwotâu ymgeiswyr gwirfoddol mewn gwledydd fel Sweden i'w briodoli i'r ffaith bod bron pob un o'r pleidiau wedi mabwysiadu'r mesur. Heb y cyd-destun hwn, meddai:

"I think that legal quotas are really the best mechanism, because it ensures that all parties do it. It also provides a means for imposing sanctions for non-compliance. So, with a voluntary quota, it's just voluntary, so if a party wants to ignore that commitment that they made, they're free to do that. And I think, also, legal measures allows us to think about specific details about what's required by the measure. The idea of alternating between women and men candidates is something that, if you put that in the law, is part of the expectation of compliance with the measure. With a voluntary quota, some parties might commit to that, but they may not, so I think just for a more solid way to institutionalise this commitment to parity, legal quotas are really the way to go".⁴²

Egwyddor cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol

Effeithiolrwydd deddfwrfeydd sydd â lefelau uwch o gynrychiolaeth menywod

31. Mae'r Memorandwm yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw gwneud y Senedd:

"[...] yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru ac ar ran pobl Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, nod y Bil yw sicrhau bod y Senedd yn gynrychioliadol ar y cyfan o gyfansoddiad rhywedd y boblogaeth".⁴³

32. Buom yn trafod â'r Aelod sy'n gyfrifol sut y byddai cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol yn arwain at Senedd fwy effeithiol. Tynnodd yr Aelod sy'n gyfrifol sylw at dystiolaeth ac ymchwil sy'n dangos, meddai, y gall deddfwrfeydd sy'n gytbwys o ran rhywedd fod yn ddeddfwrfeydd mwy effeithiol oherwydd bod menywod yn canolbwyntio ar feysydd polisi gwahanol, ac oherwydd eu dulliau arwain cydweithredol a'u ffyrdd o weithio. Ychwanegodd:

⁴² RoP [paragraff 418], 18 Ebrill 2024

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 3

*“Evidence relating to North America, Sweden, Latin America, Africa—what a difference it’s made in Africa, in terms of women’s leadership—and south Asia is that there’s a difference between male and female citizens in terms of the issues they consider as most important, with women tending to report more concern about healthcare and poverty than men”.*⁴⁴

33. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Cymdeithas Fawcett at waith ymchwil a wnaed gan y King’s Global Institute for Women’s Leadership⁴⁵:

“Their findings show that:

- *Women policy makers prioritise issues that benefit the most vulnerable in society (healthcare, welfare, education etc)*
- *That women work harder than men to represent their constituencies – linked to a stronger sense among voters that the government is responsive to their needs*
- *Women bring more collaborative and inclusive leadership into political environments that are often characterised by division and one-upmanship”.*⁴⁶

34. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd nifer o academyddion at waith ymchwil sy’n dangos effaith gadarnhaol cynrychiolaeth menywod ar lunio polisïau a gwneud penderfyniadau.⁴⁷ Cyfeiriodd yr Athro Kenny hefyd at dystiolaeth helaeth ynghylch effaith mesurau cwota ar gynrychiolaeth menywod o ran niferoedd, ac, yn ehangach, ar sut y mae pobl yn gweld sefydliadau gwleidyddol ac ar waith y sefydliadau hynny.⁴⁸

⁴⁴ RoP [paragraffau 119 a 121], 13 Mawrth 2024

⁴⁵ [King’s Global Institute for Women’s Leadership, Women Political Leaders: The Impact of Gender on Democracy](#) (Saesneg yn unig)

⁴⁶ SCECLB9-P Cymdeithas Fawcett (Saesneg yn unig)

⁴⁷ SCECLB14-P Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig), SCECLB15-P Jennifer Piscopo, Prifysgol Frenhinol Holloway Llundain (Saesneg yn unig), SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig), SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig), SCECLB38-P Dr Louise K. Davidson-Schmich, Prifysgol Miami (Saesneg yn unig)

⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 409], 18 Ebrill 2024

Effaith cwotâu deddfwriaethol ar nifer y menywod sy'n cael eu hethol

35. Dywed y Memorandwm fod “dynion yn gyffredinol yn cynrychioli cyfran uwch o'r llif o wleidyddion newydd o'i gymharu â menywod”, gan nodi bod 69 y cant o'r ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd yn 2021 yn ddynion. Awgryma Llywodraeth Cymru:

“Can fod nifer y dynion sy'n ymgeisio yn etholiadau'r Senedd fel arfer yn fwy na nifer y menywod sy'n ymgeisio, mae perygl y bydd y cynlluniau arfaethedig i ehangu maint y Senedd yn sylweddol, o 60 i 96 o Aelodau, heb gyflwyno cwotâu, yn arwain at fwy o anghydbwysedd o ran rhywedd nag sydd ar hyn o bryd”.⁴⁹

36. Gan gyfeirio at y datganiad uchod, dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod nad oes tystiolaeth i ategu hynny, a'i fod yn tybio ei bod yn bosibl y bydd mwy o fenywod yn cael eu hethol.⁵⁰

37. Dywedodd yr Athro Sarah Childs, cyn aelod o'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (“y Panel Arbenigol”), wrthym fod integreiddio cwotâu ymgeiswyr, yn ei barn hi, yn hollol hanfodol o ran cynyddu maint y Senedd a'r newidiadau i'w system etholiadol.⁵¹ Ategwyd hyn gan yr Athro Kenny, a ddywedodd, pe na bai cwotâu integredig yn cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â'r diwygiadau etholiadol eraill i'r Senedd:

“[...] there's a risk that Wales, which has had a leading representation on women's representation, might see fallback or stagnation in those numbers”.⁵²

38. Mae gwaith ymchwil allanol a wnaed gan Dr William T Daniel ar ran Ymchwil y Senedd yn nodi mai un o'r rhwystrau mawr sy'n atal menywod rhag cael swyddi etholedig yw'r manteision anghymesur sydd gan wleidyddion sydd eisoes yn dal y swyddi hynny wrth geisio cael eu hailethol. Daeth i'r casgliad y dylai cyfuniad o

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 31

⁵⁰ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 18 Ebrill 2024

⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 411], 18 Ebrill 2024

gynnydd yn nifer y seddi (heb neb eisoes yn dal y seddi hynny) a'r gyfraith newydd ar gwotâu hwyluso mynediad i fenywod ymhellach.⁵³

39. Dywedodd 5050Amrywiol fod llawer mwy o ddynion na menywod ar hyn o bryd yn ymgeiswyr mewn etholiadau yng Nghymru ar bob lefel, gan awgrymu y gallai cynnydd yn nifer yr Aelodau yn gyffredinol, heb fesurau cwota, olygu bod dynion yn ennill cyfran fwy fyth o seddi nag yn etholiadau'r Senedd yn y gorffennol. Awgrymodd hefyd y byddai'r fantais sydd gan Aelodau presennol o'r Senedd o gymharu ag ymgeiswyr eraill, sydd eisoes yn gweithio yn erbyn menywod a grwpiau eraill ar yr ymylon, yn cynyddu tangynrychiolaeth menywod.⁵⁴

Cael gwared ar rwystrau i gynrychiolaeth wleidyddol menywod

40. Dywedodd Joyce Watson AS y byddai cwotâu ymgeiswyr statudol yn cael gwared ar y rhwystr seicolegol i fenywod, oherwydd y byddai, meddai, yn gwneud iddynt feddwl bod ganddynt gyfle gwirioneddol, yn hytrach na dim ond siawns.⁵⁵

41. Er na wnaeth arddel safbwynt pendant o ran ffafrio cwotâu ymgeiswyr, cydnabu Elect Her yr hyn a alwdd yn doreth o waith ymchwil academiaidd a byd-eang sy'n dangos, meddai, fod cwotâu rhywedd yn cael effaith ar gynrychiolaeth wleidyddol gytbwys o ran rhywedd, a hefyd yr angen, meddai, i gyflwyno cynifer o fesurau â phosibl er mwyn gwella ein democratiaeth a'i gwneud yn fwy croesawgar i fenywod.⁵⁶

42. Dywedodd Cymdeithas Fawcett wrthym fod angen set ehangach o newidiadau i wneud gwleidyddiaeth yn gynhwysol, ond cydnabu:

"[...] the evidence is really clear and consistent that women are systematically disadvantaged and excluded from our political processes and structures, and that quotas with the right conditions are a really important tool in overcoming that and rebalancing and creating, frankly, a more equal playing field. So, we're really supportive, both of the commitment that we're seeing from the Senedd to

⁵³ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

⁵⁴ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 313], 24 Ebrill 2024

⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 128], 18 Ebrill 2024

women's equal representation and to equality, and to the approach of using quotas as a really evidence-based mechanism".⁵⁷

43. Fodd bynnag, disgrifiodd Merched Cymru gwotâu ymgeiswyr fel offeryn heb awch sy'n gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n atal menywod rhag cael eu cynrychioli'n llawn mewn gwleidyddiaeth, gan awgrymu y byddai'r Bil yn helpu menywod sydd eisoes yn ymwneud â gwleidyddiaeth ac sy'n weithgar yn eu pleidiau, ac na fyddent, yn ôl pob tebyg, yn wynebu fawr ddim rhwystrau o ran cael eu dethol fel ymgeiswyr.⁵⁸

Cynnal cynrychiolaeth menywod

44. Gwnaethom ofyn i'r Athro Laura McAllister, cyn Gadeirydd y Panel Arbenigol, a fydd y Bil yn sicrhau'r amrywiaeth yn y Senedd yr oedd y Panel Arbenigol wedi gobeithio ei gweld. Dywedodd fod amrywiaeth yn egwyddor bwysig iawn a oedd yn rhan annatod o holl ystyriaethau'r Panel Arbenigol, ac felly hefyd sicrhau bod unrhyw ymyriadau wedi'u rhagnodi ac wedi'u diogelu drwy ddeddfwriaeth. Ychwanegodd:

"I feel that the intentions of this Bill are honourable ones and that they chime—there is a definite synergy with the thinking that we had during our expert panel process. I mean, clearly, there are some differences and this piece of legislation goes in a slightly different direction to the one that we'd promoted. But nevertheless, I think in terms of purpose, goal objective, then, there is a very clear commitment to sustaining some of the already impressive levels of gender representation that we have, but making it more secure and more permanent".⁵⁹

45. Dywedodd Dr Larissa Peixoto Vale Gomes ei bod o'r farn bod defnyddio cwotâu ymgeiswyr yn rhywbeth y dylid ei wneud fel mater o drefn er mwyn creu cynrychiolaeth sy'n gymesur â'n systemau, yn hytrach na'u bod yn cael eu gweld fel 'llwybr cyflym' neu fel 'rhwymedi'.⁶⁰

⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 18 Ebrill 2024

⁵⁸ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 8-9], 18 Ebrill 2024

⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 407], 18 Ebrill 2024

46. Tynnodd yr Athro Krook sylw hefyd at bwysigrwydd trin cydraddoldeb fel nodwedd barhaol o sefydliadau gwleidyddol, ac roedd o'r farn mai drwy fesurau cyfansoddiadol cyfreithiol y mae gwneud hynny.⁶¹

47. Ateggodd Joyce Watson AS hyn, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cwotâu cyfreithiol yn nodwedd barhaol er mwyn osgoi symud am yn ôl.⁶²

Cwotâu deddfwriaethol a meritocratiaeth

48. Er bod y Rhwydwaith Hawliau Menywod wedi dweud wrthym nad oedd ganddo safbwynt cytûn ar egwyddor cwotâu deddfwriaethol ar sail rhyw⁶³, dywedodd:

“Most women (like most men) want to be elected on merit, not because they tick a box. The use of quotas is likely to drive the belief that successful candidates are not good enough to be elected otherwise, reducing respect for MSs”.⁶⁴

49. Dywedodd yr Athro Kenny mai ychydig iawn o dystiolaeth ymchwil sydd i gefnogi'r honiadau a wneir fod mesurau cwota yn glastwreiddio 'teilyngdod'. Cyfeiriodd at astudiaethau sydd wedi canfod y gall cwotâu wella ansawdd a phrofiad yr ymgeiswyr, nad yw 'menywod cwota' yn cael eu cosbi gan bleidleiswyr yn y blwch pleidleisio, a bod eu gyrfaoedd yn dilyn llwybr yr un mor llwyddiannus unwaith y byddant yn eu swyddi.⁶⁵

50. Heriodd Cymdeithas Fawcett hefyd yr honiad fod ansawdd ymgeiswyr sy'n cael eu hethol drwy gwota yn is, gan gyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos:

“[...] once women are elected, they are more likely to spend more time working in their local areas, they spend more time on legislative sessions, and raise and advocate for different issues in a way that's really beneficial to politics”.⁶⁶

⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 413], 18 Ebrill 2024

⁶² Cofnod y Trafodion [paragraff 322], 24 Ebrill 2024

⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 200], 24 Ebrill 2024

⁶⁴ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

⁶⁵ SCECLB14-P Dr Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 223], 18 Ebrill 2024

51. Wrth drafod pryderon y gallai menywod sy'n cael eu hethol drwy gwotâu deddfwriaethol gael eu hystyried yn llai cymwys neu'n llai haeddiannol, dywedodd 5050Amrywiol:

"We are not aware that this has been the experience of women elected on All-Women-Shortlists in the Senedd. In Sweden, the introduction of quotas increased the number of women perceived as qualified for political leadership positions.⁶⁷ Even if the concern was founded in evidence, it is a challenge that dwarfs by comparison with the major challenges to being elected in the first place, which this Bill would be the single most important step in addressing".⁶⁸

52. Buom yn trafod meritocraziaeth gyda Chawcws Menywod y Senedd. Wrth sôn am ei gyrfa ei hun, dywedodd Janet Finch-Saunders AS wrthym y byddai'n hoffi meddwl ei bod wedi llwyddo ar sail teilyngdod a'i bod am weld menywod eraill yn gwneud hynny hefyd.⁶⁹ Er ei bod yn cydnabod efallai fod rhai menywod yn hyderus, bod ganddynt rwydweithiau, a'u bod yn teimlo'n barod i gynnig eu henwau, nododd Sioned Williams AS, bod "nifer fawr sydd ddim".⁷⁰

Ymgynghori

Ymgynghori â'r cyhoedd

53. Yn ôl y Memorandwm, "nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol Diwygio'r Senedd na Bil drafft" yn yr amser a oedd ar gael i ddatblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer etholiad 2026.⁷¹

54. Wrth ddatblygu'r Bil, dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi ystyried "y cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael am farn y cyhoedd am Ddiwygio'r Senedd, a fynegwyd mewn cyfres o ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd

⁶⁷ O'Brien, D. & Rickne, J. (2016), Gender quotas and women's political leadership, *American Political Science Review* 110(10):112.-26 (Saesneg yn unig)

⁶⁸ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan 5050Amrywiol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 24 Ebrill 2024](#). (Saesneg yn unig)

⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 287 a 291], 24 Ebrill 2024

⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 301], 24 Ebrill 2024

⁷¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 123

diwethaf”.⁷² Fodd bynnag, cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn diwethaf yn 2018, gan Gomisiwn y Cynulliad ar y pryd, a hynny ar y cynigion a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol (sy’n wahanol i’r cynigion yn y Bil).⁷³

55. Yn ogystal ag ystyried y farn a rannwyd gan aelodau o’r cyhoedd a ymatebodd i’n hymgynghoriad, rydym wedi ystyried y deisebau o’r enw ‘Cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal yn y Senedd’⁷⁴ a Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru.⁷⁵ Gwnaethom hefyd gomisiynu cwestiwn mewn arolwg omnibws YouGov ar-lein ar wleidyddiaeth Cymru i brofi agweddau’r cyhoedd at egwyddor cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol ar gyfer etholiadau’r Senedd.⁷⁶ Ceir crynodeb o’r canfyddiadau yn Nhabl 2 ac mae dadansoddiad llawn (gan gynnwys manylion am fethodoleg yr arolwg) ar gael yn Atodiad 1.⁷⁷

Tabl 2 Crynodeb o ganfyddiadau arolwg YouGov

| I ba raddau, os o gwbl, y byddech yn cefnogi neu’n gwrthwynebu gorfodi pleidiau gwleidyddol i ddefnyddio cwotâu rhywedd i ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Senedd Cymru? | Cyfanswm (y cant) |
|---|--------------------------|
| Cefnogi’n gryf | 3 |
| Cefnogi rhywfaint | 11 |
| CYFANSWM YN CEFNOGI | 14 |
| Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu | 43 |
| Gwrthwynebu rhywfaint | 15 |
| Gwrthwynebu’n gryf | 28 |
| CYFANSWM YN GWRTHWYNEBU | 43 |

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

56. Mae Llywodraeth Cymru wedi “cydweithio â rhanddeiliaid allanol mewn ffordd wedi’i thargeddu i drafod ystyriaethau polisi allweddol”. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio â:

⁷² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 127

⁷³ Comisiwn y Cynulliad, [Creu Senedd i Cymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad Hydref 2018](#)

⁷⁴ [Deiseb ‘Cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal yn y Senedd’](#) [fel ar 26 Ebrill 2024]

⁷⁵ [Deiseb ‘Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru’](#) [fel ar 22 Mai 2024]

⁷⁶ Sampl o 1050 o oedolion yng Nghymru (16+ oed), wedi’i bwysoli’n genedlaethol ac yn wleidyddol.

⁷⁷ [Canfyddiadau arolwg YouGov](#), Ebrill 2024

- Y Comisiwn Etholiadol.
- Comisiwn y Senedd.
- Cymuned y gweinyddwyr etholiadol (gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a chynrychiolwyr Gweinyddwyr Etholiadol).
- Academyddion ym maes cynrychiolaeth amrywiol mewn gwleidyddiaeth.
- Nifer bach o sefydliadau'r trydydd sector.⁷⁸

57. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym fod ei berthynas waith â Llywodraeth Cymru wedi bod yn adeiladol drwy gydol gwaith datblygu'r Bil, gan gynnwys eistedd ar fwrdd cyflawni diwygio'r Senedd gyda rhanddeiliaid allweddol eraill.⁷⁹

58. Cadarnhaodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru fod gweinyddwyr etholiadol wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad y Bil drwy grŵp gorchwyl a gorffen ar lefel swyddogol, a dywedodd fod y Bil yn adlewyrchu eu cyngor proffesiynol i raddau helaeth.⁸⁰

59. Dywedodd yr Athro Krook a'r Athro Kenny eu bod wedi darparu briff technegol i'r Pwyllgor Diben Arbennig a'u bod, fel y gwnaeth academyddion eraill, wedi anfon llenyddiaeth a thystiolaeth ynghylch defnydd o gwotâu ymgeiswyr i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Bil. Cadarnhaodd yr Athro Krook ei bod hefyd wedi cwrdd â Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod y Senedd i drafod cwotâu croestoriadol a ffyrdd o ymgorffori amrywiaeth mewn cwotâu i fenywod.⁸¹

60. Cadarnhaodd partneriaid o 5050Amrywiol eu bod wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod gwaith datblygu'r Bil.⁸²

61. Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar elfennau o'r Bil sy'n ymwneud â phreifatrwydd gwybodaeth pobl a chyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar yr effeithiau ar y system gyfiawnder. Mae hefyd yn nodi bod y Comisiwn Etholiadol wedi hwyluso ymgysylltu â

⁷⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 124

⁷⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 6], 21 Mawrth 2024

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 21 Mawrth 2024

⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 423-424], 18 Ebrill 2024

⁸² Cofnod y Trafodion, [paragraffau 37, 39 a 41-42], 24 Ebrill 2024

chynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol ar gynigion lefel uchel.⁸³ Cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol fod yr ymgysylltu hwn wedi'i hwyluso drwy Banel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd,⁸⁴ sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Ceidwadwyr Cymreig, Llafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru.⁸⁵ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig wedi hynny, cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol nad oedd wedi trefnu unrhyw gyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol llai.⁸⁶

62. Ymhelaethodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol ar y trafodaethau â chynrychiolwyr Panel Pleidiau Senedd Cymru:

"I think it's fair to say that some of that conversation has led us to where we are in terms of the enforcement mechanism and the different approaches to the enforcement at the vertical level and the horizontal level, which is more proportionate, you could say, at the horizontal level, given that some parties don't have such a strong, maybe, national co-ordination function. So, that's just a flavour of the discussions we've had".⁸⁷

63. Heblaw'r ymgysylltu a hwyluswyd drwy Banel Pleidiau Senedd Cymru, dywedodd cynrychiolwyr Llafur Cymru, Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig wrthym nad ymgynghorwyd yn ffurfiol â'u pleidiau gwleidyddol ar gynigion y Bil.⁸⁸

64. Tynnodd rhai cyfranwyr sylw at ddiffyg ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru ar y Bil. Roedd Cynulliad Merched Cymru o'r farn na fu digon o gydweithio â chyrrff anllywodraethol.⁸⁹ Dywed Welsh Women Speak Out, er gwaethaf ymrwymiad yn 2022 gan y Prif Weinidog blaenorol i gwrdd â sefydliadau menywod ar lawr gwlad, fod aelodau'r cabinet wedi gwrthod cwrdd â hwy ar sawl achlysur.⁹⁰ Awgrymodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod fod y grwpiau menywod y gwrandawyd arnynt yn dod o blith carfan fach iawn sydd â chredoau penodol a chonsensws penodol.⁹¹

⁸³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 124-125

⁸⁴ Y Comisiwn Etholiadol, [Panel Pleidiau Senedd Cymru](#)

⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 24], 21 Mawrth 2024

⁸⁶ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 225], 13 Mawrth 2024

⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 253-255], 18 Ebrill 2024

⁸⁹ SCECLB17-P Cynulliad Merched Cymru (Saesneg yn unig)

⁹⁰ SCECLB36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig)

⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 232], 24 Ebrill 2024

65. Pan ofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â sefydliadau menywod sy'n gwrthwynebu'r Bil, dywedodd:

"Well, we haven't been approached by those organisations for a meeting. Obviously, we ought to be engaged with them. We've engaged with established networks, and I've given some indication of the sort of representation of those, and the basis of the membership of those networks that we have engaged with—but, obviously, full consultation".⁹²

Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth

66. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i lywio'r gwaith sydd ar y gweill ganddi i ail-wneud y Gorchymyn Cynnal Etholiadau⁹³ (a fydd yn darparu llawer o'r manylion ar weithredu cynigion y Bil yn ymarferol).⁹⁴

Ein barn ni

67. Fel Pwyllgor, rydym i gyd yn cytuno bod angen i'r Senedd adlewyrchu'n well y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae dod â phobl ynghyd o bob cefndir yn cyfoethogi ein gwaith ac yn ganolog i ddemocratiaeth sy'n gweithio'n dda. Er ein bod yn cydnabod bod gan y Senedd lefel uwch na'r cyfartaledd o Aelodau sy'n fenywod o gymharu â seneddau eraill ledled y byd⁹⁵, rydym i gyd yn cefnogi'r dyhead am gynrychiolaeth gyfartal. Mae'n siomedig nad yw cynrychiolaeth gyfartal wedi'i sicrhau'n gyson yn y Senedd, a bod dirywiad araf wedi bod ers i'r Cynulliad ar y pryd sicrhau cynrychiolaeth gyfartal yn 2003 – y senedd gyntaf yn y byd i wneud hynny.

⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 178], 1 Mai 2024

⁹³ Cyfeirir at Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn gyffredinol fel y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Fe'i gwnaed yn wreiddiol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 2007. Cafodd y pŵer i ddiwygio neu wneud y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017 a oedd yn rhoi adran 13 newydd yn lle'r hen un yn Neddf 2006. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amryw o faterion, gan gynnwys rheolau ar gyfer cynnal etholiadau a'r ymgyrch etholiadol.

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 126

⁹⁵ O gymharu â [lefel cynrychiolaeth menywod yn byd eang ar gyfartaledd](#) fel ar 1 Ebrill 2024 mewn seneddau cenedlaethol un siambr neu siambr isaf, sef 27.0 y cant a chyfartaledd rhanbarthol Ewropeaidd sef 31.5 y cant.

68. Rydym yn cydnabod bod lefelau cynrychiolaeth menywod i'w priodoli'n bennaf i'r camau y mae rhai pleidiau gwleidyddol yn eu cymryd o'u gwirfodd, ac i lwyddiant etholiadol dilynol y pleidiau hynny. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai newidiadau yn arweinyddiaeth, blaenoriaethau neu ddulliau dethol ymgeiswyr y pleidiau hynny effeithio ar y graddau y bydd mesurau gwirfoddol yn cynnal cynrychiolaeth menywod yn y dyfodol.

69. Mae'n siomedig nad ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynigion penodol yn y Bil cyn ei gyflwyno, ac mai cyfyngedig oedd yr ymgysylltu ganddi yn ystod gwaith datblygu'r Bil. Rydym yn cydnabod y bu trafod a dadlau'n fwy cyffredinol ar gynrychiolaeth menywod a'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag sefyll i'w hethol drwy waith y Panel Arbenigol, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a'r Pwyllgor Diben Arbennig. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn y Bil yn wahanol i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ac a gymeradwywyd gan y Senedd yn 2022. Mae natur lefel uchel argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig hefyd yn golygu nad yw rhai o'r materion gweithredu manwl sy'n sail i ddiben y Bil wedi'u profi, ac rydym yn trafod hynny yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

70. Rydym yn deall bod gwahaniaeth barn am y Bil ac rydym yn diolch i bawb sydd wedi cynorthwyo ein trafodaethau. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth a chlywsom amrywiaeth o safbwyntiau, ac maent wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn. Er ein bod yn cydnabod nad oedd mwyafrif yr unigolion a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol, mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwylllo gan y dystiolaeth ryngwladol ac academaidd fod cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol yn fecanwaith effeithiol ar gyfer cynyddu lefelau cynrychiolaeth menywod mewn seneddau. Gan hynny, maent yn cytuno y dylai'r Senedd bleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 er mwyn iddo allu mynd rhagddo i gyfnodau diwygio'r broses graffu deddfwriaethol.

71. Nid yw Darren Millar AS yn cytuno y dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil gan nad yw'n credu bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw ychwaith yn credu bod digon o gefnogaeth i'r Bil ymhlith y cyhoedd na chyfiawnhad dros y camau a gynigir i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran rhywedd yn y Senedd. Wrth lunio'r farn hon, mae wedi ystyried y safbwyntiau y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'u rhannu â'r Pwyllgor, canfyddiadau arolwg YouGov a gomisiynwyd gan y Pwyllgor a'r cydbwysedd rhywedd a sicrhawyd yn y Senedd heb gwotâu rhywedd statudol yn 2003. Yn ei farn ef, pe

bai system gwota ar waith, dylai geisio fynd i'r afael â nodweddion gwarchoddedig eraill megis anabledd, hil a chrefydd, ac nid rhyw yn unig.

72. Fel Pwyllgor, rydym i gyd yn gytûn, os bydd y Bil yn mynd rhagddo i gyfnod nesaf y broses deddfwriaethol, fod agweddau ar y Bil y mae angen eu diwygio a'u gwella. Trafodir y materion hyn, y dystiolaeth yn eu cylch, a'n hargymhellion yng ngweddill penodau'r adroddiad hwn. Mae ein hadroddiad hefyd yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 1. Drwy fwyafrif, rydym yn argymhell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), ond, drwy gydol eu gwaith craffu parhaus ar y Bil, dylai Aelodau o'r Senedd roi sylw i'r materion a amlygir yn ein hadroddiad.

3. Rheolau cwota

Darpariaethau yn y Bil

73. O dan y darpariaethau a nodir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), bydd 16 o etholaethau'r Senedd a bydd pleidiau gwleidyddol yn gallu cyflwyno rhestr o hyd at wyth ymgeisydd fesul etholaeth.

74. Mae adran 1 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 7A yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i gyflwyno dau fath o reol cwota a fydd yn gymwys i restr etholiadol a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig mewn un o etholaethau'r Senedd (ond dim ond mewn achosion lle mae'r rhestr yn cynnwys dau ymgeisydd neu fwy):

- Rhaid i o leiaf hanner o'r ymgeiswyr ar restr plaid fod yn fenywod. Gelwir hyn yn 'drothwy isaf'.
- Rhaid i ymgeisydd ar restr nad yw'n fenyw (oni bai mai dyma'r ymgeisydd olaf ar y rhestr) gael ei ddilyn yn syth gan fenyw. Dyma'r 'meini prawf gosod fertigol'.

75. Mae adran newydd 7B o Ddeddf 2006 – fel y'i mewnosodir gan adran 1 o'r Bil – yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw (ond dim ond lle mae plaid yn sefyll rhestrau mewn dwy neu ragor o etholaethau). Dyma'r 'meini prawf gosod llorweddol'.

76. Mae adran newydd 7D(1) o Ddeddf 2006 yn darparu y caiff y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth sy'n ymwneud â chydymffurfio ag adran 7A (rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr fod yn fenywod) ac adran 7B (rhaid i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw) os caiff ymgeisydd ei dynnu oddi ar restr ar ôl ei chyflwyno (er enghraifft o ganlyniad i farwolaeth yr ymgeisydd neu oherwydd iddo dynnu'n ôl).

Trothwy isaf

77. Mae adran newydd 7A(1) yn cymhwyso'r trothwy isaf ar gyfer rhestr a gyflwynir gan blaid sy'n cynnwys dau ymgeisydd neu fwy. Ni fydd y trothwy isaf yn gymwys i ymgeiswyr annibynnol neu restr plaid gydag un ymgeisydd yn unig.

78. Os yw rhestr yn cynnwys eilrif o ymgeiswyr, mae adran newydd 7A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau sicrhau bod menywod yn ffurfio o leiaf hanner y rhestr. Os yw rhestr yn cynnwys odrif o ymgeiswyr, mae adran newydd 7A(3) yn mynnu bod yn rhaid i fwyafrif yr ymgeiswyr fod yn fenywod.

79. Unwaith y bydd pleidiau wedi cyrraedd y trothwy isaf, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan "gall yr ymgeiswyr sy'n weddill fod yn unrhyw rywedd, gan gynnwys menyw, ym mha bynnag gyfran".⁹⁶

Meini prawf gosod fertigol

80. Mae adran newydd 7A(4) yn nodi'r meini prawf gosod fertigol y mae rhaid i blaid eu dilyn wrth osod ymgeiswyr ar restr etholiadol. Mae'n nodi bod rhaid i ymgeisydd ar restr nad yw'n fenyw gael ei ddilyn yn syth gan fenyw (ac eithrio pan fydd ymgeisydd nad yw'n fenyw yn cael ei osod yn y safle olaf ar restr). Mae hyn yn caniatáu i blaid osod mwy nag un ymgeisydd sy'n fenyw yn olynol ar restr.⁹⁷

81. Mae Ffigur 1 yn rhoi enghreifftiau o restrau ymgeiswyr sy'n cydymffurfio ac nad ydynt yn cydymffurfio.

Ffigur 1 Enghreifftiau o restrau sy'n cydymffurfio ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf gosod fertigol a'r trothwy isaf⁹⁸



⁹⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 94

⁹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 101

⁹⁸ Nid yw Rhestr B yn cydymffurfio â'r meini prawf gosod fertigol oherwydd bod ymgeisydd nad yw'n fenyw wedi'i ddilyn gan ymgeisydd arall nad yw'n fenyw. Nid yw Rhestr E yn cydymffurfio â'r trothwy isaf gan fod llai na 50 y cant o'r ymgeiswyr ar y rhestr yn fenywod.

| | | | | | |
|--|---|--|---|--|--|
|  Rhestr D | <ul style="list-style-type: none"> · Ddim yn fenyw |  Rhestr E | <ul style="list-style-type: none"> · Ddim yn fenyw · Menyw · Ddim yn fenyw · Menyw · Ddim yn fenyw |  Rhestr F | <ul style="list-style-type: none"> · Ddim yn fenyw · Menyw · Ddim yn fenyw · Menyw · Ddim yn fenyw · Menyw · Ddim yn fenyw · Menyw |
|--|---|--|---|--|--|

Meini prawf gosod llorweddol

82. Er y bydd y meini prawf gosod fertigol yn sicrhau bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr etholaethol yn fenywod ac yn cael eu gosod mewn safleoedd y gellir eu hennill ar y rhestr, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

"[...] mae'n dal yn bosibl yr etholir nifer mwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod na'r rhai hynny sy'n fenywod o ganlyniad i ymgeisydd nad yw'n fenyw yn cael ei osod yn y safle cyntaf ar bob rhestr".⁹⁹

83. Mae adran 7B(1), felly, yn gosod y meini prawf gosod llorweddol pan fo plaid wleidyddol gofrestredig wedi cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr mewn dwy neu fwy o etholaethau'r Senedd. Os bydd plaid yn cyflwyno rhestr mewn un etholaeth yn unig, gall yr ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar y rhestr honno fod yn berson sy'n fenyw neu nad yw'n fenyw.

84. Pan fo plaid wedi cyflwyno eilrif o restrau, mae adran 7B(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau hynny fod yn fenyw. Er enghraifft, os bydd plaid yn cyflwyno rhestr ar gyfer pob un o 16 etholaeth y Senedd, rhaid i fenyw fod yr ymgeisydd cyntaf ar o leiaf wyth o restrau etholaethau.

85. Pan fo plaid wedi cyflwyno odrif o restrau, mae adran 7B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar fwyafrif y rhestrau hynny fod yn fenyw. Er enghraifft, os bydd plaid yn cyflwyno rhestr mewn 15 o etholaethau, rhaid i fenyw fod yr ymgeisydd cyntaf ar o leiaf wyth o restrau etholaethau.

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 105

86. Mae Ffigur 2 yn dangos rhai cyfuniadau posibl o restrau ymgeiswyr pleidiau a fyddai'n cydymffurfio ac na fyddai'n cydymffurfio â'r meini prawf gosod llorweddol mewn enghraifft gyda chwe etholaeth (ar sail yr ymgeisydd ar frig pob rhestr etholaeth).

Ffigur 2 Enghreifftiau o gyfuniadau o restrau sy'n cydymffurfio ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf gosod llorweddol¹⁰⁰

| | Etholaeth 1 | Etholaeth 2 | Etholaeth 3 | Etholaeth 4 | Etholaeth 5 | Etholaeth 6 | |
|--------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---|
| Enghraifft A | Menyw | Ddim yn fenyw | Menyw | Ddim yn fenyw | Menyw | Menyw | ✓ |
| Enghraifft B | Menyw | Ddim yn fenyw | Menyw | Ddim yn fenyw | Ddim yn fenyw | Menyw | ✓ |
| Enghraifft C | Ddim yn fenyw | Menyw | Ddim yn fenyw | Ddim yn fenyw | Menyw | Ddim yn fenyw | ✗ |
| Enghraifft D | Ddim yn fenyw | | | | | | ✓ |
| Enghraifft E | Menyw | Menyw | Menyw | Menyw | Menyw | Menyw | ✓ |
| Enghraifft F | Ddim yn fenyw | Ddim yn fenyw | Menyw | | | | ✗ |

Opsiynau eraill

Am-yn-eilio gorfodol

87. Yn 2017, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad canlynol o ran sefyllfa pe bai system rhestr gyfrannol (yn ei argymhelliad, system rhestr hyblyg) yn cael ei mabwysiadu:

¹⁰⁰ Mae ffigur 2 yn dangos y datganiad a wnaed gan yr ymgeisydd ar frig y rhestr ar gyfer pob etholaeth. Mae gan enghraifft A bedwar ymgeisydd sy'n fenywod a dau ymgeisydd nad ydynt yn fenywod yn y safle cyntaf ar eu rhestrau ar draws y chwe etholaeth, felly byddai'r rhestrau hyn yn cydymffurfio. Ar y llaw arall, mae enghraifft C yn cynnwys pedwar ymgeisydd nad ydynt yn fenywod a dau ymgeisydd sy'n fenywod yn y safle cyntaf, ac mae gan enghraifft F ddau ymgeisydd yn y safle cyntaf nad ydynt yn fenywod, ac un sy'n fenyw, felly ni fyddai'r enghreifftiau hyn yn cydymffurfio. Gan mai dim ond mewn un etholaeth y mae enghraifft D yn cyflwyno rhestr, nid yw'r meini prawf gosod llorweddol yn gymwys.

"[...] dylai fod yn ofynnol i'r pleidiau sicrhau bod 50 y cant o'u hymgeiswyr ym mhob etholaeth yn fenywod a 50 y cant yn ddynion, a bod eu rhestrau yn cynnwys dynion a menywod am yn ail".¹⁰¹

88. Byddai am-yn-eilio yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau newid rhwng menywod a dynion ar eu rhestrau ymgeiswyr, gan olygu bod hanner yr ymgeiswyr yn fenywod a hanner yn ddynion.

89. Eglurodd yr Athro Rosie Campbell, cyn aelod o'r Panel Arbenigwyr, y rhesymeg dros gasgliad y Panel:

"[...] globally, the international literature shows a strong association between having proportional representation and zipping and higher representation of women. There are different patterns in the data, but that's the overall finding".¹⁰²

90. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad yn ddiweddarach y "dylid datblygu cwotâu rhywedd integredig a rhestru 'am-yn-ail' gorfodol" fel rhan o'r system etholiadol rhestr gaeedig newydd.¹⁰³

91. Rhoddodd rhai cyfranwyr ystyriaeth i weithrediad y cwotâu ymgeiswyr yng nghyd-destun rhestrau caeedig. Dywedodd yr Athro McAllister a'r Athro Childs fel ei gilydd, y gall cwotâu ymgeiswyr weithio'n effeithiol mewn systemau etholiadol rhestr gaeedig.¹⁰⁴ Nododd ymchwil Dr Daniel, er y gall y llenyddiaeth academiaidd fod yn gymysg, ei bod yn tueddu i ddisgwyl bod "rhestrau caeedig yn arwain at ddeilliannau mwy cyfartal o ran rhywedd". Ychwanegodd y gall systemau cynrychiolaeth gyfrannol ffafrio cynrychiolaeth menywod o gymharu â systemau mwyafrifol. Deth yr ymchwil i'r casgliad, o ganlyniad i'r system etholiadol, cyn belled â bod pleidiau'n llunio rhestrau sy'n dilyn y gyfraith gwota, na fydd ymgeiswyr o dan anfantais gan bleidleiswyr yn ystod yr etholiad.¹⁰⁵

92. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "risg ychydig yn uwch o fethu â sicrhau o leiaf 50% o gynrychiolaeth menywod" na'r system gwota a gynigir yn y Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud nad yw am-yn-

¹⁰¹ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Cymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, paragraff 13.49

¹⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 18 Ebrill 2024

¹⁰³ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, paragraff 109

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 17 a 20], 18 Ebrill 2024

¹⁰⁵ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

eilio yn cynnig unrhyw hyblygrwydd i fenywod gael eu gosod mewn safleoedd olynol ar restrau plaid lle mae disgwyl i ymgeiswyr yn y safleoedd hynny ennill seddi. At hynny, mae'n nodi y byddai am-yn-eilio yn cyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr benywaidd a allai sefyll, a fyddai'n ymddangos yn groes i'r nod o ethol mwy o fenywod i'r Senedd.¹⁰⁶

93. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, gwnaeth yr Athro Jennifer Piscopo esbonio fel a ganlyn, o ran y Bil:

"[...] [it] only prohibits consecutive men candidates, but it does not prohibit zippering: it allows either zippering or consecutive women, or a combination where the list is zippered in part and has consecutive women in part.

Men can occupy 50 percent of the list (a full zipper) or less (if you break the zipper to allow consecutive women), whereas women can have 50 percent of the list (a full zipper) or more (because you can break the zipper to have consecutive women but not consecutive men)".¹⁰⁷

94. Buom yn archwilio pam nad yw'r Bil yn cynnwys am-yn-eilio gorfodol fel yr argymhellwyd gan y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor Diben Arbennig: Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

"[...] there are different ways in which gender quotas are delivered across the world. The expert panel recommended zippering—that's usually commonly used on a 50:50 model. But we feel a minimum 50 per cent model is the right way forward. So, it's a slightly different model. And the rules in this Bill don't prevent a zippering approach".¹⁰⁸

95. Dros y 18 mis diwethaf, mae ERS Cymru wedi bod yn archwilio pa effaith y gallai rhestrau caeedig – gyda chwotâu statudol integredig ac am-yn-eilio gorfodol – ei chael ar gynrychiolaeth menywod yn etholiadau'r Senedd yn y dyfodol. Mae wedi modelu'r effeithiau y gallai cwotâu eu cael, pe byddent yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r modelu'n dangos ystod o ganlyniadau yn seiliedig ar ba ddull cwota

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 100

¹⁰⁷ SCECLB15-P Yr Athro Jennifer Piscopo, Prifysgol Royal Holloway, Llundain (Saesneg yn unig)

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 13 Mawrth 2024

a ddefnyddir. Gan adlewyrchu ar ddarpariaethau'r Bil, dywedodd ERS Cymru mai'r hyn y mae'r modelu hwn yn ei amlygu yw bod yna ystod o ganlyniadau, hyd yn oed o dan y dull am-yn-eilio mwyaf llym, nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn ei gyflawni, a hefyd:

"[...] the number of women elected even under legislative quotas will vary depending on [...] how many seats each party wins in a constituency. For example, if a party standing a man on the top of a list in one constituency wins three seats they will have two male and one female candidate successfully elected and vice versa. All of this will have an impact on the whole makeup of the Senedd but is entirely reliant on votes actually cast and not something that can or should be controlled".¹⁰⁹

96. Pan ofynnwyd sut y mae'r system a gynigir yn y Bil yn cymharu â'r dull am-yn-eilio a argymhellir gan y Pwyllgor Diben Arbennig, dywedodd ERS Cymru:

"Essentially, this legislation doesn't rule out zipping. It is largely likely that parties will zip their lists, but it also adds a little bit of flexibility, which we think is appropriate in this instance. We know straightforward zipping does not guarantee 50:50; our modelling has demonstrated that. So, it's right to have the flexibility for parties to stand more women in areas if they want to, either to adjust that drive further to 50:50 or to account for a historical imbalance".¹¹⁰

'Gefeillio'

97. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y rhoddwyd ystyriaeth i gymhwyso'r meini prawf llorweddol ar lefel fwy lleol, er enghraifft, drwy 'gefeillio' dwy neu fwy o etholaethau yn anffurfiol a'i gwneud yn ofynnol i bleidiau sicrhau bod gan o leiaf hanner y rhestrau yn yr etholaethau hyn fenyw yn y safle cyntaf. Fodd bynnag, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiystyru'r opsiwn hwn gan y byddai wedi "cymhlethu'r rheolau ac wedi gosod cyfyngiadau ar bleidiau gwleidyddol heb

¹⁰⁹ SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 61], 24 Ebrill 2024

unrhyw fudd amlwg. Byddai hefyd, o bosibl, yn achosi problemau i bleidiau nad ydynt yn bwriadu sefyll ymgeiswyr ym mhob etholaeth”.¹¹¹

Y rhesymeg dros y rheolau cwota

Y dull cyffredinol

98. Wrth annerch y Senedd ar gyflwyniad y Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y Bil yn “sicrhau'r cyfle gorau posibl o gyflwyno Senedd sy'n adlewyrchu bras gyfansoddiad Cymru o ran rhywedd”. Ychwanegodd:

*“Bydd cyflwyno trothwy o 50 y cant o leiaf i fenywod yn arwain at gynnydd yn y menywod sy'n ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ac mae'r cam ychwanegol o gyflwyno meini prawf lleoliad yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cyfran uwch o ymgeiswyr a gaiff eu hethol yn fenywod”.*¹¹²

99. Wrth ddatblygu'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi edrych yn helaeth ar gynllun cwotâu mewn gwledydd eraill.¹¹³ Eglurodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol fod Llywodraeth Cymru wedi archwilio cwotâu yng Ngwlad Belg, Ffrainc, Sbaen a Chatalonia, yn ogystal ag yng Ngogledd a De America:

*“From what we've gathered, it is very important to have a minimum threshold of 50 per cent or whatever. It's also important to have rules in terms of where women are placed on lists, because countries such as Spain and Catalonia have learnt that, if they have rules for certain parts of lists—for example, no more than 60 per cent and no less than 40 per cent—then political parties can still place women lower down those lists, and that doesn't lead to the desired outcome. So, we have looked at what happens elsewhere, but, more than that, I think, we've looked at the evidence and we've spoken to academics and experts in order to understand what the main elements are that lead to effective quotas”.*¹¹⁴

¹¹¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 106

¹¹² Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 12 Mawrth 2024

¹¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 13 Mawrth 2024

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 13 Mawrth 2024

Y rhesymeg ar gyfer y trothwy isaf

100. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r sail resymegol ar gyfer pennu'r trothwy isaf sef 50 y cant:

- Mae'n gwota cymesur mewn perthynas â chanran poblogaeth gyffredinol Cymru sy'n fenywod.¹¹⁵
- Roedd 43 y cant o Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn 2021 yn fenywod, felly mae cwota a osodwyd o dan 50 y cant yn annhebygol o arwain at ethol cyfran sylweddol uwch o fenywod.
- Ni ragwelir y bydd isafswm trothwy o 50 y cant yn arwain at orgynrychioli rhestrau ymgeiswyr gan fenywod, o ystyried y gyfran hanesyddol isel o ymgeiswyr benywaidd yn etholiadau'r Senedd.¹¹⁶

101. Wrth fynd i'r afael â'r trothwy isaf a osodwyd yn y Bil, dywedodd ERS Cymru:

"I think that's actually a really positive thing. We've obviously seen internationally quotas at a lower level, but I think 50 per cent recognises the benchmark that we, as a Parliament, hit in 2003, and it also essentially aims for that parity, I think, which is what we're really looking for".¹¹⁷

102. Amlygodd tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Kenny dystiolaeth gymharol¹¹⁸ sy'n canfod yn gyffredinol bod cwotâu â throthwyon ymgeiswyr uwch yn arwain at lefelau uwch o gynrychiolaeth menywod.¹¹⁹ Roedd hi'n cefnogi'r trothwy o 50 y cant o leiaf, gan ei ddisgrifio fel bod yn sylweddol ac yn symbolaidd bwysig, a dywedodd wrthym:

"Quotas are more effective if they have high thresholds, if they fit the electoral system that they come alongside and if they are accompanied by sanctions for non-compliance, and I think this Bill

¹¹⁵Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad diweddaraf, 21 Mawrth 2021, roedd 1,586,600 o fenywod (51.1 y cant o'r boblogaeth) a 1,521,000 o ddynion (48.9 y cant) yng Nghymru.

¹¹⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 97-98

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 24 Ebrill 2024

¹¹⁸ [The Increasing Effectiveness of National Gender Quotas, 1990-2010](#), Pamela Paxton a Melanie M. Hughes (Saesneg yn unig)

¹¹⁹ SCECLB14-P Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

*has those elements, which have been identified in the wider literature as essential”.*¹²⁰

103. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Dr Daniel, pan fydd cwota o 50 y cant ar waith o fewn plaid wleidyddol benodol, ei fod yn debygol o arwain at o leiaf 10 y cant yn fwy o fenywod yn cael eu hethol ar gyfer y blaid honno, o gymharu â phan nad oedd y cwota ar waith. Daeth i'r casgliad hefyd fod cwotâu yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar lefel plaid drwy fwy nag un cyfnod etholiad.¹²¹

104. Wrth fynd i'r afael â'r effaith andwyol bosibl ar gydbwysedd y Senedd o ganlyniad i'r Bil yn caniatáu i bleidiau gyflwyno nifer fwy o fenywod na dynion ar eu rhestrau, awgrymodd yr Athro McAllister fel a ganlyn:

*“[...] parties, if they're sensible, make strategic choices about the overall profile of their candidates for that legislature. I think it would be [...] odd if parties chose to have completely unbalanced lists, because that might punish them in terms of voter acceptance. But that's not to say that we shouldn't have the conversation over whether that is an appropriate mechanism, or whether there should be some constraints put on the issue”.*¹²²

105. Cytunodd yr Athro Campbell, gan ddweud nad yw'n rhywbeth yr ydym wedi ei weld yn digwydd mewn manau eraill yn y byd, ond awgrymodd y byddai unrhyw le i osgoi hynny yn welliant.¹²³ Ychwanegodd yr Athro Childs:

“I think it's most unlikely. I don't think parties would act in that way. And, of course, it could be that a party might choose to try to significantly rebalance at this election, because of a historical under-representation. So, I don't think a one-off election would be a test of whether this is necessarily operating to skew in the way you suggest, because there does need to be a redress, because the skewing has been to men historically, and particularly there will be party asymmetry. But I think the likelihood of it becoming a permanent feature would be problematic, for sure. We're looking for diversity and parity, and the language of parity is the language that is increasingly being used globally, whether that's with United Nations Women or

¹²⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 410], 18 Ebrill 2024

¹²¹ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

¹²² Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 18 Ebrill 2024

¹²³ Cofnod y Trafodion [paragraff 59], 18 Ebrill 2024

other international scenarios. It's about women's full, equal, effective participation, and that's really what the quota should be delivering".¹²⁴

106. Pan ofynnwyd iddi pam mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cwota sy'n caniatáu i restrau gynnwys menywod yn unig, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

"We've come up with a system, an approach, that we think will, with the backing of political parties—. If we don't get the message over to women in Wales that we're welcoming them, and this is the way that we're going to get fair representation of women of Wales, then obviously we're in a very difficult position, there's no question about it. But I think this is the fairest way".¹²⁵

107. Amlygodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol fod 31 y cant o'r ymgeiswyr yn etholiad diwethaf y Senedd yn fenywod, gan awgrymu fel a ganlyn:

"[...] it would seem very unlikely that [overrepresentation of women] would occur, certainly over the short to medium term. And actually, there's no evidence of that taking place elsewhere either. We believe the model that we're putting forward provides the best chance of maximising the number of women candidates, and therefore achieving that representation of the gender balance".¹²⁶

Y rhesymeg ar gyfer y meini prawf gosod

108. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, os na chaiff meini prawf gosod fertigol eu cyflwyno, y gallai menywod gael eu gosod mewn safleoedd israddol ar restr. Bydd yn sicrhau bod ymgeiswyr sy'n fenywod yn cael eu gosod ar restrau pleidiau mewn safleoedd lle maent, fel arfer, o leiaf yr un mor debygol ag ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod o ennill sedd.¹²⁷

109. Gwnaeth nifer o gyfranwyr sylwadau ar feini prawf y Bil ar gyfer gosod menywod ar restrau. Gwnaeth Dr Anne Jenichen ddatgan bod y meini prawf

¹²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 18 Ebrill 2024

¹²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 13 Mawrth 2024

¹²⁶ RoP [paras 102-103], 13 March 2024

¹²⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 103-104

gosod fertigol – p’un a yw’n system am yn ail neu’r model a gynigir yn y Bil – wedi bod yn hanfodol i osgoi sefyllfa lle mae pleidiau yn tanseilio’r cwota drwy roi menywod mewn safle isel ar restr.¹²⁸ Dywedodd yr Athro Kenny mai’r hyn sy’n gyffredin ar draws y byd yw i gyfreithiau cwota gynnwys nid yn unig gofynion trothwy, ond hefyd mandadau gosod. Nododd fod cynnwys meini prawf gosod fertigol a llorweddol yn cyd-fynd yn fras ag arfer rhyngwladol, ac yn fwy tebygol o gyflawni ei nodau bwriadedig.¹²⁹

110. Awgrymodd Dr Maarja Lühiste y byddai cynllun y cwota yn ei gwneud hi’n amhosib i bleidiau osod menywod yn systematig ar safleoedd llai hyfyw ar restrau na dynion, neu dim ond mewn gosodiadau etholaethol na ellir eu hennill.¹³⁰ Daeth Dr Daniel i’r casgliad y gallai ei gwneud yn ofynnol i fenywod ymddangos fel eu bod mewn ‘rolau sy’n arwain y rhestr’ ar nifer cyfartal o restrau etholaethol, osgoi’r sefyllfa lle mae ymgeiswyr benywaidd fel mater o drefn yn dod yn ail i ddynion, hyd yn oed os caiff y ddau eu hethol yn y pen draw.¹³¹

111. Disgrifiodd Dr Gomes y meini prawf gosod llorweddol fel datblygiad newydd dros y blynyddoedd diwethaf, a fabwysiadwyd mewn gwledydd fel Portiwgal.¹³² At hynny, tynnodd yr Athro Krook sylw at effaith meini prawf gosod llorweddol yn Nhiwnisia:

“[...] they had a 50 per cent gender quota; it was introduced in the wake of the Arab Spring. And for the parliament, it didn’t work as well, because it was only a vertical, so it was because parties tended to top their list with men that it ended up electing only about 25 per cent women into parliament, even though they had 50 per cent women candidates. But when they introduced the horizontal parity provision together with it at the local level, it was like 49 per cent women elected. So, it’s really crucial, I think. Vertical and horizontal parity is very important, and I think other international evidence will support that.”¹³³

112. Mynegodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod bryderon y gallai’r meini prawf gosod ymgeiswyr arwain at or-gynrychiolaeth o fenywod.¹³⁴ Pan ofynnwyd a yw

¹²⁸ SCECLB25-P Dr Anne Jenichen, Prifysgol Aston (Saesneg yn unig)

¹²⁹ SCECLB14-P Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

¹³⁰ SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig)

¹³¹ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

¹³² Cofnod y Trafodion [paragraff 448], 18 Ebrill 2024

¹³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 450], 18 Ebrill 2024

¹³⁴ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

cwotâu ymgeiswyr yn ddull priodol o sicrhau cynrychiolaeth gyfartal, dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod:

*“In terms of the drafting of the Bill, where we are, really, is that the Bill caps, as I understand it, the number of men at 50 per cent, but doesn’t cap the number of women. [...] So, if you cap the men at 50 per cent and you don’t cap the women at 50 per cent, it may be thought that it would be unlikely to have 100 per cent women representation, but that’s not the way law should be drafted—on the basis that something might not happen and is likely and probably won’t happen. Good law, surely, should consider the consequences and even the unintended consequences. And unfortunately, because, in our view, it’s not a proportionate means to achieve a legitimate aim, it’s just plain old sex discrimination then, under the Equality Act”.*¹³⁵

113. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn cefnogi system gwota ddeddfwriaethol a oedd yn am-yn-eilio nifer y dynion a menywod yn gyfartal, dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod wrthym:

*“[...] I think we’d have to look at the Bill on its own merits as drafted then, and I would say this for our members of the Women’s Rights Network in Wales, and I’m sure it’s the case for the other women’s groups as well: we will have members who will be very much in favour of legislative quotas on the basis of sex, and we’ll have members who won’t be in favour of legislative quotas on the basis of sex”.*¹³⁶

114. Yn absenoldeb y meini prawf gosod llorweddol ochr yn ochr â’r meini prawf gosod fertigol, mae’r Memorandwm yn amlygu’r posibilrwydd y gallai plaid ethol hyd at 16 yn fwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod os yw ymgeiswyr o’r fath yn cael eu rhoi yn y safle cyntaf ar restrau fel mater o drefn.¹³⁷ Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd cynnwys y meini prawf gosod llorweddol yn y Bil “yn dileu’r posibilrwydd y bydd mwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod yn cael eu hethol fel ASau na menywod”. Mae’r Memorandwm yn esbonio y gallai plaid fodloni’r trothwy isaf, y meini prawf gosod fertigol a

¹³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 171], 24 Ebrill 2024

¹³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 200], 24 Ebrill 2024

¹³⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 105

llorweddol, a dal i weld wyth ymgeisydd arall nad ydynt yn fenywod yn cael eu hethol, yn hytrach nag ymgeiswyr sy'n fenywod:

“Byddai hyn yn digwydd pan fo plaid yn ennill odrif o seddi yn union hanner yr 16 o etholaethau newydd, yn ennill nifer cyfartal o seddi yn yr etholaethau eraill, ac wedi gosod ymgeisydd nad yw'n fenyw yn y safle cyntaf ar restrau pob etholaeth lle mae'n ennill odrif o seddi, wrth osod menyw yn y safle cyntaf ym mhob etholaeth arall. Mae'r canlyniad eithafol hwn yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol, naill ai'n anfwriadol neu drwy beirianeg fwriadol gan bleidiau gwleidyddol.”¹³⁸

115. Gan gyfeirio at y “canlyniad eithafol” a amlinellir yn y Memorandwm, awgrymodd 5050Amrywiol efallai na fyddai darpariaethau'r Bil yn mynd yn ddigon pell i sicrhau cynrychiolaeth o 50 y cant i fenywod, ac argymhellodd y dylid monitro'r agwedd hon yn agos fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu.¹³⁹

116. Gwnaeth tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Kenny dynnu sylw at brofiad y Scottish Greens (Plaid Werdd yr Alban) yn etholiadau Senedd yr Alban i ddangos y cydadwaith rhwng rheolau llorweddol, maint yr ardal (nifer yr aelodau i'w hethol ym mhob ardal etholiadol) a maint y pleidiau (nifer y seddi y mae plaid yn eu hennill mewn ardal etholiadol benodol):

“In Scotland, for example, in the 2016 Scottish Parliament elections, the Scottish Greens zipped their regional list candidates—alternating men and women—and paired its lists, ensuring that 50% of them were topped by women. In the end, however, only 1 of 6 Green MSPs elected were women (17%) [...] In 2021, Scottish Green women topped every regional list not being contested by an incumbent (five out of eight lists) and were placed second in six regions—with five women ultimately elected (63% of the parliamentary party).”¹⁴⁰

117. Gwnaeth yr Athro Kenny ddadlau, er bod y Bil yn rhoi hyblygrwydd o ran penderfyniadau ynghylch p'un ai i drefnu'r rhestr am yn ail neu roi nifer o

¹³⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 107

¹³⁹ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

¹⁴⁰ SCECLB14-P Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

ymgeiswyr benywaidd yn olynol, bod y penderfyniad yn y pen draw yn nwylo'r pleidiau.¹⁴¹

118. Esboniodd yr Athro Krook sut yr aeth pleidiau ym Mecsico i'r afael â'i gyfreithiau cwota 50:50 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bleidiau beidio â gosod menywod yn unig mewn ardaloedd na ellir eu hennill:

"[...] many parties, rather than doing a very detailed analysis, subjected the choice of those districts to a lottery, so then whichever district got chosen for women was filled by women candidates and those that were for men were for men candidates. They ended up with exactly 50 per cent women elected, and now with various adjustments and things like that, it's gone a little bit up or a little bit down over time. But I thought that was a really interesting issue—that maybe that horizontal parity needs to be done on a random allocation basis to ensure greater parity in outcomes".¹⁴²

Dethol ymgeiswyr

Argaeledd ymgeiswyr

119. Bu rhai cyfranwyr yn ystyried a oes digon o ymgeiswyr benywaidd i gyrraedd y trothwy isaf. Nododd Un Llais Cymru argaeledd ymgeiswyr benywaidd fel risg, ac awgrymodd y bydd angen i bleidiau sicrhau eu bod yn mabwysiadu strategaeth sy'n anelu at ddenu mwy o fenywod a datblygu diwylliant sy'n ffafriol i fenywod.¹⁴³ Galwodd Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru am arweiniad ar sut y dylai pleidiau reoli'r rheol genedlaethol o 50 y cant os yw'r blaid yn brin o ymgeiswyr benywaidd.¹⁴⁴

120. Mewn cyferbyniad, awgrymodd Dr Lühiste na ddylai pleidiau wynebu llawer o heriau wrth recriwtio ymgeiswyr, gan amlygu'r lefelau cymharol uchel o gynrychiolaeth menywod yn y Senedd ers 1999.¹⁴⁵ Yn ôl Cymdeithas Fawcett, mae'r dystiolaeth yn glir – lle mae cwotâu, mewn gwirionedd, mae'n aml yn troi allan bod yna fwy o fenywod na'r lefel.¹⁴⁶ Dywedodd yr Athro Kenny wrthym hefyd:

¹⁴¹ SCECLB14-P Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

¹⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 509], 18 Ebrill 2024

¹⁴³ SCECLB27-P Un Llais Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁴⁴ SCECLB39-P Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁴⁵ SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig)

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 18 Ebrill 2024

"[...] evidence in the UK and across the devolved nations convincingly demonstrates that the problem is not candidate supply; it's party demand, and, then, also Wales has achieved gender parity or better already in its history. So, the evidence is there".¹⁴⁷

121. Rhoddodd Joyce Watson AS ystyriaeth i ymgyrchoedd blaenorol gan Lafur Cymru i annog ymgeiswyr benywaidd:

"There was an awful lot of training that happened in the Labour Party to get women forward, because the argument was that we wouldn't have enough women. I remember being in a photograph with over 100 women, in 1998 I think it was, where they had said, 'Where will all these women come from?' Well, there they were".¹⁴⁸

122. Gan gyfeirio at gwotâu fel ymyrraeth ar ochr y galw, tynnodd yr Athro Childs sylw at y ffaith bod tystiolaeth mewn manau eraill yn dangos eu bod, hefyd, yn debygol o arwain at gynnydd yn y cyflenwad. Fodd bynnag, dywedodd y bydd angen i bleidiau gymryd agwedd weithredol at recriwtio ac y bydd angen adnoddau i wneud hynny.¹⁴⁹ Cydnabu'r Athro McAllister y gallai fod yn anoddach recriwtio ymgeiswyr benywaidd, gan bwysleisio cymhelliant enilladwyedd cwotâu fel mecanwaith pwysig i gynyddu cyflenwad ymgeiswyr.¹⁵⁰ Awgrymodd cynrychiolwyr o Banel Pleidiau Senedd Cymru dros Lafur Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig, hefyd, y gallai dod o hyd i ddigon o ymgeiswyr benywaidd fod yn her bosibl, yn enwedig i bleidiau llai.¹⁵¹

123. Cyfeiriodd Dr Gomes at Gymru'n cael mwy o lwyddiant gyda chynrychiolaeth menywod yn genedlaethol nag ar lefel leol, ac awgrymodd y dylai pleidiau ystyried cwotâu mewnol ar gyfer eu hetholiadau cyngor er mwyn adeiladu llif cyson o ymgeiswyr tuag at y lefel genedlaethol.¹⁵²

Dylanwad pleidiau gwleidyddol

124. Pwysleisiodd nifer o gyfranwyr rôl bwysig pleidiau gwleidyddol yng nghyfansoddiad eu rhestrau. Tynnodd yr Athro McAllister sylw at y perygl o roi

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 484], 18 Ebrill 2024

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 313], 24 Ebrill 2024

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 31 a 36], 18 Ebrill 2024

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 18 Ebrill 2024

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 260 a 267], 18 Ebrill 2024

¹⁵² SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

gormod o rym i'r pleidiau gwleidyddol o ran sut y maent yn strwythuro eu dewisiadau ymgeiswyr yn y system etholiadol rhestr gaeedig.¹⁵³ Roedd ymchwil Dr Daniel, hefyd yn cefnogi'r safbwynt mai pleidiau gwleidyddol sy'n "allweddol" pan ddaw'n d fater o ddewis ymgeiswyr.¹⁵⁴

125. Nododd Dr Lühiste mai pleidiau gwleidyddol sy'n tueddu i greu'r prif rwystr i roi cwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol ar waith yn effeithlon, ac er ei bod yn cydnabod bod lefelau cyffredinol cynrychiolaeth menywod yn y Senedd wedi bod yn gymharol uchel, nododd yr amrywiaeth sylweddol rhwng y pleidiau.¹⁵⁵

126. Dadleuodd ERS Cymru, hyd yn oed pe byddai am-yn-eilio fertigol a llorweddol gorfodol, y gallai pleidiau barhau i chwarae rhan enfawr wrth bennu'r canlyniadau o ran yr achosion o osod unigolion ar frig y rhestr.¹⁵⁶ Disgrifiodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru bŵer pleidiau gwleidyddol fel bod yn risg yn ogystal ag yn gyfle, gan ychwanegu fel a ganlyn:

"It can work to great advantage for the system, but it also does mean that, technically, mathematically, it is actually possible that this legislation will work in such a way that there would not be 50 per cent women in the Senedd, which obviously is not a position that we would support, hope for or advocate for. In fact, we think the flip side of that is that there is, I guess, some latitude left in this legislation, which is a positive thing".¹⁵⁷

127. Yn ôl Race Council Cymru, mae'r Bil yn gorfodi newid diwylliannol hirddisgwyliedig o fewn y pleidiau:

"I think there is something there around trust also, about trust around your parties: 'We're going to do the right thing, we're going to lead from the front'".¹⁵⁸

128. Amlygodd rhai cyfranwyr y gogwydd o fewn pleidiau gwleidyddol tuag at ymgeiswyr gwrywaidd. Awgrymodd yr Athro McAllister y bydd y trothwy a'r meini prawf gosod yn gymhelliant i fenywod sydd, efallai'n ystyried bod yn ymgeisydd

¹⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 18 Ebrill 2024

¹⁵⁴ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

¹⁵⁵ SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig)

¹⁵⁶ SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 24 Ebrill 2024

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 24 Ebrill 2024

mewn etholiad, ond sy'n teimlo y byddai anawsterau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r broses mewn gwirionedd.¹⁵⁹ Dywedodd Cymdeithas Fawcett wrthym yn yr un modd:

"A big part of the obstacles to women's participation is actually at selectorate level in the local parties, and so when you kind of remove that power for those individuals to express a preference or a bias towards men, you unleash a kind of pool of talent. But also, we know that quotas and equality rhetoric have an important impact on the pool—the supply of women. So, in our research, which looked UK wide, we found that a lot of women cited equality guarantees or rhetoric from leadership about commitment to equality as being a really important signal to them that they were needed and wanted in the party, and encouraged them to step forward".¹⁶⁰

129. Yn ôl Elect Her, amcangyfrifir mai dim ond traean o aelodaeth pleidiau gwleidyddol sy'n fenywod, ac awgrymodd fod angen gweithredu i fynd i'r afael â'r diwylliant o fewn pleidiau gwleidyddol o ran y detholwyr, cyfranogiad eu haelodaeth, a rhoi mwy o eglurder ar sut y gall menywod ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol.¹⁶¹

130. Trafododd rhai cyfranwyr ffyrdd y gellid annog pleidiau gwleidyddol i ddewis mwy o ymgeiswyr benywaidd. Nododd Dr Gomes gymhellion mewn gwledydd eraill lle darperir cyllid ychwanegol os yw pleidiau yn ethol mwy o fenywod, neu'n creu hyfforddiant i fenywod.¹⁶² At hynny, amlygodd yr Athro Krook, mewn rhai gwledydd lle mae pleidiau gwleidyddol yn derbyn arian cyhoeddus, fod canran yn cael ei chlustnodi ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad arweinyddiaeth menywod, a chyfranogiad gwleidyddol menywod.¹⁶³

131. Buom yn archwilio sut y mae pleidiau gwleidyddol yn annog mwy o fenywod a phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gynnig eu henwau, a sefyll i fod yn ymgeiswyr. Cadarnhaodd cynrychiolydd Llafur Cymru fod gwaith eisoes ar y gweill gyda'r blaid i annog menywod du ac Asiaidd, menywod o grŵp ethnig lleiafrifol a menywod LGBTQ+ i gynnig eu henwau ac i lunio hyfforddiant a chefnogaeth, yn ogystal â gweithio gydag undebau llafur, a chymdeithasau

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 38], 18 Ebrill 2024

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 18 Ebrill 2024

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 18 Ebrill 2024

¹⁶² Cofnod y Trafodion [paragraff 512], 18 Ebrill 2024

¹⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 515], 18 Ebrill 2024

sosialaidd sy'n gysylltiedig â phleidiau, i annog eu haelodau i sefyll neu fynegi diddordeb, a chymryd rhan yn y broses.¹⁶⁴

132. Yn yr un modd, cyfeiriodd cynrychiolydd Plaid Cymru at waith a wnaed gan wahanol adrannau o'r blaid i annog ei haelodau i sefyll, yn ogystal â mentora ffurfiol ac anffurfiol. Ychwanegodd fel a ganlyn:

"[...] we can see that, where we have internal rules to ensure that women have certain places on lists or certain positions, then we find that women are more willing to stand".¹⁶⁵

133. Dywedodd cynrychiolydd y Ceidwadwyr Cymreig wrthym fod gan y blaid grwpiau allgymorth amrywiol i annog a mynd i'r afael ag amharodrwydd pobl i sefyll. Nododd lwyddiant mewn perthynas â sefyll o leiaf 50 y cant o ymgeiswyr benywaidd ar gyfer etholiad i Gyngor Sir Fynwy yn 2022, a gyflawnwyd trwy ymdrechion pobl yn lleol, yn hytrach na thrwy reolau dethol.¹⁶⁶

Effaith tynnu ymgeiswyr oddi ar restr

134. Pwysleisiodd y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol yr angen i ystyried y posibilrwydd y gallai ymgeisydd dynnu'n ôl neu farw yn ystod y broses, neu'r amserlen etholiadol, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar leoliad ymgeiswyr ar restrau plaid. Dywedodd y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol y gallai'r diffyg eglurder hwn effeithio ar hyder pobl yn y broses ddemocrataidd.¹⁶⁷ Ymhelaethodd y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol ar y mater hwn yn ystod tystiolaeth lafar:

"[...] we currently have a withdrawals process where a candidate can withdraw before the close of nominations, or the nominating officer can withdraw a party list, and what we're concerned about is that it's unprecedented in the sense that a candidate could withdraw their nomination and, at the moment, that would have no impact. But, if it were a woman candidate who was to withdraw, you've suddenly got a valid nomination that would then become invalidated, and

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 320], 18 Ebrill 2024

¹⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 322], 18 Ebrill 2024

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 317-318], 18 Ebrill 2024

¹⁶⁷ SCECLB13-P y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

obviously, there's a risk of that, potentially, being abused by people, as well, to almost invalidate a whole party list".¹⁶⁸

135. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol y bydd angen pennu proses glir mewn is-ddeddfwriaeth i'r SCEau ei dilyn er mwyn cael cysondeb a sicrwydd o degwch. Awgrymodd y gellid ystyried caniatáu tynnu arian yn ôl drwy'r blaid wleidyddol yn unig, yn hytrach na rhoi caniatâd i ymgeiswyr unigol wneud hynny. Fodd bynnag, cydnabyddodd y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol y byddai'n dal i fod angen proses yn achos marwolaeth ymgeisydd. Nododd ymhellach y gallai achos o ymgeisydd yn tynnu'n ôl neu'n marw hefyd effeithio ar feini prawf gosod llorweddol, ac y byddai angen fframwaith deddfwriaethol ar y SCEC i'w ddilyn i sicrhau ei fod yn cymryd y camau cywir.¹⁶⁹

136. Bydd y prosesau i'w dilyn yn achos naill ai ymgeisydd yn tynnu'n ôl neu'n marw yn ystod y broses enwebu yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn datgan y canlynol mewn perthynas â marwolaeth ymgeisydd:

"Bwriad y polisi yw cynnwys darpariaeth mewn gorchymyn o dan adran 13 i fynd i'r afael â'r sefyllfa pan fydd ymgeisydd benywaidd yn marw yn ystod y broses enwebiadau, pan fo hyn yn effeithio ar gydymffurfiaeth â'r rheolau. Gall hyn olygu bod y rhestr yn cael ei thrin fel un sy'n cydymffurfio pe byddai wedi cydymffurfio, oni bai am y farwolaeth (h.y. i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ystyried cydymffurfiaeth fel pe na bai'r farwolaeth wedi digwydd)".¹⁷⁰

137. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi, "caniateir mynd i'r afael â sefyllfaoedd eraill sy'n cynnwys tynnu ymgeisydd oddi ar restr hefyd", ond nid yw'n nodi bwriadau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymgeisydd yn tynnu'n ôl yn hwyr.¹⁷¹

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 21 Mawrth 2024

¹⁶⁹ SCECLB13-P y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

¹⁷⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024

¹⁷¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024

138. Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol am fwriadau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, dywedodd:

"[...] we're working through the process with key stakeholders on this, on how withdrawals could be handled in terms of the compliance with the rules in this Bill, in terms of the quotas. I mean, obviously, there are some events that could be beyond a party's control that could impact on compliance. So, we do need to look to ensure that we've got safeguards in the conduct Order, in the secondary legislation, so that the returning officers and the national nominations compliance officer can respond appropriately and proportionately, but as far as possible aligning this with current rules and processes".¹⁷²

Seddi gwag

139. Mae adran 9 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – sy'n rhoi adran 11 newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 – yn gwneud trefniadau ar gyfer llenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol. Mae'n darparu y bydd lleoedd gwag yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd cymwys a bodlon nesaf ar y rhestr, neu i'r sedd aros yn wag os yw'r rhestr wedi'i disbyddu neu os etholwyd yr Aelod sy'n gadael fel aelod annibynnol.

140. Awgrymodd Dr Gomes y canlynol o ran y rheolau cwota:

"[...] create incentives for faux candidacies by women, whereupon parties ask women to run and resign once the election is over, doing so willingly whether by financial incentive or by promise of another position. This can also create incentives for pressuring women to resign in favour of men, including physical violence".¹⁷³

141. O ganlyniad, awgrymodd Dr Gomes y dylai rheolau fod ar waith i ddirprwyon fod o'r un rhywedd, a fyddai'n gweithredu fel rhwystr yn erbyn trais gwleidyddol (gan gynnwys pwysau seicolegol i ymddiswyddo).¹⁷⁴ Aeth yr Athro Krook, hefyd, i'r afael â'r mater o lenwi swyddi gwag:

¹⁷²Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 1 Mai 2024

¹⁷³ SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

¹⁷⁴ SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

"[...] globally, there's been a really interesting trial-and-error process to work out some of exactly these cases, and when this started happening in a number of countries, either because a woman resigned, or there was some other reason she was replaced, and then maybe replaced by a man, it affected the overall gender composition of the assembly, they did change the legislation or there was jurisprudence that was created to say that a women had to be replaced by a woman and a man had to be replaced by a man. So, that's very much in line with international practice, as it has developed over time. [...] The idea of it's the next person on the list, but the next person on the list of the same sex, would, I think, be a good way to ensure that the level of parity is maintained over time".¹⁷⁵

142. Cydnabu 5050Amrywiol y gallai'r darpariaethau ar lenwi swyddi gwag achlysurol gael effaith negyddol, o bosibl, ar sicrhau cydraddoldeb rhywedd.¹⁷⁶

143. Gwnaethom archwilio a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i effaith seddi gwag ar gydbwysedd cyffredinol y Senedd. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai swyddi gwag sy'n codi yn ystod tymor Senedd yn cael eu cynnig i'r person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr, a dywedodd ei bod yn rhoi cyfle o 50 y cant, o leiaf, i fenyw gymryd lle rhywun. Ychwanegodd fel a ganlyn:

"[...] we know that there are very few casual vacancies of that kind. But I think it's important that we recognise that we're talking here about candidate quotas in this Bill, so the rules apply to candidates on party lists and not beyond the point at which they stand nominated for their party. But we think that to introduce further rules could be quite complex and disproportionate in terms of the low number of vacancies that are likely to occur and also the nature and rigour of existing rules that apply to lists at nomination stage, and we're keen to get this Bill through in terms of the main purpose".¹⁷⁷

¹⁷⁵ RoP [paragraff 473], 18 Ebrill 2024

¹⁷⁶ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Diverse5050 yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 24 Ebrill 2024](#). (Saesneg yn unig)

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 99 a 101], 1 Mai 2024

Ein barn ni

144. Rydym wedi clywed tystiolaeth am gyfleoedd a risgiau gwahanol ddyluniadau systemau cwota. Rydym yn cydnabod nad yw'r Bil yn cyflawni'r union gynllun cwota a argymhellir gan y Pwyllgor Diben Arbennig. Fodd bynnag, mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwyllo mai'r trothwy isaf a gynigir yn y Bil – ynghyd â'i feini prawf gosod fertigol a llorweddol – yw'r cyfle gorau i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal yn y Senedd. Rydym yn cydnabod na all y rheolau cwota sicrhau cydraddoldeb, a bydd angen ymrwymiad gan bleidiau i osod menywod mewn safleoedd y gellir eu hennill ar restrau mewn seddi y gellir eu hennill. At hynny, rydym yn cydnabod bod angen camau anneddfwriaethol eraill i gefnogi ac annog mwy o gynrychiolaeth menywod ochr yn ochr â'r Bil. Trafodir y materion hyn ymhellach ym mhennod 9.

145. Nid yw Darren Millar AS yn cytuno â'r rheolau cwota a gynigir yn y Bil. Mae'n cefnogi'r farn nad yw'r system gwota arfaethedig yn y Bil yn ymateb cymesur i'r heriau o ran cydbwysedd rhywedd yn y Senedd o ystyried bod y Senedd wedi sicrhau cydraddoldeb rhywedd yn y gorffennol heb unrhyw gwota a bod y Senedd yn parhau i fod â lefelau sylweddol a chyson uwch o gynrychiolaeth menywod o gymharu â seneddau eraill. Mae'n pryderu bod y rheolau'n tanseilio amcan y Bil o geisio cynrychiolaeth gyfartal, gan y byddent yn gosod cyfyngiadau ar nifer y dynion, a'u gosodiad, ond nid ar nifer neu osodiad menywod. Er nad yw'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ei farn yw pe bai cwota deddfwriaethol yn cael ei roi ar waith, y dylai fod yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig – a gymeradwywyd gan y Senedd yn 2022 – sef y dylai fod angen 50 y cant (± 1 ymgeisydd) o ymgeiswyr ym mhob etholaeth i fod yn fenywod, a 50 y cant (± 1 ymgeisydd) yn ddynion, gyda rhestrau wedi'u ham-yn-eilio (h.y. menywod a dynion am yn ail).

146. Mae rhaid lliniaru'r risgiau y gallai'r rheolau cwota fod yn agored i'w camddefnyddio – ac y gallent arwain at fenywod yn sefyll etholiad er mwyn cydymffurfio â'r rheolau cwota gyda'r bwriad o dynnu yn ôl neu ymddiswyddo os cânt eu hethol, neu bobl dan bwysau i dynnu'n ôl – drwy sicrhau bod eglurder ynghylch yr effaith ar gydymffurfio â rheolau cwota o dynnu ymgeisydd o'r rhestr. Rydym yn nodi bod y Bil yn darparu y caiff y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth (“may [make a provision]”) yn ymwneud â chydymffurfio â'r rheolau cwota pan fydd ymgeisydd yn cael ei dynnu oddi ar restr ar ôl ei gyflwyno. Nid ydym yn ystyried hyn yn ddigonol, ac rydym am weld y “may” yn cael ei newid i “must”.

Argymhelliad 2. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol egluro pa sefyllfaoedd sy'n ymwneud â thynnu ymgeisydd oddi ar restr y manylir arnynt yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn unol ag adran newydd 7D(1)(a) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), a darparu manylion am fwriadau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob amgylchiad.

Argymhelliad 3. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i newid y "may" yn adran newydd 7D(1) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) i "must", gan ei fod yn ymwneud â darpariaeth i'w gwneud yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau mewn perthynas ag effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr ymgeiswyr ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B.

147. Os bydd ymgeisydd benywaidd yn marw, deallwn mai bwriad Llywodraeth Cymru yw darparu bod SCEau a'r SCEC yn ystyried cydymffurfiaeth fel pe na bai'r farwolaeth wedi digwydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fwriadau polisi wedi'u darparu mewn perthynas â rhesymau eraill dros dynnu ymgeisydd oddi ar y rhestr, er enghraifft o ganlyniad i benderfyniad ymgeisydd i dynnu'n ôl, neu benderfyniad y blaid i dynnu ei enwebiad yn ôl. Er mwyn amddiffyn pob ymgeisydd rhag bygythiadau o drais neu fygyly, a gwarchod rhag menywod yn sefyll at ddibenion cydymffurfio ymddangosiadol (gyda'r bwriad o dynnu yn ôl neu ddiswyddo yn ddiweddarach), credwn fod rhaid i'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n nodi beth fyddai'n digwydd pe bai ymgeisydd yn tynnu'n ôl ar ôl i restr gael ei chyflwyno. Yn y lle cyntaf, os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl, rhaid ailasesu'r rhestr sy'n weddill yn erbyn y rheolau cwota. Os bydd yr asesiad hwnnw'n canfod nad yw'r rhestr yn cydymffurfio mwyach, dylid rhoi cyfle i'r blaid aildrefnu ei hymgeiswyr i sicrhau cydymffurfiaeth. Os yw'r blaid o'r farn ei bod yn dymuno sefyll ymgeisydd ychwanegol yn lle'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegol hwnnw fod wedi gwneud yr un datganiad â'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl ynghylch a yw'n fenyw ai peidio.

Argymhelliad 4. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gadarnhau y bydd darpariaeth a wneir yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau mewn perthynas ag effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr o ymgeiswyr ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl ar ôl i restr gael ei chyflwyno, bod rhaid ailasesu'r rhestr sy'n weddill yn erbyn y rheolau cwota. Os bydd yr asesiad hwnnw'n canfod nad yw'r rhestr yn cydymffurfio mwyach, dylid rhoi cyfle i'r blaid aildrefnu ei hymgeiswyr i sicrhau cydymffurfiaeth. Os yw'r blaid o'r farn ei bod yn dymuno sefyll ymgeisydd ychwanegol yn lle'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegol hwnnw fod wedi gwneud yr un datganiad â'r ymgeisydd a dynnwyd yn ôl ynghylch a yw'n fenyw ai peidio.

148. At hynny, dylid rhoi'r un amddiffyniad i Aelodau, a allent, hefyd, wynebu pwysau i ymddiswyddo ar ôl eu hethol. Rydym yn deall y bydd swyddi gwag sy'n codi yn ystod tymor Senedd yn cael eu cynnig i'r ymgeisydd cymwys nesaf ar y rhestr, a nodwn farn yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai rheolau pellach fod yn gymhleth ac anghymesur o ran nifer isel y swyddi gwag. Fodd bynnag, rydym wedi nodi, er enghraifft, pedair swydd wag¹⁷⁸ yn y Pedwerydd Cynulliad a dwy swydd wag¹⁷⁹ yn y Bumed Senedd, am resymau heblaw marwolaeth Aelod. At hynny, bydd Senedd fwy o faint yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd lleoedd gwag yn codi yn y dyfodol. Er mwyn amddiffyn Aelodau, felly, rhag pwysau i ymddiswyddo, ac i gynnal cydbwysedd y gynrychiolaeth drwy gydol tymor Senedd, ni ddylai person ar restr plaid fod yn gymwys i lenwi sedd wag achlysurol, yn y lle cyntaf, oni bai ei fod wedi gwneud yr un datganiad â'r Aelod sy'n gadael ynghylch a yw'n fenyw ai peidio ar yr adeg y'i henwebwyd fel ymgeisydd ar gyfer yr etholiad. Os na fydd ymgeisydd o'r fath ar ôl ar y rhestr, yna caiff y person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr, nad oedd wedi gwneud yr un datganiad, lenwi'r sedd.

Argymhelliad 5. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau gael eu llenwi gan y person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr a wnaeth yr un datganiad â'r Aelod sy'n gadael ynghylch a yw'n fenyw ai peidio. Os nad oes ymgeiswyr o'r fath ar y rhestr, rhaid i'r sedd wag gael ei llenwi gan y person cymwys a pharod nesaf ar y rhestr na wnaeth yr un datganiad.

149. Rydym yn cydnabod y byddai'r dull a argymhellir gennym o fynd i'r afael ag achos o dynnu ymgeiswyr oddi ar restr yn ystod amserlen yr etholiad, neu swyddi gwag achlysurol sy'n codi yn ystod tymor y Senedd, yn gofyn bod y datganiadau ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio ar adeg eu henwebu fel ymgeisydd, yn cael eu cadw am gyfnod y tymor Senedd perthnasol.

Argymhelliad 6. Wrth roi ein hargymhellion 4 a 5 ar waith yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data i sicrhau bod unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chadw datganiadau ymgeiswyr ynghylch a ydynt yn fenyw ai peidio am gyfnod priodol (sef cyfnod y Senedd berthnasol ar gyfer seddi sy'n digwydd dod yn wag).

¹⁷⁸ Tair sedd wag ranbarthol (John Dixon, Antoinette Sandbach a Byron Davies) ac un sedd wag etholaethol (Ieuan Wyn Jones)

¹⁷⁹ Dwy sedd wag ranbarthol (Nathan Gill a Simon Thomas)

4. Gorfodi a chydymffurfiaeth

Darpariaeth yn y Bil

150. Mae adran 7C newydd o Ddeddf 2006, a fewnosodir gan adran 1 o'r Bil, yn darparu ar gyfer creu Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ('SCEC') ac ar gyfer gorfodi adran 7B (y meini prawf gosod llorweddol).

151. Mae adran 7C(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer dynodi SCEC a'i swyddogaethau yn ymwneud â sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 7B.

152. Mae adran 7C(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ynghylch camau y caniateir eu cymryd, neu gamau y mae rhaid eu cymryd, pan na fo rhestrau ymgeiswyr yn cydymffurfio ag adran 7B, a swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol (SCE) mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 7B.

153. Mae adran 7C(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau er mwyn:

- Nodi sut y caiff y SCEC benderfynu pa restr neu restrau sy'n destun newid er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 7B, neu sut y mae rhaid iddo wneud hynny.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r SCE wneud newidiadau i restr a ddewisir gan y SCEC, neu alluogi'r SCE i wneud hynny.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r SCE fynnu, pan na fo'r unig ymgeisydd ar y rhestr honno a ddewisir yn fenyw, nad yw'r ymgeisydd hwnnw wedi'i enwebu mwyach, neu alluogi'r SCE i wneud hynny.

Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol

154. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen "rôl newydd ac unigryw" y SCEC at ddiben gweithredu'r cwotâu ymgeiswyr yn unig. Mae'n datgan, fel sy'n wir am rôl SCEau, y bydd llawer o'r manylion gweithredol sy'n ymwneud â'r camau ymarferol

y mae rhaid neu y caniateir i'r SCEC eu cymryd yn cael eu nodi yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, yn hytrach nag ar wyneb y Bil.¹⁸⁰

155. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r rôl gael ei chyflawni gan rywun o'r gronfa o Swyddogion Canlyniadau Awdurdodau Lleol na fyddant yn gwasanaethu fel SCE yn etholiadau'r Senedd.¹⁸¹

156. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth hefyd yn datgan y bydd angen newidiadau i'r amserlen etholiadol "er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwiriadau cydymffurfio angenrheidiol", ac y rhagwelir y bydd cyfnod o hyd at dri diwrnod at y diben hwn.¹⁸² Trafodir newidiadau i'r amserlen etholiadol ymhellach ym mhennod 7.

157. Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at drosedd torri dyletswydd swyddogol gan Swyddogion Canlyniadau a swyddogion etholiadol eraill, ac mae'n awgrymu ei bod yn "bosibl y bydd [hyn] yn cael ei newid er mwyn cynnwys y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol".¹⁸³

158. Er y bydd y manylion am rôl y SCEC yn cael eu nodi yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, mae'r Memorandwm yn amlinellu'r broses arfaethedig y bydd y SCEC yn ei dilyn i asesu cydymffurfiaeth a datrys unrhyw faterion o ran diffyg cydymffurfiaeth.¹⁸⁴ Ceir crynodeb o hyn yn Ffigur 3.

¹⁸⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 113


¹⁸¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024, tudalen 5

¹⁸² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024, tudalen 5

¹⁸³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 236


¹⁸⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 113

Ffigur 3 Proses arfaethedig i asesu cydymffurfiaeth a datrys unrhyw faterion o ran diffyg cydymffurfiaeth ag adran 7B



159. Mae Ffigur 4 yn dangos yr effaith y gallai aildrefnu rhestr ei chael ar yr ymgeiswyr dilynol ar y rhestr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r meini prawf gosod fertigol. O ganlyniad i symud yr ymgeisydd nad yw'n fenyw ar frig y rhestr i'r ail safle, rhaid i'r ymgeisydd yn y trydydd safle (nad yw'n fenyw chwaith) gyfnewid safleoedd â'r ymgeisydd sy'n fenyw yn y pedwerydd safle, gan fod y meini prawf gosod fertigol yn atal dau ymgeisydd nad ydynt yn fenywod rhag ymddangos mewn trefn olynol ar y rhestr.

Ffigur 4 Aildrefnu rhestr ymgeiswyr



Dulliau o orfodi cwotâu

Gwrthod rhestrau ymgeiswyr

160. Roedd y dystiolaeth a glywsom gan academyddion yn cefnogi gwrthod rhestrau a'u haidrefnu wedi hynny, pe na bai plaid yn cydymffurfio â'r meini prawf gosod. Disgrifiodd yr Athro Kenny a'r Athro Piscopo y model gorfodi hwn fel un sy'n dilyn arferion gorau rhyngwladol.¹⁸⁵ Dywedodd yr Athro Kenny wrthym fod sanctsiynau etholiadol o ran annylsu (neu aildrefnu) rhestrau nad ydynt yn cydymffurfio yn debygol o fod yn llawer mwy effeithiol o ran sicrhau cydymffurfiaeth na chosbau ariannol.¹⁸⁶

161. Dywedodd 5050Amrywiol hefyd y byddai gwrthod rhestrau nad ydynt yn cydymffurfio yn fecanwaith gorfodi hynod effeithiol.¹⁸⁷ Cefnogodd ERS Cymru y cyfle i bleidiau ddiwygio rhestr nad yw'n cydymffurfio yn y lle cyntaf, gan nodi bod hyblygrwydd wrth gyflwyno system newydd sbon yn allweddol ac y byddai'r dull yn sicrhau nad yw camgymeriadau'n cael eu gwneud.¹⁸⁸

162. Daeth gwaith ymchwil Dr Daniel i'r casgliad bod y sanctsiwn ymhlith y sanctsiynau cryfaf posibl ar gyfer gorfodi cwotâu. Ymhellach, nododd ei fod yn annhebygol o gael lle amlwg yng ngweithrediad y cwotâu o ddydd i ddydd, gan fod pleidiau gwleidyddol mewn systemau democrataidd eisoes yn fwy tebygol o gadw at y ddeddfwriaeth nag mewn cyd-destunau eraill. Wrth edrych ar etholiadau i Senedd Ewrop, canfu gwaith ymchwil Dr Daniel fod gan wledydd sydd â mecanweithiau gorfodi cryf fel rhan o'u cwotâu fwy o Aelodau o Senedd Ewrop sy'n fenywod na'r rhai sydd â chamau gorfodi gwan neu ddim camau gorfodi o gwbl. Ar lefel pleidiau gwleidyddol, canfu ei waith ymchwil fod yr effaith yn gryfach fyth, gyda phleidiau gwleidyddol mewn gwledydd sydd â mecanweithiau gorfodi cryf yn cynnwys 9.94 y cant yn fwy o fenywod ymhlith eu cynrychiolwyr etholedig o gymharu hynny â'r rhai â chamau gorfodi gwan neu ddim camau gorfodi o gwbl.¹⁸⁹

163. Roedd gweinyddwyr etholiadol hefyd yn cefnogi'r dull arfaethedig. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y byddai Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn gwirio cydymffurfiaeth â'r rheolau fertigol fel rhan o'i gwiriadau enwebu arferol ac, er y byddai'n faich ychwanegol, dywedodd ei bod yn briodol i

¹⁸⁵ SCECLB14-P Yr Athro Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig) a SCECLB15-P Yr Athro Jennifer Piscopo, Royal Holloway, Prifysgol Llundain (Saesneg yn unig)

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 504], 18 Ebrill 2024

¹⁸⁷ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

¹⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 24 Ebrill 2024

¹⁸⁹ Modelu cwotâu rhywedd arfaethedig, Dr William T Daniel, Prifysgol Nottingham

SCEau ymgymryd â'r rôl hon.¹⁹⁰ Dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod proses “gymharol glir i Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth ei dilyn er mwyn penderfynu a yw rhestr yn cydymffurfio â'r gofynion ai peidio”.¹⁹¹

164. Esboniodd Dr Gomes fod y rhan fwyaf o wledydd sydd wedi cyflawni canlyniadau llwyddiannus gyda chwotâu rhywedd wedi gosod sancsiynau cryf, a'r mwyaf cyffredin yw gwrthod y rhestr gyfan. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod cydymffurfiaeth yn dibynnu ar sancsiynau'n cael eu gorfodi, gan awgrymu na fydd pleidiau'n cydymffurfio os ydynt yn credu na fyddant cael eu cosbi.¹⁹² Adleisiwyd hyn gan Dr Jenichen, a bwysleisiodd, os nad oes sancsiynau, y bydd pleidiau'n dod o hyd i ffyrdd o danseilio'r rheoliadau cwota.¹⁹³

165. Yn ymarferol, dywedodd yr Athro Piscopo mai anaml y bydd angen aildrefnu neu annilysu rhestrau ar ôl yr etholiad cyntaf pan gaiff y cwota ei weithredu a'i orfodi. Dadleuodd fel a ganlyn:

*“[...] in the first implementation, if parties attempt to defy the rule and find that their lists are ordered to be re-ordered or are invalidated, this enforcement creates a cost for the party and sends a signal that the authorities are serious”.*¹⁹⁴

166. Ategwyd y farn hon hefyd gan Dr Louise K Davidson-Schmich, a ddadleuodd fod pleidiau'n tueddu i 'chwarae' gyda chwotâu yn hytrach na gweithredu'n unol â'r rheolau heb gamau gorfodi a sancsiynau.¹⁹⁵

167. Tynnodd Dr Lühiste sylw at anghysondeb yng nghynigion y Bil gan fod pleidiau'n cael 'ail gyfle' i gywiro diffyg cydymffurfiaeth â'r rheol gosod llorweddol ond nid â'r rheol gosod fertigol.¹⁹⁶

168. Pan ofynnwyd iddi a fyddai pleidiau'n cael cefnogaeth i sicrhau bod ganddynt amser i gydymffurfio â'r meini prawf gosod fertigol, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn gobeithio na fyddai'n angenrheidiol i SCEau wrthod rhestr am beidio â bodloni'r rheolau gosod fertigol. Ychwanegodd fel a ganlyn:

¹⁹⁰ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

¹⁹¹ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

¹⁹² SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

¹⁹³ SCECLB25-P Dr Anne Jenichen, Prifysgol Aston (Saesneg yn unig)

¹⁹⁴ SCECLB15-P Yr Athro Jennifer Piscopo, Royal Holloway, Prifysgol Llundain (Saesneg yn unig)

¹⁹⁵ SCECLB38-P Dr Louise K. Davidson-Schmich, Prifysgol Miami (Saesneg yn unig)

¹⁹⁶ SCECLB37-P Dr Maarja Lühiste, Prifysgol Newcastle (Saesneg yn unig)

“We’ve considered vulnerability of parties to potential non-compliance [...], this is possibly higher for the horizontal rule, and that’s where it’s important that, for political parties that perhaps don’t have a strong national co-ordination function, we’re proposing that slightly different approach in terms of compliance, which will allow political parties to stand as many of their candidates as possible, but in a different order on their list”.¹⁹⁷

169. O ran y dull arfaethedig o aildrefnu’r rhestr a ddewiswyd, a gaiff ei nodi yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, cadarnhaodd swyddog yr Aelod sy’n gyfrifol mai’r egwyddor fyddai cael yr effaith leiaf ar aildrefnu’r rhestr.¹⁹⁸

Cosbau ariannol

170. Clywsom fod rhai gwledydd yn gosod cosbau ariannol ar bleidiau nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau cwota, yn hytrach na gwrthod rhestrau ymgeiswyr. Yn y Memorandwm, cyfeirir at y system yng Ngweriniaeth Iwerddon, lle y mae pleidiau gwleidyddol yn colli 50 y cant o’u cyllid gwladol os nad ydynt yn bodloni’r cwota etholiadol. Fodd bynnag, mae’r Memorandwm yn nodi na fyddai mecanwaith o’r fath yn gweithredu’n effeithiol yng Nghymru gan nad yw pleidiau’n cael cyllid gwladol yn yr un modd.¹⁹⁹

171. Serch hynny, y farn gyffredin oedd bod sancsiynau ariannol yn llai effeithiol na gwrthod rhestrau ymgeiswyr. Gan gyfeirio at y profiad mewn gwledydd fel Ffrainc, esboniodd yr Athro Kenny fod cosbau ariannol yn aml yn aneffeithiol i bleidiau mawr oherwydd eu bod yn gallu fforddio derbyn yr ergyd ariannol a pheidio â dilyn y gyfraith.²⁰⁰ Cydnabu 5050Amrywiol hefyd y byddai sancsiynau ariannol yn caniatáu i bleidiau fwrw ymlaen ag etholiad gyda rhestrau nad ydynt yn cydymffurfio os ydynt yn fodlon ac yn gallu gwneud yr aberth ariannol.²⁰¹ Gwnaeth Dr Gomes a’r Athro Campbell yr un pwynt.²⁰² Cyfeiriodd yr Athro Krook at ei gwaith ymchwil ei hun a ddangosodd fel a ganlyn:

¹⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 1 Mai 2024

¹⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 130], 13 Mawrth 2024

¹⁹⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 110

²⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 504], 18 Ebrill 2024

²⁰¹ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

²⁰² SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig) a Chofnod y Trafodion, 18 Ebrill 2024

"[...] if there is no sanction or if there is a financial sanction, these usually create a lot of loopholes for political parties to avoid implementation, but if they are forced to comply, then not surprisingly they do".²⁰³

172. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r posibilrwydd o osod cosbau ariannol ond y byddai hynny'n golygu bod angen trefn gwbl newydd o gyrrff annibynnol i roi dirwyon.²⁰⁴

Rôl asiantiaid pleidiau

173. Pwysleisiodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru rôl bwysig asiantiaid pleidiau yn lleol ac yn genedlaethol wrth reoli'r rheolau gosod fertigol a llorweddol, ac ychwanegodd y canlynol:

"[...] it's going to be critical that parties have a single, named responsible national agent who the NNCO could work with, should there be a problem over the weekend post nomination. So, streamlining of roles, role clarity and preparation of agents at national and local levels are more important than ever".²⁰⁵

174. Esboniodd cynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol fod y gweithdrefnau enwebu lleol yn cael eu rheoli'n bennaf gan wirfoddolwyr y blaid. Clywsom y byddai angen hyfforddiant i sicrhau bod asiantiaid lleol a chenedlaethol yn deall y rheolau a'r gofynion newydd ac awgrymwyd hefyd y gallai'r cyfrifoldebau ychwanegol olygu bod gwirfoddolwyr yn llai parod i wirfoddoli.²⁰⁶

175. Pan ofynnwyd iddynt sut y byddai pleidiau'n rheoli unrhyw waith posibl i aildrefnu rhestrau ymgeiswyr i gydymffurfio â'r rheolau gosod llorweddol, nododd cynrychiolwyr pleidiau y byddent yn ystyried eu gweithdrefnau a'u rheolau sefydlog pan fydd y ddeddfwriaeth wedi'i chwblhau.²⁰⁷

²⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 508], 18 Ebrill 2024

²⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 201], 13 Mawrth 2024

²⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 64], 21 Mawrth 2024

²⁰⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 294, 296 a 393], 18 Ebrill 2024

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 311, 313 a 315], 18 Ebrill 2024

176. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai o fudd i bob plaid ddeall y gofynion:

"It will be in their interest to submit nominations early in the window so that there's an opportunity to correct any errors before the nominations deadline. This is standard practice anyway in terms of electoral arrangements. But the rules aren't complex. The legislation is clear. And training and guidance [...] in advance of the election, will be updated to reflect the changes".²⁰⁸

Rôl y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol

Swyddogaethau

177. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Comisiwn Etholiadol na allai ddarparu ymateb manwl ar rôl y SCEC heb weld rhagor o fanylion am yr hyn a allai gael ei gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yn disgwyl y byddai'r broses i'w dilyn gan y SCEC yn "gyflawnadwy" a bod "Llywodraeth Cymru wedi cynllunio'r system arfaethedig mewn ymgynghoriad â gweinyddwyr etholiadau".²⁰⁹

Tryloywder ac atebolrwydd

178. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol fod rhaid bod yn glir bod camau a gymerir gan y SCEC i roi cyfarwyddyd i SCE aildrefnu ymgeiswyr yn cael eu gwneud yn wrthrychol, heb ymyriad gwleidyddol gwirioneddol neu ganfyddedig. Ychwanegodd y dylid craffu'n briodol ar unrhyw broses 'bwrw coelbren' i benderfynu pa restr sydd i'w haildrefnu.²¹⁰

179. Cododd y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol gwestiynau am atebolrwydd y SCEC. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol ei fod ar hyn o bryd yn gosod safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. Er ei fod wedi cael trafodaethau cynnar â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid estyn y safonau perfformiad hyn i gynnwys y SCEC, nododd y Comisiwn Etholiadol y byddai angen ystyried hyn ymhellach.²¹¹

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 1 Mai 2024

²⁰⁹ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

²¹⁰ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

²¹¹ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig) a SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

180. Pan ofynnwyd iddi a ddylai'r drosedd torri dyletswydd swyddogol fod yn gymwys i'r SCEC, dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y byddai rhaid iddi ystyried natur lawn a swyddogaethau rôl y SCEC mewn is-ddeddfwriaeth, ond ychwanegodd y canlynol:

"[...] if they are acting in a similar function to a returning officer, and a returning officer is always subject to a breach of official duty, then it would seem reasonable that that would be exactly the same for the national nominations compliance officer".²¹²

Penodi dirprwy SCEC

181. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi dirprwy SCEC.

182. Galwodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru am i ddirprwy SCEC gael ei benodi i fod ar gael wrth gefn pe bai'r SCEC dynodedig yn sâl neu'n anhwylyd yn ystod y cyfnod y byddai'n ymgymryd â'i ddyletswyddau.²¹³ Ategwyd y cynnig hwn gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol.²¹⁴

183. Wrth drafod yr angen am ddirprwy SCEC, dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol fod trafodaethau â gweinyddwyr etholiadol yn parhau, ond nad oedd Gweinidogion wedi gwneud penderfyniad eto.²¹⁵

184. Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i benodi dirprwy SCEC, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Cyllid y byddai'r costau cysylltiedig tua £250 fesul cylch etholiadol.²¹⁶

Ein barn ni

185. Rydym yn fodlon ar y system orfodi arfaethedig a'r sancsiynau am ddiffyg cydymffurfiaeth a amlinellir yn y Bil, gan gydnabod ei fod yn darparu mecanwaith cryf sy'n dilyn arfer gorau rhyngwladol. Rydym hefyd yn croesawu'r penderfyniad i wneud darpariaeth mewn perthynas â'r rheol gosod llorweddol ar gyfer aildrefnu rhestr nad yw'n cydymffurfio, yn hytrach na'i gwrthod yn llwyr, er mwyn sicrhau y gall pleidiau gynnig cynifer o ymgeiswyr â phosibl.

²¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 21 Mawrth 2024

²¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 21 Mawrth 2024

²¹⁴ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig) a SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

²¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 1 Mai 2024

²¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 24 Ebrill 2024

186. Yn y pen draw, mater i bleidiau fydd rheoli eu cydymffurfiaeth â'r rheolau gosod fertigol a llorweddol. Er y caiff pleidiau ddewis addasu eu dull presennol pan gyflwynir y model newydd lle y mae 16 etholaeth â chwe Aelod, rydym yn cydnabod y beichiau ychwanegol y gellir eu gosod ar wirfoddolwyr pleidiau sy'n gyfrifol am reoli'r broses enwebiadau'n lleol ar hyn o bryd. Rydym yn nodi'r awgrym gan weinyddwyr etholiadol y dylai pleidiau nodi asiant plaid cenedlaethol i gydgysylltu rhestrau ymgeiswyr a rheoli'r rheol gosod llorweddol. Bydd angen i'r pleidiau feddwl yn ofalus am sut y maent yn trefnu eu hunain, pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am reoli cydymffurfiaeth gyffredinol y blaid, ac amseru cyflwyno ffurflenni enwebu i SCEau. Nid ydym yn diystyru'r heriau dan sylw, yn enwedig os bydd angen dewis rhestr neu restrau i'w haildrefnu ar fyr rybudd.

187. Rydym yn fodlon ar y ddarpariaeth ar gyfer dynodi SCEC yn adran 7C newydd ac yn cydnabod cyfranogiad gweinyddwyr etholiadol yn ei dyluniad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y bydd llawer o'r manylion yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a bod rhai penderfyniadau am y SCEC i'w gwneud o hyd. Er ein bod yn derbyn y bwriedir i'r SCEC fod yn rôl ar wahân a thros dro, rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan weinyddwyr etholiadol ynghylch diffyg darpariaeth ar gyfer dirprwy SCEC. O ystyried rôl sylweddol y SCEC wrth orfodi cwotâu ymgeiswyr, rydym yn credu y byddai'n ddiogel peidio â dynodi dirprwy SCEC yn ffurfiol a allai ymgymryd â'r rôl hanfodol hon gyda'r un dilysrwydd, hygrededd ac arbenigedd, pe bai angen. Ein barn ni yw y dylid cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi dirprwy SCEC ar wyneb y Bil fel nad oes amheuaeth a ellir penodi dirprwy o'r fath.

Argymhelliad 7. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar gyfer dynodi dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol.

188. Tynnodd gweinyddwyr etholiadol sylw hefyd at benderfyniadau sydd heb eu gwneud ynglŷn â threfniadau atebolrwydd y SCEC. O ystyried natur y rôl a'r angen i ddiogelu uniondeb y broses etholiadol, ein barn ni yw bod yn rhaid estyn y safonau perfformiad a throsedd torri dyletswydd swyddogol sy'n gymwys ar hyn o bryd i SCEau i'r SCEC (a'r dirprwy SCEC).

Argymhelliad 8. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi sicrwydd y bydd y safonau perfformiad a'r drosedd o dorri dyletswydd swyddogol sy'n gymwys i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn cael eu hestyn i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (a'r dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau

Cenedlaethol). Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai amlinellu a fydd angen unrhyw newidiadau o ran deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth i gyflawni hyn.

5. Datganiad ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio

Darpariaeth yn y Bil

189. Mae adran 1 o'r Bil yn mewnosod adran newydd 7D yn Neddf 2006 i bennu darpariaeth benodol mewn perthynas ag adrannau 7A (rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr fod yn fenywod) a 7B (rhaid i'r ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw) y caniateir ei gwneud neu y mae rhaid ei gwneud yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

190. Mae adran 7D(2) yn darparu bod rhaid i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson, fel rhan o'r broses o gael ei enwebu'n ymgeisydd gan blaid wleidyddol, ddatgan a yw'n fenyw ai peidio (y 'datganiad').

191. Mae adran 7D(1)(b) hefyd yn darparu y caiff y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth i'r datganiad a wneir o dan adran newydd 7D(2) gael ei archwilio gan bersonau perthnasol.

Y gofyniad i ymgeiswyr wneud datganiad

192. Mae'r Memorandwm yn esbonio bod y "gofyniad i ymgeisydd nodi a yw'n fenyw ai peidio yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol, ond dim mwy, i weithredu a gorfodi'r system".²¹⁷ Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi y bydd enwebiad ymgeisydd yn annilys os bydd yr ymgeisydd yn methu â darparu'r datganiad.²¹⁸

Rhyw a rhywedd

193. Nid yw'r Bil ei hun yn cynnwys y geiriau 'rhyw' na 'rhywedd'. Cododd nifer o sefydliadau menywod bryderon ynghylch geiriad y datganiad a'r defnydd o'r termau 'rhyw' a 'rhywedd' yn y Memorandwm, gan ddweud y gallai olygu y bydd dynion, sy'n uniaethu fel menywod dim ond at ddibenion cael eu hethol, yn

²¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 91

²¹⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 13 Mawrth 2024, tudalen 6

cymryd y lleoedd a fwriadwyd ar gyfer menywod. Ategwyd hyn gan lawer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad fel unigolion.²¹⁹

194. Dywedodd mudiad Datganiad Merched Llafur Cymru²²⁰ fod rhyw yn cyfeirio at wahaniaeth biolegol a'r ffaith, mewn pobl, fod p'un a yw unigolyn yn wryw ynteu'n fenyw yn cael ei benderfynu ar adeg beichiogi, ac mae hynny, meddai, yn ddigyfnewid. Dywedodd nad oes pen draw ar natur gyfnewidiol rhywedd, rhwng unigolion, ar gyfer unigolion, dros amser ac ar draws diwylliannau.²²¹ Dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod fod gwahaniaeth barn ynghylch y diffiniad o rywedd, ac felly y dylid defnyddio rhyw, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, drwyddi draw.²²² Galwodd Chwiorydd Plaid²²³ hefyd am ddiwygio'r Bil yn llwyr, gan ddweud y dylid defnyddio'r term diamwys 'rhyw'—sy'n golygu rhyw biolegol—nid y term 'rhywedd', sydd, yn eu barn hwy, yn anghywir ac yn ddadleuol.²²⁴ Nid oedd Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru yn credu bod 'hunaniaeth rhywedd' yn ffordd ystyrlon, barhaol o strwythuro unrhyw ddeddfwrfa, nac yn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.²²⁵ Dywedodd Merched Cymru, er bod y termau rhyw a rhywedd wedi'u defnyddio yn y gorffennol fel cyfystyron ar gyfer rhyw, fod y ddadl sy'n digwydd ar hyn o bryd yn golygu ei bod yn hollbwysig sicrhau eglurder ynghylch pwy sy'n cyfrif fel menyw at ddibenion y Bil.²²⁶

195. Rhybuddiodd Dr Ola Abdelaal, y Rhwydwaith Hawliau Menywod, Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru, Welsh Women Speak Out a Merched Cymru fod y Memorandwm a'r Asesiad Effaith Integredig, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn creu dryswch ynghylch y defnydd o'r termau rhyw a rhywedd, sy'n golygu, yn eu barn hwy, nad yw'r Bil arfaethedig yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.²²⁷ Dywedodd mudiad Merched Cymru mai dim ond unwaith y mae'r Memorandwm yn cyfeirio at y nodwedd warchoddedig gywir, sef

²¹⁹ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen yr ymgyngoriad ar y we](#).

²²⁰ Dechreuodd mudiad [Datganiad Llafur Merched](#) yn ystod hydref 2019 i godi proffil hawliau menywod ar sail rhyw o fewn y Blaid Lafur a'r mudiad sosialaidd ehangach.

²²¹ SCECLB19-P Datganiad Merched Llafur Cymru (Saesneg yn unig)

²²² SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

²²³ Nid yw Chwiorydd Plaid yn [adran swyddogol neu'n grŵp sy'n gysylltiedig â Plaid Cymru](#).

²²⁴ SCECLB24-P Chwiorydd Plaid (Saesneg yn unig)

²²⁵ SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig)

²²⁶ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

²²⁷ SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig), SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig) a SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

'rhyw', a'i fod yn cyfeirio fel arall at rywedd.²²⁸ Tynnodd Datganiad Merched Llafur Cymru sylw at yr enghreifftiau a ganlyn hefyd:

"Paragraph 94 of the Explanatory Memorandum states: 'While parties will be required to ensure that at least 50% of their candidates are women, the remaining candidates can be any gender, including women, in any proportion.' The purpose of the Bill is to achieve equal representation between men and women, so even if the word 'gender' is deemed acceptable in this context - which we would argue it is not - this should read 'either gender', not 'any gender'.

Another example lies in Paragraph 225 of the Explanatory Memorandum, which states: 'Political parties will need to know the stated gender of their candidates so that they can ensure that their party lists comply with the quota rules.' There is no need whatsoever for political parties to know whether their candidates have a gender identity, or what it is: they only need to know the candidate's sex, information which is routinely requested in public life and which is recorded on personal documents such as birth certificates, NHS cards, passports and driving licences".²²⁹

196. Cododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwyntiau tebyg, gan ddweud mai rhyw ac nid rhywedd yw'r nodwedd warchoddedig berthnasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd:

"The Explanatory Memorandum mentions the term 'sex' once and this is to reference the protected characteristic as set out above. Gender is otherwise the term used throughout. Whilst the Bill itself refers to 'women', which is consistent with the terminology of the [Equality] Act, the repeated use of 'gender' throughout the Explanatory Memorandum may give rise to confusion about how this is defined and may lead to inconsistency with the principles of the Act".²³⁰

197. Dywedodd Cynghair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru fod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn camgyfleu nodwedd warchoddedig 'rhyw' drwy ddefnyddio'r term 'rhyw/rhywedd'. Roedd yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru

²²⁸ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

²²⁹ SCECLB19-P Datganiad Merched Llafur Cymru (Saesneg yn unig)

²³⁰ SCECLB8-P Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Saesneg yn unig)

wedi nodi unrhyw risg y bydd dynion yn uniaethu fel menywod er mwyn cymryd lleoedd menywod, er bod tystiolaeth, meddai, fod hyn yn digwydd mewn meysydd eraill (e.e. chwaraeon a charchardai).²³¹ O ran yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod nad yw'n ddigon trylwyr o ran yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig sy'n effeithio ar fenywod yn benodol. Cwestiynodd pam y mae'r asesiad yn cynnwys 620 o eiriau ar ailbennu rhywedd o gymharu ag 81 o eiriau ar nodwedd warchoddedig beichiogrwydd a mamolaeth (nodwedd sydd o bosibl, meddai, yn un o'r prif resymau dros brinder menywod etholedig).²³² Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er ei bod yn galonogol fod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyd-fynd â'r Bil, fod diffyg manylion ynghylch pam y defnyddiwyd 'rhywedd' fel term yn hytrach na 'rhyw', a diffyg dadansoddiad o effeithiau posibl hyn.²³³

198. Wrth drafod y gofyniad i ymgeiswyr wneud datganiad, cydnabu'r Athro McAllister yr angen i ystyried yn ofalus y cyngor a roddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dylid rhoi pob cyfle i'r Bil fod o fewn cymhwysedd drwy ddefnyddio'r derminoleg sy'n sylfaenol gyfreithiol dderbyniol i sefydliadau sy'n plismona'r Ddeddf Cydraddoldeb.²³⁴

Geiriad y datganiad

199. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson, fel rhan o'r broses o gael ei enwebu'n ymgeisydd gan blaid wleidyddol, ddatgan mai menyw ydyw (*'is a woman'*) neu nad menyw ydyw (*'is not a woman'*). Nid yw'n pennu beth yw ystyr '*woman'* na '*not a woman'*'.

200. Roedd rhai cyfranwyr at ein gwaith yn cefnogi geiriad y datganiad. Dywedodd Cymdeithas Fawcett mai mater i'r pleidiau yw penderfynu ar safle ymgeiswyr, ac roedd yn cefnogi rhestrau cynhwysol sy'n cynnwys menywod traws.²³⁵ Dywedodd mudiad Elect Her wrthym nad oes ganddo ddi-ddordeb mewn diffinio beth yw menyw, gan ddweud bod y batriarchaeth wedi bod yn gwneud hynny'n ddigon hir.²³⁶ Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wrthym fod y datganiad yn gwneud yr hyn y mae angen iddo'i wneud o ran y ddeddfwriaeth, ac ychwanegodd:

²³¹ SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig)

²³² SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

²³³ SCECLB8-P Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Saesneg yn unig)

²³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 87 ac 88], 18 Ebrill 2024

²³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 180], 18 Ebrill 2024

²³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 18 Ebrill 2024

"[...] if asking this question ensures representation for the full diversity of identities in Wales, then that can only be a good thing".²³⁷

201. Canfu gwaith ymchwil allanol a wnaed gan Dr Andrea Aldrich i Ymchwil y Senedd fod cyfreithiau a rheolau ynghylch cwotâu fel arfer yn cyfeirio at fenywod fel y grŵp targed, ond nad ydynt fel arfer yn nodi beth yw ystyr 'menyw'. Roedd Dr Aldrich yn derbyn y gallai hyn greu amwysedd.²³⁸

202. Pan ofynnwyd iddi pam nad yw'r Bil yn diffinio 'menyw' at ddibenion y Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"I think it is important to recognise that over 130 countries use quotas and they use this terminology. Obviously, we're learning from those countries, aren't we. So, we don't agree that this is needed. It does what it does, the legislation—I think that's what WEN Wales says—and it recognises all identities in Wales".²³⁹

203. Nid oedd swyddogion yr Aelod sy'n gyfrifol yn gwybod a yw datganiadau mewn gwledydd eraill yn cael eu llunio yn yr un modd â'r datganiad a gynigir yn y Bil. Fodd bynnag, fe wnaethant gadarnhau bod y system gwota yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ddyn ynteu'n fenyw, heb edrych y tu hwnt i hynny fel rhan o'r broses enwebu.²⁴⁰

Ymgeiswyr traws ac anneuaid

204. Roedd Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru, Merched Cymru a Chwirydd Plaid o'r farn bod y Bil yn creu system o hunanddiffinio rhywedd 'drwy'r drws cefn', gan ddadlau y gallai hyn arwain at erydu cyfleoedd a hawliau i fenywod.²⁴¹

205. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn bwysig egluro a phwysleisio nad yw'r Bil yn ymwneud â'r broses o gydnabod rhywedd; mae cydnabod rhywedd yn fater a gedwir yn ôl, meddai, gan bwysleisio mai unig ddiben y datganiad yw

²³⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 24 Ebrill 2024

²³⁸ Dethol Ymgeiswyr a Chynrychiolaeth Menywod: Safbwynt Seneddol Byd-eang, Dr Andrea S Aldrich, Prifysgol Yale (Saesneg yn unig)

²³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 1 Mai 2024

²⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 153 a 156], 13 Mawrth 2024

²⁴¹ SCECLB20-P Cynghrair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig) a SCECLB24-P Chwirydd Plaid (Saesneg yn unig)

sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau fertigol a llorweddol ar gyfer y rhestr ymgeiswyr.²⁴²

206. Er mai uchelgais polisi ehangach Llywodraeth Cymru yw cefnogi cynhwysiant pobl draws (gan gynnwys ei gwneud yn haws cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd), mae'r Memorandwm yn derbyn bod cydnabod rhywedd yn fater a gedwir yn ôl o dan Ddeddf 2006. Mae'n cydnabod y gallai gorfodi ymgeiswyr i wneud y datganiad effeithio'n negyddol ar rai unigolion, ond mae'n dweud hefyd nad yw'r ddeddfwriaeth yn atal unrhyw un rhag sefyll.²⁴³

207. Awgrymodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod y gallai menywod sy'n arddel credoau 'rhyw-realaidd' eu heithrio eu hunain rhag gwneud datganiad rhywedd.²⁴⁴

208. Dywed yr Asesiad Effaith Integredig fod rhai unigolion a allai "deimlo'n bryderus ynghylch nodi a ydynt yn fenyw ai peidio, ac a allai ystyried hyn yn rhwystr i'w cyfranogiad fel ymgeisydd ar gyfer etholiad". Fodd bynnag, dywed fod nifer y bobl y gallai hyn effeithio arnynt "yn debygol o fod yn fach iawn ac y bydd natur yr effaith yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau personol penodol pob unigolyn".²⁴⁵

209. Roedd Stonewall Cymru²⁴⁶ a Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru²⁴⁷ o'r farn nad yw'r Bil yn ddigon clir ynghylch a yw'n gynhwysol o ran ymgeiswyr traws ac anneuaid. Dywedodd Stonewall Cymru:

"[...] without explicit inclusion in the wording of this Bill, trans and non-binary people who self-declare their gender as part of this initiative will be left open to legal challenge and/or harassment, for example facing pressure to make public personal documents pertaining to their legal gender recognition".²⁴⁸

210. Ategwyd y farn hon gan Dr Davidson-Schmich, a oedd yn dadlau y gallai cymhwystra ymgeiswyr o'r fath i gael lle ar restr fod yn destun her, ac y gallai eu

²⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 13 Mawrth 2024

²⁴³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 217

²⁴⁴ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

²⁴⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Asesiad Effaith Integredig](#) [fel ar 11 Ebrill 2024]

²⁴⁶ SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴⁷ SCECLB39-P Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴⁸ SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig)

gwybodaeth feddygol bersonol ddod yn destun dadl gyhoeddus.²⁴⁹ Roedd Dr Aldrich yn pryderu bod y Bil yn gadael cwestiynau heb eu hateb am gynrychiolaeth pobl anneuaid. Meddai:

*“Scholarship on how non-binary identities are incorporated into affirmative action programs based on gender remains mostly legal and addresses how national constitution law is or is not evolving to incorporate non-binary identities”.*²⁵⁰

211. Roedd Dr Athina Mara am weld iaith a therminoleg mwy cynhwysol yn y Bil, ac roedd yn pryderu bod y geiriad ‘yn fenyw neu nad yw’n fenyw’ yn eithrio pobl anneuaid a menywod traws.²⁵¹ Cwestiynodd Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru a fyddai’r deddfwriaeth yn gydnaws â Deddf Cydraddoldeb 2010 pe bai ymgeiswyr anneuaid yn gorfod arddel rhywedd.²⁵² Dywedodd y Cynghorydd Brighouse y byddai’r Bil yn eithrio pobl nad ydynt yn cydymffurfio o ran eu rhywedd a phobl drawsryweddol rhag sefyll i’w hethol yn y dyfodol:

*“As the first Non-Binary person in Wales to be elected as a County Councillor, this Bill would force me to be listed under a gender that I do not identify with”.*²⁵³

212. Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg a chynhwysol, awgrymodd Dr Abdelaal y gellid ystyried dull wedi’i reoleiddio, o bosibl drwy gwotâu penodol neu fesurau deddfwriaethol ar wahân, er enghraifft drwy sicrhau bod unigolion trawsryweddol yn cael eu cynrychioli’n gymesur â’r boblogaeth.²⁵⁴

213. Er mwyn goresgyn rhai o’r heriau a allai ddeillio o gynnwys y rheidrwydd i ddatgan rhywedd, awgrymodd Dr Jenichen:

“Promising regular, retrospective reviews of the candidate selection process might be an interim solution to counter arguments against

²⁴⁹ SCECLB38-P Dr Louise K. Davidson-Schmich, Prifysgol Miami (Saesneg yn unig)

²⁵⁰ Dethol Ymgeiswyr a Chynrychiolaeth Menywod: Safbwynt Seneddol Byd-eang, Dr Andrea S Aldrich, Prifysgol Yale (Saesneg yn unig)

²⁵¹ SCECLB12-P Dr Athina Mara, Prifysgol Roehampton (Saesneg yn unig)

²⁵² SCECLB39-P Rhyddfrydwyr Ifanc Cymru (Saesneg yn unig)

²⁵³ SCECLB11-P Little Brighouse, Cynghorydd Sir, Cyngor Sir Powys (Saesneg yn unig)

²⁵⁴ SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig)

trans rights and to constructively address cases should they appear”.²⁵⁵

214. Wrth drafod effaith y gofyniad i wneud y datganiad ar rai unigolion, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“[...] I think it is clearly the case that a party or candidate could seek advice, seek legal advice, if they're uncertain about how to state their gender. I have said again that that's ensuring that accurate statements are made. But I think, as I said, there will be times when a gender statement may be sensitive or personal, and that could be the case for a trans or non-binary candidate. I mean, this is highlighted in the equality impact assessment and, indeed, the data protection impact assessment as well”.²⁵⁶

215. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd y gallai fod yn bosibl dyfalu'r hyn y mae ymgeisydd penodol wedi'i ddweud yn ei ddatganiad o'r rhestr sydd wedi'i chyhoeddi. Ychwanegodd:

“[...] we've obviously had that discussion already on how we can acknowledge that sensitivity and also consider, perhaps at subordinate legislation stage, restrictions, possibly, safeguards in terms of interference or inspection of nomination papers”.²⁵⁷

Gwneud datganiadau ffug

Derbyn datganiadau 'fel ffaith'

216. O dan y Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol²⁵⁸, rhaid i bapurau enwebu etholaethol ac unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd gynnwys manylion ymgeiswyr, fel enw llawn a chyfeiriad cartref. Caiff papurau enwebu hefyd gynnwys enwau cyffredin yr ymgeisydd a disgrifiad ohono.

217. Nid oes gan Swyddogion Canlyniadau bwerau i ymchwilio i'r ffeithiau a nodir mewn papur enwebu ac nid oes ganddynt bwerau i wneud dyfarniadau o natur

²⁵⁵ SCECLB25-P Dr Anne Jenichen, Prifysgol Aston (Saesneg yn unig)

²⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 150], 13 Mawrth 2024

²⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 192], 13 Mawrth 2024

²⁵⁸ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. (Saesneg yn unig)

wleidyddol sensitif. Mae pwerau Swyddogion Canlyniadau wedi'u cyfyngu i wirio bod y papur enwebu ar ffurf briodol ac yn gywir ar ei wyneb.

218. Fodd bynnag, pan na fo papur enwebu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu pan fo'n amlwg yn ffug neu'n ddogfen dwyllodrus, caiff y Swyddog Canlyniadau wrthod y papur enwebu. Er enghraifft:

- Caniateir gwrthod papur enwebu nad yw'n cynnwys unrhyw enw.
- Caniateir gwrthod papur enwebu sy'n anweddu, yn hiliol neu'n ysgogi trosedd, yn seiliedig ar gyfraith achosion.
- Caniateir gwrthod papur enwebu sy'n cynnwys enw a chyfeiriad sy'n amlwg yn ffug, yn seiliedig ar gyfraith achosion: "The law has always treated sham documents [...] as nullities".²⁵⁹

219. Un o'r dulliau a awgrymir er mwyn sicrhau na wneir datganiadau ffug yw rhoi grym i SCEau i wirio datganiad ymgeisydd pan gaiff ei enwebu. Awgrymodd Dr Gomes y gallai ymgeiswyr ddangos dogfen adnabod, fel trwydded yrru neu Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.²⁶⁰ Roedd Dr Davidson-Schmich o'r un farn.²⁶¹ Dywedodd Cynghair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru y dylid rhoi grym i SCEau i weld Tystysgrif Cydnabod Rhywedd neu Dystysgrif Geni, ac y dylid eu hannog i wneud hynny, os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch rhyw cyfreithiol ymgeiswyr.²⁶² Galwodd Dr Abdelaal hefyd ar SCEau i wirio bod menywod yn fenywod yn fiolegol neu fod eu rhyw wedi'i gydnabod yn gyfreithiol er mwyn helpu, meddai, i gynnal uniondeb y gofynion o ran cynrychiolaeth rhywedd.²⁶³

220. Wrth drafod arferion mewn manau eraill a'r ffyrdd gwahanol o lunio cyfreithiau ynghylch cwotâu, dywedodd yr Athro Kenny wrthym:

"[...] in other countries, electoral authorities do play, and have played, an oversight role validating that parties' candidate registries comply with quota laws, which includes confirming that candidates are in the appropriate spot, based on their sex. But the mechanisms for

²⁵⁹ *Sanders v Chichester* [1994] EWHC 9 (QB), sy'n cyfeirio at enghraifft lle y rhoddodd ymgeisydd ei enw a'i gyfeiriad fel Mickey Mouse o Disneyland

²⁶⁰ SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

²⁶¹ SCECLB38-P Dr Louise K. Davidson-Schmich, Prifysgol Miami (Saesneg yn unig)

²⁶² SCECLB20-P Cynghair Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁶³ SCECLB23-P Dr Ola Abdelaal, Prifysgol Manceinion (Saesneg yn unig)

*doing this need to fit their wider context, I think—both the electoral system context and the wider legal context”.*²⁶⁴

221. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol²⁶⁵ a'r Comisiwn Etholiadol²⁶⁶ ei bod yn hollbwysig fod SCEau yn parhau i ddilyn y gysail gyfreithiol fod gwybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr yn cael ei derbyn 'fel ffaith'. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol:

*“Mae hon yn egwyddor bwysig y mae'n rhaid ei chynnal, a phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ddylai fod yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei darparu yn gywir”.*²⁶⁷

222. Dywedodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru wrthym ei fod wedi disgwyl i uchafiaeth y gyfraith bresennol barhau o ran y ffordd yr ymdrinnir ag enwebiadau, er enghraifft fod pethau'n cael eu derbyn fel ffaith pan gyflwynir y papurau. Ychwanegodd na ddylai SCEau chwarae unrhyw ran y tu hwnt i wirio bod enwebiadau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'u bod yn gyflawn:

*“So, has the gender disclosure form, for example, been completed? Is the vertical list compliant, in the sense of sequencing that's required? Provided those things are present, the CRO's role [...] is to accept them on face value”.*²⁶⁸

223. Pan ofynnwyd iddo a fyddai unrhyw ganlyniadau'n deillio o dderbyn papurau enwebu 'fel ffaith' er eu bod y amau bod y datganiad yn ffug, dywedodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y byddai SCEau yn cael eu hindemnio, ac mai dim ond hyn a hyn y gallant ei wneud i warchod uniondeb y system.²⁶⁹

224. Ategwyd hyn gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a ddywedodd wrthym mai rôl y SCE yw gwirio bod papur enwebu yn gywir ar ei wyneb. Ychwanegodd:

“They're not going to investigate the accuracy of any of the information provided by candidates during that process. We aren't asking you for your birth certificate, for example, but I think the point

²⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 443], 18 Ebrill 2024

²⁶⁵ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

²⁶⁶ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

²⁶⁷ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

²⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 30 a 77], 21 Mawrth 2024

²⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 104 a 105], 21 Ebrill 2024

is that a party or a candidate will have an interest in ensuring—and you’ll be standing for your party—that accurate statements are made, or, otherwise, you would run the risk of challenge”.²⁷⁰

225. Pwysleisiodd yr Aelod sy’n gyfrifol rôl pleidiau gwleidyddol hefyd o ran sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn, ac ychwanegodd:

“A returning officer can reject a nomination if the candidate’s particulars are not as required by the law. Ultimately, of course, it could go to the courts, but parties and candidates will want to ensure that accurate statements are made, and this is about the reputation of the political parties and the candidates themselves”.²⁷¹

226. Gwnaethom ofyn i gynrychiolwyr Panel Pleidiau Senedd Cymru am y gwiriadau ymgeiswyr a wneir gan bleidiau fel rhan o’r broses enwebu a sut y gallai’r gwiriadau hynny newid o ganlyniad i’r Bil. Nid oedd Plaid Cymru yn meddwl y byddai’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r blaid gynnal unrhyw wiriadau pellach ar ymgeiswyr ac nid oedd Llafur Cymru yn gwybod beth fyddai’n gam ymarferol neu resymol y tu hwnt i’w gwiriadau presennol ar ymgeiswyr.²⁷²

Sanctiynau am wneud datganiadau ffug

227. Mae’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol yn ei gwneud yn drosedd gwneud datganiadau ffug mewn papurau enwebu. Mae person yn euog o arfer lwgr os yw’n achosi neu’n caniatáu i wybodaeth ffug gael ei chynnwys mewn dogfen a gyflwynir i SCE mewn cysylltiad â’r etholiad.²⁷³

228. Mae’r Aseiad o’r Effaith ar Gyfiawnder a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yn nodi na fydd gwneud datganiad ffug ynghylch rhywedd yn rhan o’r drosedd o arfer lwgr sy’n gymwys os yw ymgeiswyr yn darparu datganiadau ffug am wybodaeth arall, fel eu henw a’u cyfeiriad.²⁷⁴ Eglurodd swyddog yr Aelod sy’n gyfrifol pam nad oedd yn cael ei gynnwys yn y drosedd o arfer lwgr:

²⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 13 Mawrth 2024

²⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 1 Mai 2024

²⁷² Cofnod y Trafodion [paragraffau 362 a 368], 18 Ebrill 2024

²⁷³ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Saesneg yn unig)

²⁷⁴ Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): aseiad o’r effaith ar gyfiawnder [fel ar 4 Mai 2024]

"I think that's a reflection of the personal nature and sensitivity associated with—for some individuals—stating their gender, and so it's not seeking to criminalise that".²⁷⁵

229. Roedd mudiad Datganiad Merched Llafur Cymru hefyd o'r farn ei bod yn rhesymol nodi bod rhaid i'r datganiad fod yn wir a bod datganiad sy'n dweud anwiredd yn dwyllodrus.²⁷⁶ Dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod hefyd nad oedd yn meddwl bod unrhyw gyfiawnhad dros eithrio gwneud datganiad ffug rhag bod yn destun sancsiwn. Mae manteision amlwg, meddai, i ddyn honni ei fod yn fenyw hyd yn oed os nad yw'n credu hynny ac os yw'n llwyr fwriadu rhoi'r gorau i honni hynny cyn gynted ag y caiff ei ethol. Dadleuodd y gallai camddefnyddio'r datganiad waethygu'r cydbwysedd rhwng y rhywiau, ac y gallai dynion deimlo'u bod yn destun gwahaniaethu, a fyddai, meddai, yn eu cymell i ffugio eu datganiadau.²⁷⁷

230. Awgrymodd Dr Davidson-Schmich y byddai pleidiau asgell dde eithafol, gwrth-rywedd yn debygol o annog dynion i ddatgan eu bod yn fenywod naill ai i brotestio yn erbyn syniad y cwota neu i osgoi gorfod dilyn y cwota.²⁷⁸ Dywedodd Dr Gomes fod rhai dynion wedi cofrestru fel menywod yn Bolivia er mwyn cael safleoedd gwell ac o bosibl, meddai, er mwyn ceisio dangos pa mor hawdd fyddai peidio â chydymffurfio.²⁷⁹ Tynnodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod a Dr Gomes hefyd sylw at achos yn rhanbarth Oaxaca ym Mecsico yn 2018, lle y cofrestrodd 15 o ddynion eu bod yn drawsryweddol er mwyn cymryd lleoedd etholiadol a oedd wedi'u neilltuo i fenywod.²⁸⁰ Nododd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yr ymdriniwyd â'r achos drwy dribiwnlys etholiadol a bod y system gwota ym Mecsico yn dal i fod ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Ychwanegodd:

"If parties or individuals decide to make a mockery of democracy and to play with the electoral system and undermine its integrity by this kind of trickery, then that's problematic, but it will be dealt with either as it was dealt with in Mexico, or, actually, perhaps more powerfully, by the electorate. The electorate will be the judge of this, and I think

²⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 204], 13 Mawrth 2024

²⁷⁶ SCECLB19-P Datganiad Merched Llafur Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷⁷ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig)

²⁷⁸ SCECLB38-P Dr Louise K. Davidson-Schmich, Prifysgol Miami (Saesneg yn unig)

²⁷⁹ SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

²⁸⁰ SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig) a SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

*will give very, very short shrift to any sort of attempt to make a mockery of this democratic process”.*²⁸¹

231. Dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod y bydd y Bil yn cynnig cymhelliant i ddynion wneud datganiad ffug heb unrhyw gosb am ffugio'r datganiad, a chwestiynodd pa mor briodol yw ceisio datrys hyn drwy'r llysoedd:

*“[...] surely the purpose of resolving something through the courts would be if a loophole is discovered subsequently, rather than to allow a loophole to be legislated [...] why not close it now, if you have the opportunity at a pre-legislative stage, rather than say, ‘Well, the courts will have to determine that’?”.*²⁸²

232. Pan ofynnwyd iddo pa sancsiynau yr hoffai eu gweld am wneud datganiad ffug, awgrymodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod y dylai'r sancsiynau fod yn gymesur â sancsiynau eraill ar gyfer ffugio manylion ymgeiswyr.²⁸³

233. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol nad oes unrhyw droseddau newydd yn cael eu cynnig, a gofynnodd am eglurhad ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried i atal neu gosbi ymgeiswyr sy'n gwneud datganiad ffug ynghylch rhywedd a sut y penderfynir a yw datganiad yn ffug ai peidio. Roedd am i ddarpariaeth i ymdrin ag unrhyw heriau i bapurau enwebu, gan gynnwys y datganiad, gael ei hegluro mewn is-ddeddfwriaeth:

*“For example, if another candidate objects because they believe a candidate is, or is not, a woman—does the CRO maintain their face-value decision based on the statement given? Can they refuse to hear any representation challenging such a statement? This would reflect the current limits to the objection process at UK Parliamentary and Police and Crime Commissioner elections”.*²⁸⁴

234. Roedd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru am i unrhyw drosedd berthnasol fod yn gynhwysfawr ac yn gymesur, ac ychwanegodd:

²⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 91-92], 24 Ebrill 2024

²⁸² Cofnod y Trafodion [paragraffau 204 a 210], 24 Ebrill 2024

²⁸³ Cofnod y Trafodion [paragraff 226], 24 Ebrill 2024

²⁸⁴ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

*“We would expect the candidate selection and nomination processes within political parties to be robust and defensible, and for all parties to act with integrity at all times”.*²⁸⁵

235. Awgrymodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol y gallai deiseb etholiadol gael ei chyflwyno yn erbyn ymgeisydd nad yw wedi darparu gwybodaeth gywir yn ei bapurau enwebu.²⁸⁶ Er bod gallu cyffredinol i gyflwyno deiseb etholiadol eisoes yn bodoli, mae Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder y Bil yn dweud nad oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar hyn o bryd i wneud darpariaeth benodol ynghylch y materion hyn mewn perthynas â'r cwotâu.²⁸⁷

236. Er nad yw deisebau etholiadol yn fater i'r Comisiwn Etholiadol, dywedodd y bydd:

*“[...] yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan symud ymlaen i ddeall effaith bosibl cyflwyno deiseb etholiadol ar sail datganiad ffug ynghylch rhywedd”.*²⁸⁸

237. Cyfeiriodd Elisabeth Jones, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad ar y pryd rhwng 2012 a 2019, at y ffordd a gynigir ar gyfer herio cywirdeb papurau enwebu:

“I am, however, somewhat concerned by the fact that an election petition under the Representation of the People Act 1983 appears to be the key mechanism to challenge election results that parties, or individuals, believe breach the Gender Quota provisions. The costs for such petitions are not insignificant – £677 in total per petition²⁸⁹, disregarding any legal fees. No doubt political parties can fund this easily, but democracy demands that individual citizens should also have real access to justice to ensure that electoral law is respected. Vexatious petitions should of course be discouraged, but there may be more democratic way to do so than financial requirements.

²⁸⁵ [Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Mawrth 2024](#) (Saesneg yn unig)

²⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 13 Mawrth 2024

²⁸⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): asesiad o'r effaith ar gyfiawnder](#) [fel ar 4 Mai 2024]

²⁸⁸ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

²⁸⁹ www.gov.uk/challenge-election-result/how-to-challenge (Saesneg yn unig)

By contrast, electoral fraud can simply be reported to the police, free of charge.”²⁹⁰

238. Tynnodd Elisabeth Jones sylw hefyd at yr amserlenni byr ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol (21 diwrnod o ddiwrnod yr etholiad) a'r rhwystr y mae hyn yn ei greu i unigolion, yn wahanol i bleidiau gwleidyddol, sydd, meddai yn hyddysg yn y gweithdrefnau perthnasol.²⁹¹

239. Pan ofynnwyd iddi pam ei bod yn meddwl bod deiseb etholiadol yn ffordd briodol o warchod y broses rhag cael ei chamddefnyddio, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“I don't think we've had any election petitions during the last 25 years of our Senedd, and we don't anticipate that there will be, but, obviously, we will address this in section 13, in terms of the conduct Order, in terms of timescales when a petition could be presented.”²⁹²

Archwilio papurau enwebu

240. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau presennol²⁹³ yn caniatáu i ymgeiswyr, asiantiaid ymgeiswyr (neu unigolyn a ddewisir gan yr ymgeisydd os yw'n gweithredu fel asiant iddo'i hun), swyddogion enwebu cofrestredig pleidiau gwleidyddol, a chynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol archwilio papurau enwebu a gwrthwynebu eu dilysrwydd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

241. Mae papurau enwebu ar hyn o bryd yn cynnwys enw llawn yr ymgeisydd, disgrifiad a fydd yn ymddangos ar bapur pleidleisio (er enghraifft, enw plaid wleidyddol yr ymgeisydd neu 'annibynnol') a'i gyfeiriad cartref.

242. Mae adran newydd 7D(1)(b) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch pwy gaiff archwilio datganiad. Mae'r Memorandwm yn nodi y byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu'r datganiad ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio at y wybodaeth y gellir ei harchwilio.²⁹⁴

²⁹⁰ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

²⁹¹ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

²⁹² RoP [paragraff 173], 1 Mai 2024

²⁹³ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Saesneg yn unig)

²⁹⁴ Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, 11 Mawrth 2024, paragraff 114

243. Gan gyfeirio at y darpariaethau presennol ar gyfer archwilio papurau enwebu, dywedodd Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru:

"[...] if we're talking specifically about somebody's gender disclosure form, we would expect the existing provisions to apply for the new nomination packs, and those to be restricted to the current people. So, that would mean there's no greater risk than currently of any breach or somebody inappropriately sharing that information".²⁹⁵

Ymdrin â data personol

244. Bydd angen casglu a phrosesu'r datganiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Bil o ran rhestrau ymgeiswyr. Mae'r Memorandwm yn nodi bod trefniadau eisoes ar waith i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth personol arall fel rhan o'r broses etholiadol, fel eu henw, eu cyfeiriad cartref a'u dyddiad geni.²⁹⁶

245. Mae yn crynhoi pwy y mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'u nodi fel rheolyddion data ar gyfer y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad.²⁹⁷

Tabl 3 Rheolyddion data ar gyfer gwybodaeth yn y datganiad ynghylch a yw ymgeisydd yn fenyw ai peidio

| Rheolydd data | Data | Diben |
|-----------------------------|---|---|
| Pleidiau gwleidyddol | Ar gyfer eu hymgeiswyr enwebedig | Sicrhau bod eu rhestrau'n cydymffurfio â'r rheolau cwota |
| SCE | Ar gyfer pob un o ymgeiswyr y pleidiau a enwebwyd yn yr etholaeth | Gwirio eu bod yn cydymffurfio â'r trothwy isaf a'r meini prawf gosod fertigol (a rhannu data cyfyngedig â'r SCEC) |
| SCEC | Disgwylir y bydd wedi'i gyfyngu i wybodaeth i benderfynu a yw'r ymgeisydd yn y safle cyntaf neu'r unig safle ar restr plaid a | Cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â chydymffurfio â'r meini prawf gosod llorweddol |

²⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 21 Mawrth 2024

²⁹⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 223

²⁹⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#) [fel ar 11 Ebrill 2024]

| Rheolydd data | Data | Diben |
|---------------|---|-------|
| | gyflwynwyd ar gyfer yr etholaeth yn fenyw ai peidio | |

246. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cydnabod y gall y wybodaeth fod yn sensitif i rai pobl ac, er na fydd y wybodaeth a ddarperir mewn datganiadau yn cael ei chyhoeddi, bydd trefn yr ymgeiswyr ar restr plaid yn cael ei chyhoeddi yn y datganiad o'r personau a enwebwyd. Felly, efallai y bydd modd canfod weithiau a yw ymgeisydd wedi datgan ei fod yn fenyw neu nad yw'n fenyw.²⁹⁸ Mae'r Memorandwm hefyd yn cydnabod "y risgiau uwch i rai unigolion yn sgil gorfod nodi eu rhywedd er dibenion gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth yn effeithiol".²⁹⁹

247. Ar y llaw arall, dywedodd y Rhwydwaith Hawliau Menywod:

"[...] the Information Commissioner's Office say—sex is not sensitive information. Obviously, gender reassignment would be, but sex is not, so there is no need to hide that data if this Bill is based on a person's sex".³⁰⁰

248. O ran rheoli unrhyw effeithiau ar ddiogelu data a allai ddeillio o gadw a rhannu data a gesglir o ganlyniad i'r Bil, esboniodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru:

"[...] the only thing the CRO would be doing that's different to the norm is sharing in advance information on nomination lists to the NNCO. Well, those lists are eventually published anyway when they're signed off as being acceptable, following closure of nominations. So, all we're doing is furnishing that national officer with basic information for them to look at the horizontal compliance. So, basically, the information is only circulating within professionals, and available for inspection by the people who can currently inspect. Beyond that, we

²⁹⁸ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#) [fel ar 11 Ebrill 2024]

²⁹⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 231

³⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 217], 24 Ebrill 2024

can't see any issues whatsoever, because we're sharing with very few people for legitimate purposes".³⁰¹

249. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wrthym fod yr hawl i archwilio cyfeiriadau cartref ymgeiswyr wedi'i chyfyngu i ymgeiswyr eraill sy'n sefyll, eu hasiantiaid a'r swyddogion enwebu cenedlaethol yn unig, a nododd:

"[...] we'd like to see the same being applied to the gender statements, due to the sensitive nature of that information, but still allowing transparency for those standing in an election to be able to make petitions if needs be, based on that information as well, which is currently the case with the home address".³⁰²

250. Cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol y bydd yn adolygu ac yn diweddarau ei ganllawiau diogelu data i swyddogion cofrestru etholiadol a Swyddogion Canlyniadau yng ngoleuni'r Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth.³⁰³

251. Nid oedd cynrychiolwyr Panel Pleidiau Senedd Cymru yn rhagweld y byddai unrhyw faterion yn codi o ran cynnal mesurau diogelu GDPR yn ystod y broses enwebu, gan gydnabod y byddai angen diweddarau canllawiau, polisïau preifatrwydd ac adnoddau hyfforddi. Fodd bynnag, awgrymodd y Ceidwadwyr Cymreig y gallai'r ystyriaethau diogelu data ychwanegol olygu y bydd gwirfoddolwyr y blaidd sy'n gweinyddu'r broses enwebu yn llai parod i wirfoddoli.³⁰⁴

252. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym y bydd data a gesglir am ddatganiadau ymgeiswyr yn dod o dan yr un mesurau diogelu ag sy'n berthnasol ar hyn o bryd i unrhyw ddata personol arall a gesglir ar y ffurflenni enwebu.³⁰⁵

Ein barn ni

253. Mae'r ddarpariaeth yn adran newydd 7D(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson, fel rhan o'r broses o gael ei enwebu'n ymgeisydd gan blaidd wleidyddol, ddatgan a yw'n fenyw ai peidio, wedi tynnu llawer o sylw at y Bil. Rydym yn cydnabod cryfder y teimpladau ynghylch hyn, ac wedi ystyried yn ofalus yr holl safbwyntiau a rannwyd â ni. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn fodlon ar y

³⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 21 Mawrth 2024

³⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 21 Mawrth 2024

³⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 21 Mawrth 2024

³⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 388, 390, 392-393], 18 Ebrill 2024

³⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 13 Mawrth 2024

ddarpariaeth ac maent o'r farn bod hyn yn ddull cymesur o weithredu a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheolau cwota.

254. Nid yw Darren Millar AS yn cytuno. Mae'n rhannu'r pryderon a godwyd gan nifer o sefydliadau menywod a chan lawer o'r unigolion a ymatebodd i'n hymgyngghoriad y byddai'r ddarpariaeth yn caniatáu i ddynion hunanddiffinio fel menywod at ddibenion bod yn ymgeisydd mewn etholiad. Mae'n anfodlon ar atebion yr Aelod sy'n gyfrifol i'w gwestiynau ynghylch pam nad yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o beth yw 'menyw' at ddibenion y Bil a'r cwestiynau sy'n parhau ynghylch y rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn rhyweddhylifol. Mae o'r farn y dylai'r Bil ddarparu mai dim ond ymgeiswyr sy'n fenywod yn fiolegol neu sydd wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd a gydnabyddir yn gyfreithiol ddylai allu datgan eu bod yn fenyw at ddibenion y cwotâu ymgeiswyr.

255. Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn cytuno y dylai gweinyddwyr etholiadol dderbyn y datganiad a ddarperir gan ymgeiswyr fel ffaith, yn unol â'r arfer ar hyn o bryd ar gyfer papurau enwebu ymgeiswyr.

256. Nid yw Darren Millar AS yn cefnogi derbyn datganiad yr ymgeisydd fel ffaith. Mae o'r farn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n rhoi grym i SCEau ofyn i'r ymgeisydd wirio hynny (drwy ddull adnabod priodol).

257. Rydym i gyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gyda ni y gallai'r ddeddfwriaeth fod yn agored i gael ei chamddefnyddio. O'r 130 o wledydd lle y defnyddir cwotâu ymgeiswyr, dim ond dau achos yr ydym wedi cael gwybod amdanynt, ym Mecsico ac yn Bolivia, lle y mae dynion wedi honni eu bod yn fenywod er mwyn trechu'r system gwota. Rydym yn cydnabod y gallai'r ffyrdd gwahanol y mae cwotâu'n gweithio mewn gwledydd gwahanol fod yn ffactor o ran nifer isel yr achosion o'r fath. Rydym yn nodi hefyd y dystiolaeth a gafwyd gan Elisabeth Jones a bwysleisiodd y gallai cost deiseb etholiadol fod yn ormodol ac y gallai atal ymgeisydd neu unigol rhag cyflwyno her a fyddai fel arall yn ddilys. Er mwyn lleddfu'r pryderon a godwyd gyda ni, ac atal unrhyw gamddefnydd posibl ar y Bil, credwn ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur cynnwys gwneud datganiad ffug o dan adran newydd 7D(2) yn y drosedd o arfer lwgr sy'n gymwys i ddarparu unrhyw wybodaeth ffug arall ar ffurflen enwebu.

Argymhelliad 9. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymrwymo i wneud darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau i estyn y drosedd o arfer lwgr o ran darparu datganiadau ffug mewn papurau enwebu a phapurau eraill i gynnwys datganiadau ffug a wneir o dan adran 7D(2) (i'w mewnosod yn Neddf Llywodraeth

Cymru 2006). Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai amlinellu a fydd angen unrhyw newidiadau o ran deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth i gyflawni hyn.

6. Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf

Darpariaeth yn y Bil

258. Mae adran 2 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyntaf y daw adran 1 o'r Bil i rym ar ei ôl (a heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl y cyfarfod hwnnw), gyflwyno cynnig:

- Bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddibenion cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf 2006 (i'w mewnosod gan y Bil), ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 neu o dan y Bil.
- Bod rhaid i'r pwyllgor gwblhau adroddiad ar yr adolygiad o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd.

259. Mae adran 2 yn darparu ymhellach, os bydd pwyllgor a sefydlir yn unol â'r cynnig gofynnol yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, fod rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd yn nodi eu hymateb i adroddiad y pwyllgor.

Cwmpas yr adolygiad

Gweithrediad ac effaith y darpariaethau

260. Wrth sôn am y pecyn ehangach o ddiwygiadau i'r Senedd a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn y Bil hwn ac ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), dywedodd yr Athro McAllister:

"[...] any change of that magnitude should be subject to a really robust review after the first election, because there are always unintended consequences to electoral reviews, we all know that, and I think the nature of analysis should be really comprehensive and adopted from the position of different stakeholders. So, from the point of view of the political parties, critically, the point of view of the elected politicians and candidates, but also from the public and voters' points of view,

because there may be elements of this system that are only flushed out through its operation and the outcome of the operation”.³⁰⁶

261. Dywedodd Cymdeithas Fawcett wrthym y bydd rhaid i unrhyw adolygiad ystyried a yw'r Bil yn arwain at Senedd sy'n gwbl gyfatal o ran rhywedd ac i ba raddau y bydd y rheolau cwota yn golygu bod y pleidiau'n gosod menywod mewn seddi y gellir eu hennill. Meddai:

“We know that where there is freedom to do so, parties tend to put men in more winnable seats, and that can reinforce male over-representation. So, I think that is something to make part of the review process for this”.³⁰⁷

262. Awgrymodd ERS Cymru hefyd y gallai'r adolygiad ystyried a yw'r trefniadau gorfodi a chydymffurfio a nodir yn y Bil wedi gweithio yn ôl y disgwyl.³⁰⁸

Data am amrywiaeth ymgeiswyr

263. Can nodi nad oes darpariaethau ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol casglu a chyhoeddi data am amrywiaeth, awgrymodd ERS Cymru y byddai data o'r fath yn ein galluogi i weld effaith y ddeddfwriaeth hon mewn gwirionedd.³⁰⁹ Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ar 13 Mawrth 2024 y gallai pwyllgor a fyddai'n cael ei sefydlu o dan adran 2 o'r Bil drafod materion sy'n ymwneud â chasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ganllawiau cynghori i bleidiau, a dywedodd:

“But we're also exploring legal and other legislative means of addressing this, and, obviously, it would be very helpful if the Senedd reform committee, when it comes to that committee, could consider the options and opportunities to ensure that political parties do take this forward in terms of publishing a diversity and inclusion strategy for Welsh elections”.³¹⁰

³⁰⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 66], 18 Ebrill 2024

³⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 18 Ebrill 2024

³⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 24 Ebrill 2024

³⁰⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 24 Ebrill 2024

³¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 263-264], 13 Mawrth 2024

264. Dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym yn ddiweddarach, ar 1 Mai 2024, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol cyn etholiad nesaf y Senedd ar gasglu a chyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr.³¹¹

Deddfwriaeth a mentrau eraill

265. Rhaid i'r cynnig sy'n ofynnol gan adran 2(1) gynnig mai diben y pwyllgor sydd i'w sefydlu yw adolygu gweithrediad ac effaith:

- Adrannau 7A i 7D o Ddeddf 2006 fel y'u mewnosodir gan y Bil.
- Unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 neu o dan y Bil.

266. Rhaid i'r cynnig felly gynnig bod yr adolygiad yn cwmpasu gweithrediad ac effaith yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i roi effaith i ddarpariaethau'r Bil. Mae hyn yn wahanol i'r ddarpariaeth sy'n debyg fel arall yn adran 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)³¹² sy'n cyfeirio at weithrediad ac effaith darpariaethau'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig (ac i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru).

267. Tynnodd 5050Amrywiol sylw at yr amryw o fentrau eraill a'r darnau eraill o ddeddfwriaeth a allai ddylanwadu ar effaith y Bil, megis cynllun mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).³¹³

Mecanwaith adolygu

268. Mae strwythur y mecanwaith yn adran 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddibenion cynnal adolygiad o

³¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 1 Mai 2024. Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â data am amrywiaeth ymgeiswyr ymhellach ym mhennod 9.

³¹² Mae adran 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu bod rhaid cyflwyno cynnig yn dilyn yr etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 i gynnig sefydlu pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith darpariaethau Deddf 2006 a gaiff eu diwygio neu eu mewnosod gan Rannau 1 a 2 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.

³¹³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 72, 86-88 a 128], 24 Ebrill 2024

weithrediad ac effaith darpariaethau'r Bil, yn debyg i strwythur adrannau 7³¹⁴ a 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), daethom i'r casgliad fod mecanweithiau o'r fath "yn broblematic o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol".³¹⁵ Cafodd gwelliannau i roi effaith i'n hargymhelliad y dylid dileu adrannau 7 a 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) eu trafod yn ystod trafodion Cyfnod 2, ond fe'u gwrthodwyd.³¹⁶ Nododd yr Aelod sy'n gyfrifol hyn, gan ddweud:

"Well, I think we had a very useful debate in relation to the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill on this matter. So, I think, probably, in terms of the way we're going forward, and as we've gone through Stage 2 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill, and I've commented on Darren's amendment, that this now should be considered by the Senedd".³¹⁷

269. Mae adran 2(4) a (5) o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn adlewyrchu adran 19(3) a (4) a fewnosodwyd ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan welliant yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad yn nodi eu hymateb i unrhyw adroddiad a osodir gan bwyllgor adolygu. Fodd bynnag, nid yw adran 2 nac adran 19 yn cynnwys geiriad sy'n cyfateb i adran 7(5)(b) o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sy'n darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ymateb i adroddiad gan bwyllgor a sefydlwyd at ddibenion adolygu i ba raddau y dylai personau allu dal swyddi perthnasol ar y cyd, nodi pa gamau, os oes rhai, y maent yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion yn yr adroddiad. Pan gafodd ei holi am y gwahaniaeth hwn, dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol:

"I think it was simply to reflect, obviously, the intent that the Government would respond to any recommendations. Obviously, were that to lead to legislative proposals, there would still be a need to undertake further work analysis, as we did do, taking the special

³¹⁴ Mae adran 7 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu bod rhaid cyflwyno cynnig, yn dilyn yr etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025 i gynnig sefydlu pwyllgor i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â rhannu swyddi perthnasol yn y Senedd.

³¹⁵ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Cyfnod 1](#), Ionawr 2024, paragraff 518

³¹⁶ Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4 (i geisio dileu adran 7) ar [5 Mawrth 2024](#) (15 o blaid, 0 yn ymatal, 41 yn erbyn) ac ar welliant 9 (i geisio dileu adran 19) ar [6 Mawrth 2024](#) (15 o blaid, 0 yn ymatal, 39 yn erbyn).

³¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 213], 13 Mawrth 2024

purpose committee recommendations. So, I think this is probably, as much as anything, a drafting approach to ensure that Welsh Ministers are responding to and setting out the next steps that they would be taking in response to the committee's recommendations, but obviously not being held to the exact—. As I said, that's simply to reflect the further work that may need to be done".³¹⁸

270. Ar y sail mai bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd darpariaethau Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn dod i rym ar gyfer yr etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026, ochr yn ochr â darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol ai bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai un pwyllgor yn cael ei sefydlu i gynnal adolygiadau o weithrediad ac effaith y ddwy Ddeddf. Dywedodd wrthym mai mater i'r Senedd oedd hynny:

"The Senedd may want to take a co-ordinated approach to reviewing the two Bills in terms of their operation. If they're both coming into effect in the 2026 election, and gender quotas would be an integral part of the new closed list system, obviously it's up to the Senedd to determine its approach, but it would make sense to review it in that way".³¹⁹

Ein barn ni

271. Rydym yn cytuno â'r Athro McAllister ei bod yn bwysig bod gweithrediad ac effaith y darpariaethau sy'n ymwneud â chwotâu yn y Bil ac mewn is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn destun adolygu cadarn ar ôl yr etholiad cyntaf y maent yn dod i rym ynddo. Rydym hefyd yn cytuno bod rhaid i unrhyw adolygiad ystyried ystod eang o safbwyntiau, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, Aelodau etholedig, ymgeiswyr, pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol, a'r cyhoedd.

272. Fel y pwysleisiodd llawer o gyfranwyr at ein gwaith, ni fydd y darpariaethau sy'n ymwneud â chwotâu yn gweithredu ar eu pen eu hunain. Rhagwelwn y byddai angen i unrhyw adolygiad a gynhelir ystyried y cyd-destun ehangach o ran deddfwriaeth a pholisi.

273. Bydd sicrhau bod data cadarn, cywir a chynhwysfawr ar gael am amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau etholedig yn hanfodol wrth asesu effaith y darpariaethau

³¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 219], 13 Mawrth 2024

³¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 211], 13 Mawrth 2024

sy'n ymwneud â chwotâu. Fel y trafodwn ym mhennod 9, mae'n siomedig na fydd adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfwriaeth a gyflwynir gan Weinidogion Cymru) ar waith er mwyn ei gwneud yn ofynnol casglu a chyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr. Gobeithiwn y bydd pob plaid wleidyddol sy'n ymladd etholiad y Senedd yn 2026 yn ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i'r canllawiau y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi (os caiff y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ei basio), er mwyn sicrhau bod data ar gael i lywio unrhyw adolygiad. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o ddata ar gael i lywio unrhyw adolygiad hyd yn oed os na fydd pleidiau gwleidyddol yn gwneud hynny, dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gasglu a chyhoeddi data ar gyfer yr etholiad cyntaf y gweithredir y cwotâu ymgeiswyr ynddo ynghylch amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau etholedig.

Argymhelliad 10. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, os bydd y Senedd yn penderfynu sefydlu pwyllgor yn unol â chynnig o dan adran 2(1) o Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024, gasglu a chyhoeddi data digonol ynghylch amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau etholedig i lywio adolygiad y pwyllgor. Os caiff y Bil ei ddiwygio yn unol â'n hargymhelliad 11 i osod cyfrifoldeb am adolygu effaith a gweithrediad y Ddeddf a darpariaeth gysylltiedig ar Weinidogion Cymru, dylid ymgorffori'r gofyniad i gasglu a chyhoeddi data yn y ddarpariaeth adolygu statudol honno.

274. Er ein bod yn cefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai deddfwriaeth fod yn destun adolygu a chraffu ôl-ddeddfwriaethol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu yn ôl y bwriad, ni chawsom unrhyw dystiolaeth a fyddai'n newid ein casgliad ynghylch y darpariaethau cyfatebol ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sef bod y mecanweithiau adolygu a gynigir gan Lywodraeth Cymru "yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol, ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol".³²⁰ Er ein bod yn derbyn penderfyniad y Senedd mewn perthynas â'r gwelliannau a drafodwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2 y Bil hwnnw, rydym yn dal i fod o'r farn y byddai'n fwy priodol i Lywodraeth Cymru ddilyn yr enghreifftiau mewn deddfwriaeth etholiadol flaenorol yng Nghymru ac yn y DU lle y gosodir dyletswydd adolygu statudol ar y weithrediaeth.³²¹ Fel y dywedwyd yn ein hadroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau):

³²⁰ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Cyfnod 1](#), Ionawr 2024, paragraff 518

³²¹ Ym mharagraff 496 o'n [hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\)](#), nodir tair enghraifft o ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau gynnal adolygiadau statudol o ddarpariaethau cyfraith etholiadol neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol

“Ni fyddai dull o'r fath yn atal un o bwyllgorau'r Senedd rhag ymgymryd â gwaith i graffu ar adolygiad gan Lywodraeth Cymru, ei drafod ac adeiladu arno, gan fanteisio ar gyngor annibynnol, arbenigedd ac ymgysylltu â dinasyddion. Ni fyddai ond yn sicrhau bod cwmpas ac amseriad unrhyw waith o'r fath yn ôl disgrisiwn y Senedd a'i phwyllgorau, yn hytrach na deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Byddai hefyd yn cyd-fynd â'r hyblygrwydd presennol sydd gan bwyllgorau'r Senedd, ac y maent yn ei ddefnyddio, i gynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar unrhyw Ddeddf (neu ddarpariaethau penodol mewn unrhyw Ddeddf) a basiwyd gan y Senedd pan fo'n briodol ac yn amserol gwneud hynny yn eu barn hwy”.³²²

Argymhelliad 11. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2:

- I ddileu adran 2 (adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf) o'r Bil ar y sail bod y ddarpariaeth yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol.
- I'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno neu o dan Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Seneddau yn y dyfodol a'u pwyllgorau o ran p'un a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud gwaith craffu ôl-ddeddfwriaeth, ac os felly, pryd a sut.

275. Roedd ein hadroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cydnabod efallai na fyddai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, sef y Cwnsler Cyffredinol, yn derbyn ein hargymhelliad y dylid cael gwared ar y mecanwaith adolygu. Felly, gwnaethom argymhellion eraill er mwyn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Senedd i benderfynu ar amseriad yr adolygiad.³²³ Rydym yn ailadrodd yr

eu cynnal: adran 38 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, adran 62 o Ddeddf Etholiadau 2022 ac adran 6ZA o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

³²² Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Cyfnod 1](#), Ionawr 2024, paragraff 521

³²³ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, [Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\): Cyfnod 1](#), Ionawr 2024, argymhellion 44 a 45

argymhellion hynny mewn cysylltiad ag adran 2 o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Argymhelliad 12. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein hargymhelliad 11, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 2(2)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor a sefydlir i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno neu o dan Ddeddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024 gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd gyntaf i'w hethol ar ôl i adran 1 o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ddod i rym).

Argymhelliad 13. Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein hargymhellion 11 na 12, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 2(2)(b) i ddileu'r gofyniad presennol bod rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd bennu bod gwaith y pwyllgor i'w gwblhau o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd gyntaf i'w hethol ar ôl i adran 1 o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ddod i rym, a rhoi yn ei le ddarpariaeth y caiff y cynnig gynnwys terfyn amser arfaethedig erbyn pryd y mae rhaid cwblhau adroddiad y pwyllgor.

7. Gweithredu'r Ddeddf

Amserlen ar gyfer gweithredu

276. Nododd gweinyddwyr etholiadol yr amserlenni ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth ddilynol. Er bod oedi cyn cyflwyno'r Bil, nododd y Comisiwn Etholiadol na ddylai hyn atal y newidiadau rhag cael eu cyflwyno mewn pryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Nododd, "fodd bynnag, gallai unrhyw oedi pellach i hynt y Bil hwn ddechrau peri risg sylweddol i gamau i'w roi ar waith yn effeithiol cyn 2026".³²⁴ Pwysleisiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol faint o newidiadau eraill sydd eu hangen cyn etholiad y Senedd yn 2026, gan gynnwys gofynion i olrhain papurau pleidleisio drwy'r post, y posibilrwydd o gyflwyno cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a chymhlethdod cynyddol gweinyddu etholiadau'r Senedd. Cyfeiriodd hefyd at lefelau cynyddol o wahaniaeth o ran darparu gwasanaethau etholiadol ar draws gwledydd Prydain, gan ddweud bod hyn yn creu cymhlethdod ychwanegol o ran cyflawni yn ogystal â drysu pleidleiswyr.³²⁵

277. Galwodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol am wneud is-ddeddfwriaeth glir a diamwys (yn ddelfrydol erbyn mis Mai 2025) ac i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau ar gyfer SCEau a'r SCEC (yn ddelfrydol erbyn mis Medi 2025).³²⁶ Ategwyd hyn gan y Comisiwn Etholiadol:

"Bydd sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth yn glir cyn gynted â phosibl yn caniatáu digon o amser i ni baratoi'r canllawiau a'r codau ymarfer gofynnol, ac i'r gymuned etholiadol gynllunio a pharatoi ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith".³²⁷

278. Gan ehangu ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Bil, dywedodd y Comisiwn Etholiadol ei fod yn disgwyl ymgynghori ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn ystod tymor yr hydref 2024 a'i wneud ym mis Mai 2025, gan nodi:

"[...] it's doable, but we would request that there is regular dialogue with Welsh Government. It's important that we work closely with them and have initial sight of policy intention and draft legislation as well,

³²⁴ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

³²⁵ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

³²⁶ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

³²⁷ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

because that helps our understanding of the impact of the legislation and helps us to draft guidance. So, yes, we have a really good relationship with Welsh Government and I'm sure that that will continue and we'll see information as necessary".³²⁸

279. Dywedodd cynrychiolwyr Panel Pleidiau Senedd Cymru ar ran Llafur Cymru, Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig wrthym y byddai digon o amser cyn yr etholiad nesaf iddynt gynnwys gofynion y Bil ym mhrosesau mewnol eu pleidiau.³²⁹

280. Wrth fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan weinyddwyr etholiadol mewn perthynas ag unrhyw oedi pellach o ran bwrw ymlaen â'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer dull graddol, yn dibynnu ar sut y mae'r Bil yn symud yn ei flaen, ond ei bod yn parhau'n i fod yn hyderus ynghylch yr amserlenni sydd wedi'u hamlinellu.³³⁰ Dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym mai'r bwriad yw y byddai Gorchymyn diwygio'n cael ei wneud i'r prif Orchymyn cynnal etholiadau. Ychwanegodd:

"[...] this Bill is to be commenced by Order, so that provides a degree of flexibility just in terms of bringing it into force to take account of that continuing timetable".³³¹

Y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth

281. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i ragnodi ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y Bil yn darparu fframwaith priodol sy'n golygu bod modd darparu ar gyfer llawer o'r manylion mewn is-ddeddfwriaeth. Rhoddodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd restr helaeth o faterion yr oedd yn disgwyl y byddent yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â datganiadau ymgeiswyr, rôl y SCEC, a statws rhestrau'r pleidiau pe bai ymgeisydd yn tynnu'n ôl.³³²

³²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 42 a 57], 21 Mawrth 2024

³²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 271, 273 a 275], 18 Ebrill 2024

³³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 1 Mai 2024

³³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 1 Mai 2024

³³² SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

282. Roedd Un Llais Cymru hefyd yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.³³³

283. Fodd bynnag, roedd Merched Cymru a Welsh Women Speak Out o'r farn bod gormod i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.³³⁴ Tynnodd Merched Cymru sylw at waith a wnaed yn ddiweddar gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a oedd yn nodi'r nifer mawr o wallau mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.³³⁵

284. Cwestiynodd Thomas Glyn Watkin CB hefyd a oedd yn briodol i fanylion sydd, meddai, yn effeithio ar hawliau pobl i sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd gael eu gadael i Weinidogion Cymru ddarparu ar eu cyfer yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, a thynnodd sylw at yr hyn a alwodd yn bŵer Harri'r Wythfed rhyfeddol o eang³³⁶ yn adran 3(2)(a) o'r Bil.³³⁷

285. Cwestiynodd Elisabeth Jones yn yr un modd a fyddai'n briodol, o ystyried pwysigrwydd y Bil o ran hawliau sifil a gwleidyddol, cynnwys mwy o wybodaeth am faterion megis swyddogaethau SCEau a'r SCEC ar wyneb y Bil.³³⁸

286. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y dull gweithredu, yn ei barn hi, yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r gwahaniad presennol rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a dywedodd fod angen hyblygrwydd ar gyfer rhai datblygiadau ehangach a allai effeithio ar etholiadau.³³⁹ Cyfeiriodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd at rwystrau ymarferol o ran newid y cydbwysedd:

"[...] all of the nominations process is set out in the conduct Order, and because these rules will be layered on top of that part of the nominations process, because this is about the nomination and fits entirely under the nomination of candidates, we wouldn't be able to refer in the primary legislation to something that happens in the secondary legislation".³⁴⁰

³³³ SCECLB27-P Un Llais Cymru (Saesneg yn unig)

³³⁴ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig) a SCECLB36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig)

³³⁵ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

³³⁶ Mae 'pwerau Harri'r Wythfed' yn ddarpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

³³⁷ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

³³⁸ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

³³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 1 Mai 2024

³⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 1 Mai 2024

Amserlen yr etholiad

287. Nodir darpariaeth ar gyfer amserlen yr etholiad, gan gynnwys terfynau amser sy'n berthnasol i'r broses enwebu, yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Mae'r Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi y bydd angen i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau addasu amserlen yr etholiad er mwyn caniatáu "digon o amser i gwblhau'r gwiriadau cydymffurfio angenrheidiol" rhwng cau enwebiadau a chyhoeddi'r datganiad o bersonau a enwebwyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfnod o hyd at dri diwrnod yn gyfnod priodol o amser i rannu gwybodaeth rhwng SCEau a'r SCEC, ac i ddatrys unrhyw faterion cydymffurfiaeth.³⁴¹

288. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru wrthym fod amserlen yr etholiad yn rhwystr i weithredu. Nododd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y gallai newidiadau i'r amserlen effeithio ar ddyddiad diddymu'r Senedd, ond disgrifiodd yr amserlen fel un hynod dynn, a galwodd am adolygiad llawnach o amserlen yr etholiad.³⁴² Pe na bai amserlen yr etholiad yn cael ei hestyn o leiaf dri diwrnod i ddarparu ar gyfer y gwiriadau cydymffurfio arfaethedig, dywedodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru:

"[...] there is a high risk of failure of process or error in procedures, either by political parties or electoral administrators, due to the pressure of time in an already congested and demanding election timetable".³⁴³

289. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ei bod wedi galw ers 2021 am adolygu'r amserlen ar gyfer holl etholiadau'r DU. Dywedodd y byddai'r prosesau ychwanegol a gynigir yn y Bil yn rhoi mwy o straen ar yr amserlen ac yn cynyddu'r risg o ran cynnal yr etholiad. Roedd hefyd yn tynnu sylw at gynseiliau, megis amserlen ar gyfer etholiad Senedd yr Alban, sydd rhwng 35 a 28 diwrnod gwaith, a'r amserlen o 30 diwrnod gwaith ar gyfer etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf.³⁴⁴

³⁴¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Datganiad o'r Bwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 11 Mawrth 2024, tudalen 5

³⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 21 Mawrth 2024

³⁴³ [Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Mawrth 2024](#) (Saesneg yn unig)

³⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 21 Mawrth 2024

290. Wedi hynny, cynigiodd amserlen amgen yn ei thystiolaeth ysgrifenedig sy'n cynnwys wyth diwrnod gwaith ychwanegol (o'i gymharu â'r tri diwrnod gwaith ychwanegol a gynigir gan Lywodraeth Cymru).³⁴⁵

Tabl 4 Yr amserlen a gynigir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ar gyfer yr etholiad

| Digwyddiad | Amserlen y Senedd 2021 | Amserlen arfaethedig y gweinyddwyr etholiadol |
|--|---|---|
| Cyhoeddi hysbysiad etholiad | Heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod | Heb fod yn hwyrach na 33 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio |
| Cyflwyno papurau enwebu | Rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm 19 diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio | Rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm 27 diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu | 19 diwrnod (5pm) | 27 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio (4pm) |
| Gwrthwynebu papurau enwebu | 19 diwrnod (9am i 6pm), yn amodol ar y canlynol: Rhwng 9am a chanol dydd, gellir gwrthwynebu pob enwebiad a ddaw i law Rhwng canol dydd a 5pm, gellir gwrthwynebu pob enwebiadau a ddaw i law ar ôl 4pm yn unig | Dileu'r gallu i wrthwynebu |
| Dyddiad cau ar gyfer tynnu yn ôl | 19 diwrnod (4pm) | 27 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio (4pm) |
| Cyfnod cydymffurfio i'r SCEC gynnal gwiriad llorweddol - mae'r memorandwm esboniadol yn awgrymu bod angen tri diwrnod ar gyfer y broses hon | Amherthnasol | O 4pm 27 diwrnod gwaith cyn y bleidlais tan 4pm 24 diwrnod gwaith cyn y bleidlais |

³⁴⁵ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

| Digwyddiad | Amserlen y Senedd 2021 | Amserlen arfaethedig y gweinyddwyr etholiadol |
|---|--|---|
| Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad o'r bleidlais a lleoliad gorsafoddd pleidleisio | Heb fod yn hwyrach na 18 diwrnod (4pm) | Heb fod yn hwyrach na 22 diwrnod gwaith cyn y bleidlais (4pm) |

291. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod amserlen yr etholiad yn hirsefydlog ac yn caniatáu cysondeb rhwng etholiadau o ran amseru enwebiadau. Dywedodd y byddai'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau'n creu cyfnod ychwanegol o hyd at dri diwrnod rhwng cau enwebiadau a chyhoeddi'r datganiad o bobl a enwebwyd er mwyn darparu ar gyfer y gwiriadau cydymffurfio ychwanegol sy'n ofynnol gan y Bil, a hynny heb effeithio'n negyddol ar amserlen yr etholiad. Esboniodd:

"[...] the intention is that the notice of election would be published earlier than is currently the case to allow for this additional time without shortening the period during which nomination papers can be submitted in all of the period between publication of the statement of persons nominated and the day of the poll. We don't anticipate that this would have an impact, for example, on the timing of dissolution of the Senedd".³⁴⁶

Codi ymwybyddiaeth

292. Pwysleisiodd gweinyddwyr etholiadol ba mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cyfleu'r newidiadau i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn effeithiol. Os nad yw pleidiau yn glir ynghylch sut bydd y broses yn gweithio, dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ei bod yn debygol y bydd hyn yn rhoi mwy o faich ar SCEau gan ymgeiswyr sy'n ceisio eglurhad.³⁴⁷ Adleisiodd y Comisiwn Etholiadol yr alwad hon am gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.³⁴⁸

293. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd fod angen sicrhau bod canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau yn

³⁴⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 75 ac 83-84], 1 Mai 2024

³⁴⁷ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

³⁴⁸ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

cyrraedd pob plaid wleidyddol gofrestredig, nid dim ond y rhai sy'n cael eu cynrychioli yn y Senedd ar hyn o bryd.³⁴⁹

294. Cadarnhaodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y byddai codi ymwybyddiaeth gan SCEau yn cael ei gyfyngu i sicrhau bod pobl yn deall y system bleidleisio.³⁵⁰ Yn yr un modd, dywedodd y Comisiwn Etholiadol y bydd yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd "er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ac yn gwybod sut i fwrw eu pleidlais".³⁵¹

295. Amlinellodd tystiolaeth ysgrifenedig gan y Llywydd gynlluniau Comisiwn y Senedd i gynnal ymgyrch gyfathrebu dros y ddwy flynedd nesaf, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Senedd.
- Cynyddu dealltwriaeth o rôl y Senedd a'i Aelodau.
- Annog cyfranogiad yn etholiad y Senedd.³⁵²

Goblygiadau ariannol

296. Gan fod cynigion y Bil yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, mae wedi asesu'r costau ar sail y cynigion hynny yn hytrach nag ar sail costio sawl opsiwn lefel uchel. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a gymerwyd mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).³⁵³

Costau i awdurdodau lleol

297. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i nodi effeithiau ariannol y Bil, a sefydlodd weithgor arbenigol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol i nodi'r meysydd gweithgarwch a'r gwariant y byddai'n effeithio arnynt.³⁵⁴

298. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gostau trosiannol o £18,000 yn 2025-26 i dalu'r costau i awdurdodau

³⁴⁹ SCECLB13-P Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Saesneg yn unig)

³⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 21 Mawrth 2024

³⁵¹ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

³⁵² SCECLB40-P Y Llywydd

³⁵³ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 146

³⁵⁴ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 160-161

Ileol ddiweddarau eu Systemau Rheoli Etholiadol, heb unrhyw gostau ychwanegol pellach yn etholiadau'r Senedd wedi hynny.³⁵⁵ Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi bod yr amcangyfrif:

"[...] yn amodol ar negodi a chytundeb contract gyda chyflenwyr ac yn dibynnu ar raddfa y newidiadau sydd eu hangen i'r system rheoli etholiadol. Awdurdodau lleol sy'n dal y contractau gyda chyflenwyr ac felly nhw sy'n gyfrifol am y costau a nodir".³⁵⁶

299. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, lle mae deddfwriaeth yn gosod baich ariannol newydd ar awdurdodau lleol, mai Llywodraeth Cymru sydd fel arfer yn gyfrifol am ysgwyddo'r baich hwn.³⁵⁷ Wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"[...] EMS providers initially will be paid directly through lead local authorities, but then we would—Welsh Government would—reimburse for the costs incurred".³⁵⁸

Costau i Lywodraeth Cymru

300. Yr unig gost ychwanegol arall sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw cost gylchol o £1,500 i Lywodraeth Cymru ym mhob etholiad mewn perthynas â dynodi'r SCEC.³⁵⁹ Eglurodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol sut y cafodd y gost amcangyfrifedig hon ei chyfrifo:

"[...] that cost is actually modelled on the fees and charges that are currently provided for returning officers and regional returning officers in the existing system. In the discussions that we had through the WLGA, with local authorities, the returning officers felt that it's modelled more on the regional returning officer fee. But, obviously, it's

³⁵⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 155 a 163

³⁵⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 163

³⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 21 Mawrth 2024

³⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 171], 24 Ebrill 2024

³⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 167

worth saying that decisions around fees and charges for returning officers are matters for Ministers closer to the election itself”.³⁶⁰

Costau i'r Comisiwn Etholiadol

301. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai angen diweddaru canllawiau ac adnoddau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau ychwanegol o ganlyniad i'r Bil gan fod “y Comisiwn Etholiadol o'r farn bod darparu'r canllawiau hyn yn rhan o'i gyfrifoldebau a'i swyddogaethau presennol”.³⁶¹ Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym y dylai'r costau ychwanegol disgwylidig i'r sefydliad fod yn gymharol fach, cyn belled â bod yr holl ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno'n ddigon cynnar iddo allu gwneud y newidiadau gofynnol i'w ganllawiau.³⁶²

302. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth olaf, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

*“[...] the Electoral Commission has identified a cost in the region of £6,000 for work undertaken by their new legislation team to prepare for the implementation of the Bill—that's staff costs—and guidance. In total, we now estimate a cost of £27,000 to implement the Bill [...]”.*³⁶³

Costau hyfforddi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol

303. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi unrhyw gostau hyfforddi ar gyfer SCEau. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Cyllid:

“The RIA on this Bill needs to be looked at in the context of the Members and elections Bill, because it's seen as the Senedd reform programme as a whole. It includes training and, as I said, that's in the RIA to the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill. I think it's important, really, to see also that there are no additional costs

³⁶⁰Cofnod y Trafodion [paragraff 253], 13 Mawrth 2024

³⁶¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 169

³⁶²Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 21 Mawrth 2024

³⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 124], 1 Mai 2024

*needed for training—you've discussed this with WLGA—specifically associated with this legislation”.*³⁶⁴

Costau i bleidiau gwleidyddol

304. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gallai cyflwyno cwotâu ymgeiswyr arwain at gostau ychwanegol ac arbedion i bleidiau gwleidyddol sy'n ymwneud â'r broses etholiadol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi “nid yw costau nac arbedion yn hysbys ar hyn o bryd” ac nad yw'n bosibl eu meintioli gan nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan bleidiau gwleidyddol yn deillio'n uniongyrchol o'r Bil ac nad ydynt wedi'u gwneud eto.³⁶⁵ Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Phanel Pleidiau Senedd Cymru “ar y cynigion polisi lefel uchel”, nid yw wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol ar gostau cyn cyflwyno'r Bil.³⁶⁶

305. O ran y costau ychwanegol y gallai pleidiau gwleidyddol fod yn gyfrifol amdanynt o ganlyniad i ofynion y Bil, roedd Plaid Cymru yn rhagweld y byddai costau gweithredu'n gyfyngedig.³⁶⁷ Hefyd, cadarnhaodd Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig fod costau sy'n gysylltiedig â gwirio ymgeiswyr yn cael eu talu gan yr ymgeisydd neu eu hadennill drwy godi ffi ar yr ymgeisydd.³⁶⁸

Costau i Gomisiwn y Senedd a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

306. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gwneud unrhyw asesiad o unrhyw gostau neu arbedion posibl i Gomisiwn y Senedd na Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

307. Gwnaethom ofyn am eglurhad gan Gomisiwn y Senedd am ei ran yn natblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gofyn am gadarnhad nad oes unrhyw gostau nac arbedion disgwylidiedig neu anfesuradwy i Gomisiwn y Senedd sy'n gysylltiedig â'r Bil. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Llywydd yn nodi na chafodd y Comisiwn unrhyw ran yn natblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

³⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 24 Ebrill 2024

³⁶⁵ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraffau 170 a 172

³⁶⁶ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 172

³⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 347], 18 Ebrill 2024

³⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 358 a 360], 18 Ebrill 2024

“Darparodd y Comisiwn gostau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rwyf ar ddeall – o ystyried cwmpas [Bil SC(AE)] a’r wybodaeth a ddarparwyd – nad oedd Llywodraeth Cymru wedi’i gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i lywio’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil SC(RhYE)”.³⁶⁹

308. Gwnaethom ofyn yr un cwestiynau i’r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gadeirydd y Bwrdd na fu’n rhan o ddatblygu’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac nad oedd yn “rhagweld unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy sylweddol mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau mewn cysylltiad â’r Bil”.³⁷⁰

Costau suddedig

309. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro nad yw ‘costau suddedig’ sydd eisoes wedi’u hysgwyddo neu y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo yn 2023-24 a 2024-25, cyn i’r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, wedi’u cynnwys yng nghostau’r Bil gan nad oes modd eu hadennill os na fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae’n cadarnhau bod y costau suddedig ar gyfer y Bil hwn yn 2023-24 yn rhan o’r £2.2m a nodir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn cwmpasu’r rhaglen waith ehangach ar ddiwygio’r Senedd, er nad yw’n glir pa gyfran o’r cyfryw gostau sy’n ymwneud â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).³⁷¹

Cyfanswm y costau

310. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir mai £21,000 yw cyfanswm cost weinyddol y Bil dros gyfnod arfarnu o wyth mlynedd (2024-25 i 2031-32).³⁷² Dywedodd yr Aelod sy’n gyfrifol wrthym wedyn fod y Comisiwn Etholiadol wedi nodi cost o £6,000 i baratoi ar gyfer gweithredu’r Bil, gan ddod â chyfanswm y gost weinyddol amcangyfrifedig i £27,000 dros gyfnod arfarnu o wyth mlynedd.

³⁶⁹ SCECLB40-P Y Llywydd

³⁷⁰ SCECLB33-P Y Bwrdd Taliadau Annibynnol

³⁷¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, paragraff 154

³⁷² Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, tudalen 41

311. Pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Etholiadol fod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau llawn ar gyfer y diwygiadau, gan gynnwys newidiadau i'r system meddalwedd rheoli etholiadol ac unrhyw brosesau ychwanegol y bydd angen i dimau gwasanaethau etholiadol eu cyflawni o ganlyniad i'r diwygiadau hyn.³⁷³

312. Gwnaethom ofyn a fyddai cyfanswm cost amcangyfrifedig y Bil yn newid pe na bai'r darpariaethau'n cael eu cychwyn ar gyfer yr etholiad nesaf ochr yn ochr â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol:

"[...] the costs identified in the RIA are relatively distinct from those that are within the Members and elections Bill. So, there isn't a huge sensitivity around implementing this at the same time as those wider reforms. Obviously, there would be implications in terms of inflation".³⁷⁴

Cyfeiriad posibl i'r Goruchaf Lys

313. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad fel unigolion o'r farn y byddai'r Bil yn cael ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys, ac roedd rhai'n pryderu am y costau posibl yn sgil hyn.³⁷⁵

314. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol y cofnodwyd costau o £62,596.54 i Lywodraeth Cymru yn sgil cyfeirio Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys yn 2013.³⁷⁶ Dywedodd wrthym, yn unol â'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio ar gyfer yr holl asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer deddfwriaeth, nad yw'r costau amcangyfrifedig yn cyfrif am gostau heriau cyfreithiol posibl.³⁷⁷

315. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor cyfreithiol allanol mewn perthynas â'r Bil.³⁷⁸ Dywedodd hi wrth y

³⁷³ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

³⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 1 Mai 2024

³⁷⁵ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen yr ymgynghoriad ar y we](#).

³⁷⁶ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip](#), 19 Mawrth 2024. Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) oedd y Bil mwyaf diweddar a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys. Fodd bynnag, nododd llythyr yr Aelod sy'n gyfrifol nad oedd costau'r cyfeiriad hwnnw yn nodweddiadol gan fod y Twrnai Cyffredinol wedi tynnu'r cyfeiriad yn ôl cyn unrhyw wrandawriad yn y Goruchaf Lys.

³⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 247], 13 Mawrth 2024

³⁷⁸ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip](#), 19 Mawrth 2024

Pwyllgor Cyllid y gwariwyd £38,100 ar gyngor cyfreithiol allanol, a hynny fel rhan o'r broses arferol ar gyfer pob Bil a gyflwynir gan y Llywodraeth.³⁷⁹

Ein barn ni

316. Mae'n amlwg bod yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig mewn pryd ar gyfer etholiad Senedd 2026 yn heriol, ac rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan weinyddwyr etholiadol bod unrhyw oedi yn yr amserlen yn golygu risg sylweddol o ran gallu cyflawni'r newidiadau mewn pryd. Er ein bod yn nodi bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn hyderus y bydd yr amserlenni'n cael eu bodloni, nid ydym yn diystyru faint o waith sydd i'w wneud. Mae gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar waith agos rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol er mwyn cyfleu'r newidiadau i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i leihau unrhyw straen ar bartneriaid etholiadol drwy adael iddynt weld y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn gynnar, a gwrando ar unrhyw bryderon y maent yn eu codi neu adborth y maent yn ei ddarparu. Rydym yn deall mai'r bwriad yw i ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r Bil gael ei chynnwys mewn Gorchymyn ar wahân a fydd yn diwygio'r Gorchymyn Cynnal Etholiadol cyfunol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno i roi effaith i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rydym yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol i roi sylw i unrhyw sylwadau y gallai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad eu gwneud am y dull gweithredu hwn, gan gynnwys unrhyw oblygiadau y mae'r Pwyllgor yn eu nodi ar gyfer hygyrchedd cyfraith Cymru.

317. Rydym hefyd yn cydnabod y baich ychwanegol y bydd darpariaethau'r Bil yn ei roi ar amserlen yr etholiad sydd eisoes yn heriol. Rydym yn cefnogi'r amserlen amgen a gynigir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i helpu i gynnal yr etholiad yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd angen i unrhyw newidiadau i amserlen yr etholiad—boed yn unol â bwriadau datganedig Llywodraeth Cymru neu'r cynigion gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol—gael eu hystyried yn ofalus ac y bydd angen asesu eu heffeithiau. Yn benodol, dylai unrhyw newidiadau osgoi gwaethygu'r rhwystrau presennol o ran sefyll, er enghraifft drwy gynyddu nifer y diwrnodau y mae angen i ymgeiswyr gymryd absenoldeb di-dâl er mwyn sefyll etholiad.

Argymhelliad 14. Fel rhan o'r broses o ddatblygu ac ymgynghori ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau, dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ynghylch amserlen arfaethedig yr etholiad, a mynd ati i'w

³⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 24 Ebrill 2024

gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys asesiad o unrhyw effeithiau ar bobl o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol.

318. Rydym yn cydnabod bod y Bil yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio'r Senedd. Penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd cynnwys darpariaethau yn ymwneud â chwotâu ymgeiswyr mewn Bil ar wahân. Er ein bod yn cydnabod rhesymau Llywodraeth Cymru dros ddeddfu ar wahân, rydym yn cwestiynu'r dull gweithredu a gymerwyd o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae rhai costau wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y Bil hwn yn benodol, ac mae'n ymddangos mai dim ond yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) y rhoddir sylw i gostau eraill (fel costau sy'n ymwneud â hyfforddiant). Awgrymodd yr Aelod sy'n gyfrifol y dylid edrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng nghyd-destun Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Fodd bynnag, pan wnaethom ofyn a fyddai'r costau'n amrywio pe na bai'r Bil yn cael ei gychwyn ar gyfer etholiad Senedd 2026, dywedwyd wrthym fod y costau'n gymharol wahanol i'r costau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).³⁸⁰ Felly, nid yw'n glir beth yw'r goblygiadau ariannol os na chaiff y Bil ei gychwyn ochr yn ochr â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn yr un modd, os na chaiff y Bil ei gychwyn o gwbl, nid yw'n glir pa effaith y gallai hyn ei chael ar y costau amcangyfrifedig sydd wedi'u cynnwys yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Er eglurder, tryloywder ac atebolrwydd, byddem yn disgwyl i'r holl gostau ac arbedion sy'n gysylltiedig â Bil gael eu nodi yn ei Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei hun, gan gynnwys gweithgareddau fel hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd gan yr holl bartneriaid cyflawni, y gellir eu gwneud o reidrwydd ar wahân i weithredu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Argymhelliad 15. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi manylion yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ar wahân i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

319. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi nodi cost ychwanegol o £6,000 i'r Comisiwn Etholiadol ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynyddu cyfanswm cost y Bil o £21,000 i £27,000 dros gyfnod arfarnu o wyth mlynedd. Nid yw'n glir a yw hyn yn gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru neu i'r Comisiwn Etholiadol.

³⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 1 Mai 2024

Argymhelliad 16. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol egluro a fydd y gost ychwanegol o £6,000 a nodwyd ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru neu'r Comisiwn Etholiadol, ac adlewyrchu'r gost ychwanegol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

320. Roedd y dystiolaeth a gawsom gan gynrychiolwyr Panel Pleidiau Senedd Cymru yn awgrymu y byddai'r goblygiadau ariannol i bleidiau gwleidyddol yn gyfyngedig. Serch hynny, rydym yn cydnabod y baich ychwanegol ar bleidiau i gynnwys y prosesau angenrheidiol i gydymffurfio â'r Bil, ac i ddatblygu a thyfu eu llif o ymgeiswyr, yn enwedig ar gyfer pleidiau llai.

8. Cymhwysedd deddfwriaethol

Y cefndir

Asesu cymhwysedd deddfwriaethol

321. O dan drefn cymhwysedd deddfwriaethol y model cadw pwerau, bydd darpariaeth mewn Bil gan y Senedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oni fydd unrhyw un o'r paragraffau yn adran 108A(2)(a) i (e) o Ddeddf 2006 yn gymwys. Er mwyn penderfynu a yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, mae angen dilyn cyfres o brofion. Ceir trosolwg o'r profion hyn yn Atodiad 2, ond ym Blwch 4 rhoddir crynodeb o'r tri phrawf a fu fwyaf perthnasol i'n gwaith craffu.

Blwch 4 Profion cymhwysedd deddfwriaethol 1, 2 a 7

Prawf 1: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ymwneud â mater a gedwir yn ôl

- Nodir rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006.
- O dan adran 108A(6) o Ddeddf 2006, caiff y cwestiwn ynghylch a yw darpariaeth mewn Bil 'yn ymwneud â' mater a gedwir yn ôl ei benderfynu drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi sylw i'w heffaith ym mhob amgylchiad (ymhlith pethau eraill).

Prawf 2: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil addasu (neu roi'r pŵer i addasu) y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl

- Diffinnir y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ym mharagraff 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Mae'n ymdrin ag unrhyw ddarpariaethau mewn Deddf gan Senedd y DU, neu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf o'r fath, ynghylch mater a gedwir yn ôl. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw reol cyfraith gyffredin ar fater a gedwir yn ôl.
- Gall Deddf gan y Senedd addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl os yw'r addasiad yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ar yr amod na chaiff yr addasiad ddim mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sydd ei hangen i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth honno (h.y. y ddarpariaeth y mae'r addasiad yn ategol iddi).

Prawf 7: Rhaid i bob darpariaeth yn y Bil fod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998

- Mae nifer o hawliau'r Confensiwn yn arbennig o berthnasol i'r Bil, gan gynnwys Erthygl 3 o Brotocol 1 (etholiadau rhydd a theg), Erthygl 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu) ynghyd ag Erthygl 3 o Brotocol 1, ac Erthygl 8 (parch at fywyd preifat a theuluol).

322. Er mwyn llywio ein trafodaethau ar faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol, gwnaethom dynnu sylw cyfreithwyr a chanddynt brofiad ac arbenigedd perthnasol at ein galwad am dystiolaeth ysgrifenedig. Rydym yn ddiolchgar iddynt am rannu eu barn a'u harbenigedd â ni.

Trafodaethau blaenorol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o ran cwotâu ymgeiswyr

323. Yn aml, ni fydd modd penderfynu'n ddiffiniol a fydd rhywbeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio oni fydd darpariaeth benodol y gellir ei hystyried yn erbyn y profion perthnasol. Serch hynny, trafododd y Panel Arbenigol y cwestiwn ynghylch a allai cwotâu ymgeiswyr fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mewn egwyddor, yn ei adroddiad yn 2017. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

"Credwn fod modd i'r Cynulliad ddeddfu mewn ffordd sy'n annog cynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau, er ein bod yn cydnabod bod cyfyngiadau sylweddol ar ei gymhwysedd yn hynny o beth. Er ein bod yn cydnabod nad mater i ni yw datrys cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rydym yn annog y Cynulliad i archwilio'i awdurdod i'r eithaf er mwyn dod o hyd i ffyrdd arloesol o annog cynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau".³⁸¹

324. Yn 2020 hefyd, trafododd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y cwestiwn o ran cymhwysedd. Canolbwyntiodd yn benodol ar y mater a gedwir yn ôl o ran 'cyfle cyfartal' ym mharagraff 187 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006, ac yn arbennig y cyfeiriad at "the regulation of [...] discrimination". Daeth i'r casgliad a ganlyn:

"[...] nid oes eithriad i'r cymal cadw mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd. Byddai cynigion deddfwriaethol sy'n anelu at ganiatáu ymddygiad a fyddai fel arall yn gyfystyr â gwahaniaethu, megis gofyn i bleidiau gyflwyno rhestrau o ymgeiswyr sy'n gytbwys o ran y rhywiau,

³⁸¹ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, paragraff 12.22

yn gyfystyr â rheoleiddio gwahaniaethu ac felly byddent y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd".³⁸²

325. Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol fel a ganlyn:

"Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru (a'r Aelod sy'n gyfrifol am unrhyw ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd os nad yw'n aelod o Lywodraeth Cymru) gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio diwygiadau i Atodlenni 7A a 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau y byddai mesurau i ethol Senedd fwy amrywiol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol pe bai'r Senedd yn dymuno deddfu yn hyn o beth".³⁸³

326. Cydnabu'r Pwyllgor Diben Arbennig "y byddai'n rhaid i unrhyw Fil sy'n cyflwyno mesurau amrywiaeth gael ei ddrafftio mewn ffordd nad yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl, gan gynnwys y mater sy'n ymwneud â 'chyfle cyfartal'", ond nododd fod eithriadau i'r mater a gedwir yn ôl ac awgrymodd fod "lle i fabwysiadu mesurau amrywiaeth sydd naill ai'n dod o fewn yr eithriadau hynny neu'n osgoi'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal yn gyfan gwbl".³⁸⁴ Gan drafod y materion cymhleth sy'n ymwneud â chwotâu ymgeiswyr, pwysleisiodd bwysigrwydd diben Bil wrth asesu cymhwysedd, a daeth i'r casgliad a ganlyn:

"Felly, wrth ddatblygu unrhyw gynnig ar gyfer cwotâu rhywedd, bydd yn rhaid ystyried diben y cynnig yn ofalus".³⁸⁵

327. Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai Llywodraeth Cymru gymryd "camau priodol" i sicrhau nad oedd ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Senedd yn "cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys".³⁸⁶

³⁸² Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, paragraff 252

³⁸³ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, argymhelliad 18

³⁸⁴ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, paragraff 152

³⁸⁵ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, paragraff 111

³⁸⁶ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhelliad 17

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl y Llywydd

328. Mae Adran 110(3) o Ddeddf 2006 yn darparu bod rhaid i'r Llywydd, pan gyflwynir Bil neu cyn hynny, ddatgan ei benderfyniad o ran a fyddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Ategir hyn gan Reol Sefydlog 26.4 sy'n darparu, pan gyflwynir Bil, fod rhaid cael datganiad gan y Llywydd y mae rhaid iddo:

- Nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- Nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'r rhesymau dros y farn honno.

329. Gosododd y Llywydd ddatganiad ar y Bil ar 11 Mawrth 2024:

"Yn fy marn i, ni fyddai darpariaethau Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a gyflwynwyd ar 11 Mawrth 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a hynny am fod y Bil:

a. yn ymwneud â chyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl, a

b. yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, sef Deddf Cydraddoldeb 2010".³⁸⁷

330. Ysgrifennodd y Llywydd atom ar 11 Mawrth 2024 er mwyn:

- Cadarnhau, er ei bod yn ofynnol iddi wneud datganiad yn nodi ei barn, nad oedd cynnwys ei datganiad "yn effeithio ar a ganiateir cyflwyno Bil neu a gaiff Bil gwblhau ei hynt drwy'r Senedd ai peidio".
- Rhoi crynodeb o'r materion yr oedd hi wedi eu hystyried wrth lunio ei barn.³⁸⁸

Rôl yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

331. Mae Adran 110(2) o Ddeddf 2006 yn darparu bod rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil, pan gyflwynir y Bil neu cyn hynny, ddatgan y byddai darpariaethau'r Bil o

³⁸⁷ Datganiad y Llywydd am gymhwysedd deddfwriaethol, 11 Mawrth 2024

³⁸⁸ Llythyr oddi wrth y Llywydd, 11 Mawrth 2024

fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei farn ef. Ategir hyn gan Reol Sefydlog 26.6 sy'n darparu, pan gyflwynir Bil, fod rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef, a bod rhaid i hwnnw ddatgan barn yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Os na fydd y Memorandwm yn cynnwys datganiad o'r fath, ni chaniateir cyflwyno'r Bil.³⁸⁹

332. Mae'r Memorandwm yn cynnwys datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Yn fy marn i, byddai Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a gyflwynir gennyf i ar 11 Mawrth 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil".³⁹⁰

333. Ar 13 Mawrth 2024, cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol fod y Llywydd o'r farn nad oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.³⁹¹ Dywedodd wrthym:

"Well, based on all the information available to me [...] I am of the view that this Bill is within the legislative competence of the Senedd. And just in terms of reaching that view, the Bill has been through all the usual processes and checks within the Welsh Government, and that is how I reached the view that it is within legislative competence. And, of course, it is important [...] the Government Bill was drafted with advice from officials, including our lawyers, and drafted by lawyers, and it has enabled me to make the required statement".³⁹²

³⁸⁹ Caiff y Senedd gytuno yn unol â Rheol Sefydlog 26.96 y caniateir cyflwyno Bil Brys llywodraeth heb y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6, ond mae Rheol Sefydlog 26.97 yn darparu ar wahân, pan gyflwynir Bil Brys llywodraeth, fod rhaid cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sy'n nodi y byddai'r Bil ym marn yr Aelod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

³⁹⁰ Llywodraeth Cymru, [Bil Senedd Cymru \(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol\): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#), 11 Mawrth 2024, tudalen 1

³⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 13 Mawrth 2024

³⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 13 Mawrth 2024

334. Ar 1 Mai 2024, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"I've noted with interest the various legal views on competence that have been presented, noting, of course, that there are differences of opinion between them, just as the Llywydd and I have reached different views, and we respect all the legal opinions that have been given. I remain of the view that the Bill is within the legislative competence of the Senedd".³⁹³

335. Mewn llythyr dyddiedig 19 Mawrth 2024, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor cyfreithiol allanol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil.³⁹⁴

Rôl y Cwnsler Cyffredinol

336. Ym mis Rhagfyr 2023, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am ei rôl wrth asesu a yw darpariaethau ym Miliâu'r Senedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys a oes ganddo unrhyw rôl cyn i'r Senedd basio Bil yng Nghyfnod 4. Dywedodd:

"I'm involved generally in all the legal aspects in terms of legislation, but my input in terms of, for example, the gender quotas Bill kicks in, in terms of competence, once that legislation is passed. So, once the legislation passes, it is only at that stage that the issue of competence becomes an issue for me to consider as to whether to take that forward. I always do look in the round in terms of the competence issue, but, ultimately, it's a matter for the Minister taking that Bill forward, et cetera.

[...]

Under the Government of Wales Act 2006, my job at that stage [when a Bill has been passed by the Senedd] kicks in, and, as a law officer, I then have to give consideration to it as to whether or not it should be referred to the Supreme Court or not".³⁹⁵

³⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 1 Mai 2024

³⁹⁴ Llythyr oddi wrth y Cweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 19 Mawrth 2024

³⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 207-208], 13 Rhagfyr 2023

A yw darpariaeth ‘yn ymwneud â’ mater a gedwir yn ôl

Prawf

337. O dan adran 108A(6) o Ddeddf 2006, penderfynir a yw darpariaeth mewn Bil ‘yn ymwneud â’ mater a gedwir yn ôl drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi sylw i’w heffaith ym mhob amgylchiad (ymhlith pethau eraill). Mae’r Goruchaf Lys wedi cymhwyso nifer o egwyddorion wrth ddehongli’r prawf hwn, gan gynnwys, er enghraifft, yr egwyddorion a ganlyn:

- Diben y ddarpariaeth yw’r ffactor pwysicaf (er bod angen edrych hefyd ar effaith a ‘pethau eraill’).
- Mae elfen oddrychol i ddiben y ddarpariaeth h.y. yr hyn y bwriedir iddi ei gyflawni, nid dim ond yr hyn y mae’n ymddangos y mae’r Bil yn ei wneud.
- Bydd darpariaeth yn ‘ymwneud â’ mater a gedwir yn ôl os oes gan ddiben y ddarpariaeth gysylltiad â’r mater a gedwir yn ôl sy’n fwy na chysylltiad ‘llac neu ganlyniadol’; os oes gan ddarpariaeth fwy nag un diben, os oes gan ddim ond un o’r dibenion hynny gysylltiad â mater a gedwir yn ôl sy’n fwy na chysylltiad ‘llac neu ganlyniadol’, bydd y ddarpariaeth y tu allan i gymhwysedd.
- O ran darpariaeth sydd ag amcan sy’n gysylltiedig â mater a gedwir yn ôl, bydd darpariaeth o’r fath o fewn cymhwysedd os nad yw ei diben yn ‘wirioneddol wahanol’ i ‘ddiben cyffredinol’ y Bil.

Etholiadau’r Senedd

338. Wrth roi tystiolaeth lafar ar 13 Mawrth 2024, pwysleisiodd yr Aelod sy’n gyfrifol bwysigrwydd ystyried diben ac amcan y Bil wrth asesu a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Dywedodd wrthym:

“[...] the purpose of this Bill is to establish a more effective Senedd [...], a more representative Senedd. Women are the under-represented majority in this Senedd”.³⁹⁶

³⁹⁶Cofnod y Trafodion [paragraffau 10 a 24], 13 Mawrth 2024

339. Wrth esbonio ei bod yn ofynnol, o dan adran 108A(6) o Ddeddf 2006, ystyried diben darpariaeth, gan roi sylw i'w heffaith o dan bob amgylchiad, dywedodd uwch-gyfreithiwr Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Aelod sy'n gyfrifol:³⁹⁷

"[...] whilst the effects of a provision are relevant, they are not, in and of themselves, its purpose".³⁹⁸

340. Ategodd y cyfreithiwr safbwynt yr Aelod sy'n gyfrifol mai diben y Bil yw gwneud y Senedd ac etholiadau'r Senedd yn fwy effeithiol, ac ychwanegodd:

"[...] at the time of the Wales Act, when this was devolved to us, we were told that the Wales Act was giving us full competence over everything to do with Senedd elections, including how its Members are elected, and the purpose of this Bill is exactly that: how the Members are elected to ensure a more effective Senedd".³⁹⁹

341. Gan ymhelaethu ar y pwynt bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol dros ei hetholiadau ei hun, cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol at yr hyn a ddisgrifiodd fel cyfraniad allweddol⁴⁰⁰ a wnaed yn 2016 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, Alun Cairns AS, yn ystod Ail Ddarlleniad Bil Cymru ar y pryd:

"Through this Bill, the Assembly will take control of its own affairs, including deciding arrangements for its own elections. It will be able to determine how its Members are elected, the number of Members, the constituencies and regions used in those elections and who is eligible to vote. As we promised in the St David's day agreement, the Bill gives the Assembly full responsibility for deciding how it conducts its own affairs and regulates its own proceedings".⁴⁰¹

342. Ym mis Ebrill 2024, dywedodd yr Athro McAllister wrthym fod y Panel Arbenigol wedi ymgymryd â'i waith fel yr oedd Deddf Cymru 2017 yn dod i rym.⁴⁰² Can ein hatgoffa nad oedd hi nac aelodau eraill y Panel yn gyfreithwyr, nododd yr

³⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 18-19], 13 Mawrth 2024

³⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 13 Mawrth 2024

³⁹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 13 Mawrth 2024

⁴⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 13-16], 13 Mawrth 2024

⁴⁰¹ Dadl Tŷ'r Cyffredin, Col 1652, 14 Mehefin 2016 (Saesneg yn unig)

⁴⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 18 Ebrill 2024

Athro McAllister farn y Panel⁴⁰³ y byddai'n anghyson pe na bai trefniadau etholiadol o fewn cymhwysedd y Senedd gan fod cwotâu yn rhan sylfaenol o system etholiadol.⁴⁰⁴

343. Dywedodd Elisabeth Jones, Prif Gyngorydd Cyfreithiol y Cynulliad ar y pryd rhwng 2012 a 2019, wrthym ei bod, ar lefel bersonol, yn cytuno y byddai'n anghyson i'r Senedd gael cymhwysedd mor eang dros ei threfniadau etholiadol ei hun ond iddi beidio â bod o fewn ei chymhwysedd i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer dethol ymgeiswyr. Fodd bynnag, dywedodd:

"[...] applying the normal rules of statutory interpretation, I regretfully consider that the UK Parliament must be assumed to have been aware of the relationship between reserved matters, such as Equal Opportunities, and the Senedd's competence over its own electoral arrangements.

64. This argument is strengthened by the fact that paragraph 187 of Schedule 7A does in fact contain four exceptions from the Equal Opportunities reservation, none of which are relevant to the provisions of the Bill. So the UK Parliament did consider that there were situations in which it was appropriate for the Senedd to legislate on Equal Opportunities, as defined; but selection of candidates for election to the Senedd was not one of those situations.

65. I also recognise the argument that the effect of the Equal Opportunities reservation on the Senedd's competence over its own elections is not an anomaly, but an example of Lord Hope's analysis that the "common theme" of reserved matters is that they are matters in which the UK as a whole has an interest—including an interest in retaining control over the rules governing equality and diversity in the selection of candidates by registered political parties".⁴⁰⁵

⁴⁰³ Ym mharagraff 12.19 o adroddiad y Panel Arbenigol, nodir: "Pan fydd y model o ddatganoli sy'n seiliedig ar gadw pwerau, a sefydlwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn cychwyn bydd gan y Cynulliad gymhwysedd cyffredinol mewn perthynas â'i etholiadau ei hun. Rydym yn sylweddoli y bydd y cymhwysedd cyffredinol hwn yn amodol ar gymhwyso materion perthnasol a gedwir yn ôl megis ariannu pleidiau gwleidyddol, a chyfle cyfartal (ac eithriadau i'r materion hynny). Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai'n anghyson pe bai materion cadw o'r fath yn golygu na fyddai gan y Cynulliad gymhwysedd i benderfynu ar ei drefniadau etholiadol ei hun, gan gynnwys cwotâu rhywedd".

⁴⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 18 Ebrill 2024

⁴⁰⁵ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

Cyfle cyfartal

344. Mewn gohebiaeth, eglurodd y Llywydd ei bod yn derbyn bod gan y Bil ddiben datganoledig, h.y. gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol. Fodd bynnag, ychwanegodd fod y Bil hefyd:

- “Yn ceisio mynd i’r afael ag anafteision a rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu yn ystod y broses dethol ymgeiswyr”.
- “Yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol drin dyn (a fyddai fel arall yn fwy tebygol o gael ei ddewis ar gyfer safle ar y rhestr y mae’n rhaid ei ddyrannu i fenyw) yn llai ffafriol na menyw, oherwydd rhyw y dyn”.⁴⁰⁶

345. O ganlyniad, eglurodd y Llywydd ei bod hi o’r farn bod gan y Bil ddiben a gedwir yn ôl hefyd, sef cyfle cyfartal, a bod ganddo:

*“[...] fwy na chysylltiad ‘llac neu ganlyniadol’ ag atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw. Mewn geiriau eraill, yn fy marn i, mae’r Bil yn ymwneud â chyfle cyfartal, sy’n fater a gedwir yn ôl, ac ni fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd”.*⁴⁰⁷

346. Wrth roi tystiolaeth i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, dywedodd yr Aelod sy’n gyfrifol:

*“I don’t consider that there’s another purpose of equal opportunities, but, of course, in terms of equal opportunities, the effects of a provision may be relevant, but they’re not themselves its purpose”.*⁴⁰⁸

347. Yn yr un modd, dywedodd cyfreithiwr yr Aelod sy’n gyfrifol wrthym nad oedd diben eilaidd i’r Bil ym marn Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y Goruchaf Lys, o ran pennu diben deddfwriaeth, wedi dweud:

*“[...] the purpose and effect of legislation can be derived from both **the purpose of those introducing it** and the objective effect, and obviously*

⁴⁰⁶ Llythyr oddi wrth y Llywydd, 11 Mawrth 2024

⁴⁰⁷ Llythyr oddi wrth y Llywydd, 11 Mawrth 2024

⁴⁰⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 29 Ebrill 2024

the explanatory memorandum sets out the purpose of those introducing the Bill.⁴⁰⁹ [pwyslais wedi'i ychwanegu]

348. Ymhelaethodd ar y pwynt hwn yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

"The test is whether it relates to the reserved matter, and, as you've identified, the equal opportunities matter. But then how we look at purpose, it's 108A(6), and it's the effect of the provision amongst other things—having regard to the effect of the provision, amongst other things. So, as the Trefnydd said, the effect is relevant in determining purpose, but it is not the most relevant thing. The most relevant thing is the purpose, and I think we talked in the Senedd Reform Bill Committee previously about how the courts have looked at this, and that what's one of the very important things is the subjective purpose of those introducing the Bill, and the subjective purpose of those introducing the Bill is about a more effective Senedd, along with the package of reforms that the other Bill looks at as well.

And so, the position is, as the Trefnydd has said, that we don't consider there is a secondary purpose. There is a single purpose for this Bill of a more effective Senedd, and therefore any impact on equal opportunities is no more than incidental, and therefore doesn't amount to 'relating to'".⁴¹⁰

349. Roedd Thomas Glyn Watkin CB, sef Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd rhwng 2007 a 2010, yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru nad diben y Bil yw atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw ond yn hytrach greu Senedd sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru yn well. Nododd y gallai'r Bil annog mwy o gyfle cyfartal, ond awgrymodd nad oedd anogaeth o'r fath yn un o effeithiau'r Bil nac yn un o'r pethau y mae rhaid rhoi sylw iddynt o dan adran 108A o Ddeddf 2006. Daeth i'r casgliad, er y byddai anogaeth o'r fath yn ganlyniad i'r Bil, y byddai'n ganlyniad sydd, yn ei farn ef, yn rhy lac i fod yn sail i ddod i'r casgliad bod y Bil yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal a'i fod felly y tu allan i gymhwysedd.⁴¹¹

⁴⁰⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 13 Mawrth 2024

⁴¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraffau 24 a 25], 29 Ebrill 2024

⁴¹¹ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

350. Dywedodd yr Athro Emyr Lewis wrthym ei fod o'r farn bod y Bil yn "amlwg... yn cael effaith ar atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw" ond mai mater i'r llysoedd yw penderfynu "a yw'r cysylltiad hwnnw ar ei ben ei hun yn golygu bod y Bil 'yn ymwneud â' chyfle cyfartal, yn hytrach na bod ganddo yn unig 'gysylltiad rhydd neu ganlyniadol' â chyfle cyfartal".⁴¹²

351. Daeth Keith Bush CB, sef Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad ar y pryd rhwng 2007 a 2012, ac Elisabeth Jones ill dau i'r casgliad bod darpariaethau'r Bil yn ymwneud â chyfle cyfartal, ac felly eu bod y tu allan i gymhwysedd. Nododd Keith Bush, er mai sicrhau cydbwysedd gwell o ran rhywedd yn y Senedd yw diben cyffredinol y Bil o bosibl, ei fod yn ceisio gwneud hyn drwy fynd i'r afael â'r duedd yn y broses o ddethol ymgeiswyr. Yn ei farn ef, mae hyn yn golygu bod dibenion y Bil yn cynnwys atal gwahaniaethu yn erbyn menywod yn y prosesau hynny, gan ychwanegu bod y diben hwnnw yn ymwneud yn llwyr â chyfle cyfartal, sy'n fater a gedwir yn ôl.⁴¹³ Dywedodd Elisabeth Jones mai effaith darpariaethau'r Bil yw sicrhau, yn gyffredinol, mai menywod yw o leiaf 50 y cant o'r ymgeiswyr a gyflwynir ar gyfer etholiadau'r Senedd gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig a rhoi cyfle cryf i ymgeiswyr sy'n fenywod gael eu hethol. Yn ei barn hi, felly:

"[...] the Gender Quota provisions have the effect of regulating discrimination between persons on the grounds of sex. And they have the intended effect of preventing or eliminating discrimination between persons on the grounds of sex, in the context of selection of candidates for the Senedd. So their effect is squarely on the terrain of the reserved matter of Equal Opportunities, as defined in paragraph 187 of Schedule 7A to GOWA".⁴¹⁴

352. O ystyried yr effaith fel y'i hamlinellir yn ei thystiolaeth, ychwanegodd Elisabeth Jones ei bod yn hynod anodd deall sut y gellir dweud mai dim ond 'cysylltiad llac neu ganlyniadol' sydd gan ddiben y Bil â mater a gedwir yn ôl. Aeth ymlaen i ddweud bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i wahanu'r darpariaethau cwota oddi wrth weddill y diwygiadau yn ffactor wrth iddi ddod i'r casgliad bod y Bil y tu allan i gymhwysedd:

⁴¹² SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis

⁴¹³ SCECLB1-P Keith Bush CB (Saesneg yn unig)

⁴¹⁴ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

“It seems to me that this points to the Gender Quota provisions having a distinct, although genuinely connected, purpose from the rest of the measures intended to make the Senedd more effective”.⁴¹⁵

353. Comisiynodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac ERS Cymru gyngor cyfreithiol yn 2022 ar egwyddor a allai deddfwriaeth i weithredu cwotâu ymgeiswyr fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cafodd y cyngor, y mae'r sefydliadau wedi'i rannu â ni, ei baratoi o reidrwydd yn absenoldeb unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol penodol, er ei fod yn trafod y cynigion a'r dystiolaeth a nodwyd gan y Panel Arbenigol yn ei adroddiad yn 2017. Daeth y cyngor i'r casgliad y gellid dadlau y byddai cyflwyno trefniadau dethol gorfodol, gan gynnwys cwotâu rhywedd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol am y rhesymau a ganlyn:

- Lluniwyd y cynigion a nodwyd gan y Panel Arbenigol â'r nod o sicrhau bod y Senedd mor gynrychioliadol â phosibl o boblogaeth Cymru, yn hytrach na chreu cyfle cyfartal. Dywedodd y gellid dadlau felly y byddai diben deddfwriaeth o'r fath yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd, ac nid y mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal.
- Roedd y cyngor yn awgrymu y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth sy'n ategu neu'n cynnig darpariaeth ychwanegol fel arall ac sy'n gosod gofyniad i weithredu nad yw wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd y gellid dadlau felly y byddai diben deddfwriaeth o'r fath yn dod o fewn yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal.⁴¹⁶

354. Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wrthym ar 24 Ebrill 2024 ei fod yn aros am gyngor cyfreithiol wedi'i ddiweddarau.⁴¹⁷

Cydnabod rhywedd

355. Nododd yr Aelod sy'n gyfrifol yn glir nad yw'r Bil yn ymwneud â'r broses o gydnabod rhywedd. Mewn gwledydd eraill sydd wedi mabwysiadu cwotâu

⁴¹⁵ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴¹⁶ SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig). Nodwn fod y cyngor yn cyfeirio at ddyfarniad y Goruchaf Lys mewn perthynas â'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru), a wnaed o dan y model datganoli blaenorol o roi pwerau yn hytrach na'r model presennol o gadw pwerau.

⁴¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 107], 24 Ebrill 2024

ymgeiswyr, gan gynnwys lwerddon, dywedodd fod datgan rhywedd yn rhan o'r broses etholiadol. Ychwanegodd:

"It is not about a definition; gender recognition is reserved. The purpose of the gender statement—and that is what it is, it's a gender statement—is solely for compliance with the vertical and horizontal rules for the candidate list. It has no further applications".⁴¹⁸

356. Roedd Thomas Glyn Watkin yn cytuno nad yw adran newydd 7D(2) (i'w mewnosod gan adran 1 o'r Bil) yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl o ran cydnabod rhywedd. Fodd bynnag, nododd y gallai trafferthion godi o ran cymhwysedd mewn cysylltiad â'r mater hwn pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn Cynnal Etholiadau:

"Questions may arise, for instance, if a nominee believes that someone preferred to them in constructing a list does not fit their description of themselves in their gender statement. The Data Protection Impact Assessment recognizes that the order of candidates on a party list may on occasion make it possible to ascertain what they have stated with regard to their being a woman or not (EM, ¶1230), and the Justice System Impact Identification Assessment notes the likely increase in 'the potential circumstances which might give rise to grounds for applying to the courts' (EM, ¶1237). Such questions, particularly if raised at a late stage, could be seriously disruptive of the electoral process".⁴¹⁹

Addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl

Prawf

357. Bydd darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol os yw'n addasu, neu'n rhoi'r pŵer i addasu, y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, gall Deddf gan y Senedd addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl os yw'r addasiad yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ar yr amod na chaiff yr addasiad ddim mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sydd ei

⁴¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 13 Mawrth 2024

⁴¹⁹ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin KC (Saesneg yn unig)

hangen i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth honno (h.y. y ddarpariaeth y mae'r addasiad yn ategol iddi).

358. Mae adran 108A(7) yn darparu bod darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd yn 'ategol' ("*ancillary*") os yw'n darparu ar gyfer gorfodi darpariaeth arall, neu os yw'n briodol fel arall ar gyfer gwneud y ddarpariaeth honno'n effeithiol, neu os yw'n gysylltiedig fel arall â'r ddarpariaeth honno neu'n ganlyniadol fel arall iddi. Mae achosion fel achos Bil Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (yr Alban) yn awgrymu y gallai'r dehongliad eang o'r gair 'addasu' a gymerwyd gan y Goruchaf Lys olygu bod ei ddyfarniadau yn cymryd ymagwedd gaeth wrth asesu'r ffiniau o ran cymhwysedd datganoledig.

Adran 104 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

359. Mae adran 104 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi pleidiau gwleidyddol i fabwysiadu trefniadau dethol gwahaniaethol o'u gwirfodd i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn eu prosesau dethol ymgeiswyr. Gall trefniadau o'r fath gynnwys rhestrau byr un rhyw ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiad. Fodd bynnag, rhaid sicrhau mai diben unrhyw drefniadau un rhyw yw lleihau anghydraddoldeb yng nghynrychiolaeth y blaid yn y corff etholedig dan sylw. Felly, os na fydd cynrychiolaeth plaid yn anghydradd, ni all y blaid wleidyddol honno ddibynnu ar adran 104 i ddethol rhestrau byr un rhyw. O dan amgylchiadau o'r fath, mae perygl y byddai'r weithred fwriadol o ddethol rhestrau byr un rhyw yn gyfystyr â gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai adran 104 yn parhau i fod yn gymwys i bleidiau gwleidyddol pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith.

360. Yn ei llythyr dyddiedig 11 Mawrth 2024, nododd y Llywydd fod y Bil, yn ei barn hi, yn addasu adran 104. Dywedodd, er bod adran 104 yn caniatáu i bleidiau gwleidyddol fynd i'r afael â thangynrychiolaeth drwy fabwysiadu arferion dethol gwahaniaethol o'u gwirfodd yn eu prosesau dethol ymgeiswyr, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Ar y llaw arall, mae'r Bil yn rhoi gofynion ar bleidiau gwleidyddol mewn cysylltiad â dethol ymgeiswyr. Ar ôl ystyried esboniad y Goruchaf Lys o ystyr 'addasu'⁴²⁰ a'r eithriad 'ategol' ym mharagraff 2 o Atodlen 7B, daeth i'r casgliad a ganlyn:

⁴²⁰ BIL YMADAWIAD Y DU Â'R UNDEB EWROPEAIDD (PARHAD CYFREITHIOL) (YR ALBAN) - Cyfeiriad gan y Twrnai Cyffredinol ac Adfocad Cyffredinol yr Alban (yr Alban) [2018] UKSC 64, paragraff 51 (Saesneg yn unig)

“Yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd, yn fy marn i, mae'r Bil i bob pwrpas yn troi'r pŵer gwirfoddol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn adran 104 yn ddyletswydd i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

*Rwyf wedi dod i'r casgliad bod newid o'r fath yn gyfystyr ag addasiad i adran 104. Er nad yw'r Bil yn Diwygio testun adran 104, mae'r Bil yn gwrthdaro ag adran 104, sy'n addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl”.*⁴²¹

361. Amlinellodd Elisabeth Jones safbwynt tebyg. Esboniodd⁴²² fod y Goruchaf Lys wedi canfod yn flaenorol y gallai fod addasiadau i'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl:

*“[...] if the later enactment alters a rule laid down in the protected enactment, or is otherwise in conflict with its unqualified continuation in force as before, so that the protected enactment has to be understood as having been in substance amended, superseded, disapplied or repealed by the later one”.*⁴²³

362. Gan fyfyrto ar y dehongliad hwn o 'addasiadau', dywedodd Elisabeth Jones wrthym fod adran 104 yn caniatáu i bleidiau gwleidyddol wahaniaethu'n gadarnhaol o'u gwirfodd o ran eu trefniadau dethol ar sail rhyw, tra bo'r Bil yn ei gwneud yn orfodol i bleidiau gwleidyddol wahaniaethu o blaid menywod. Bydd plaid wleidyddol nad yw'n cydymffurfio â gofynion y Bil o reidrwydd yn torri'r gyfraith. Yn ei barn hi, mae hyn yn gyfystyr ag addasiad o adran 104.⁴²⁴

363. Dywedodd cyfreithiwr yr Aelod sy'n gyfrifol ar 13 Mawrth 2024 nad oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y Bil yn torri'r cyfyngiad ar addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl.⁴²⁵ Ar 1 Mai 2024, esboniodd:

⁴²¹ Llythyr oddi wrth y Llywydd, 11 Mawrth 2024

⁴²² SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴²³ BIL YMADAWIAD Y DU Â'R UNDEB EWROPEAIDD (PARHAD CYFREITHIOL) (YR ALBAN) - Cyfeiriad gan y Twrnai Cyffredinol ac Adfocad Cyffredinol yr Alban (yr Alban) [2018] UKSC 64, paragraff 51 (Saesneg yn unig)

⁴²⁴ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 13 Mawrth 2024

"[...] our general view is that we don't modify the law on reserved matters, but, to any extent that we did, it would be justified because it would [be] ancillary to the devolved purpose".⁴²⁶

364. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, cyfeiriodd yr Aelod sy'n gyfrifol at y pwynt hwn:

"I think that's important, just to recognise that [the Bill] is very much part of a package of all the reforms in terms of Senedd reform, including, of course, our Senedd Cymru (Members and Elections) Bill [...]. It has the purpose of making the Senedd more effective for and on behalf of the people of Wales.

Now, clearly, any effects on equal opportunities in terms of that purpose, general purpose, are incidental. They're the means to the end of a more effective Senedd, not an end in itself. So, I don't consider the Bill breaches restriction on modifying the law on reserved matters, and I think it's important that we look at this in terms of that clear understanding that it doesn't breach the restriction, and also the fact that we do believe that the Bill would operate separately from but alongside section 104 of the Equality Act, and generally does not prevent that section from continuing in force without conflict".⁴²⁷

365. Daeth Thomas Glyn Watkin i'r un casgliad nad oedd y Bil yn addasu adran 104 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar y sail fod y Bil yn ychwanegu at adran 104 yn hytrach na'i disodli, gan mai diben adran 104 yw eithrio pleidiau gwleidyddol rhag darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud trefniadau dethol gyda'r bwriad o leihau anghydraddoldeb.⁴²⁸ Canfu Keith Bush hefyd nad yw darpariaethau'r Bil yn anghyson ag adran 104⁴²⁹, a daeth y cyngor cyfreithiol a gomisiynwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac ERS Cymru i'r casgliad y gallai Bil sy'n gweithredu cwotâu ymgeiswyr ychwanegu at adran 104 yn hytrach na'i haddasu, neu y gellid ystyried ei fod yn ategol.⁴³⁰

⁴²⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 207], 1 Mai 2024

⁴²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraffau 18-19], 29 Ebrill 2024

⁴²⁸ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

⁴²⁹ SCECLB1-P Keith Bush CB (Saesneg yn unig)

⁴³⁰ SCECLB2-P Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

366. Ni ddaeth yr Athro Lewis i gasgliad pendant ynghylch a oedd y Bil o fewn cymhwysedd neu y tu allan iddo ar sail addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl. Roedd yn cytuno nad yw'r Bil yn anghydnaws ag adran 104. Ond, nododd fod y Bil yn cael yr effaith o gael gwared ar yr asesiad gwrthrychol o ddiben a chymesuredd a gynhwysir yn yr adran honno, a dywedodd fod hyn, yn ei farn ef, yn golygu y byddai adran 104 yn parhau mewn grym mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd ac yn gyfystyr ag addasiad o adran 104. Fodd bynnag, awgrymodd, pe bai rhywun yn dadlau nad yw'r Bil yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal, gallai'r addasiad o adran 104 fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ar y sail ei fod yn addasiad ategol nad yw'n cael dim mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y Bil.⁴³¹

Hawliau dynol

Prawf

367. Er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd, rhaid i bob darpariaeth fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

368. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried a oedd darpariaethau'r Bil yn gydnaws â hawliau dynol, yn benodol:

"[...] article 8, the right to privacy; article 3 of protocol 1, the right to stand for election; and, in conjunction with those articles, article 14, the non-discrimination and the enjoyment of convention rights".⁴³²

Erthygl 3 o Brotool 1 (etholiadau rhydd a theg) ac Erthygl 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu)

369. Mae Erthygl 3 o Brotool 1 yn darparu ar gyfer etholiadau rhydd a theg. Drwy reoleiddio'r broses o gyflwyno rhestrau ymgeiswyr, gellid ystyried bod y Bil yn ymyryd ag etholiadau rhydd. Esboniodd yr Athro Lewis nad yw hawliau Erthygl 3 yn hawliau absoliwt. Yn hytrach, maent yn hawliau amodol a rhoddir cwmpas disgresiwn eang i wladwriaethau o ran yr amodau y gellir eu cymhwyso. Ychwanegodd, er mwyn i'r gwahaniaethu ar sail rhyw sy'n ofynnol o dan y Bil

⁴³¹ SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis

⁴³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 90], 29 Ebrill 2024

gydymffurfio ag Erthygl 3 o Brotocol 1, fod rhaid cael cyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol.⁴³³

370. Fel y nododd Elisabeth Jones, mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi canfod yn flaenorol fod cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn nod dilys y gellir ei ddefnyddio i gyfiawnhau trefniadau etholiadol a threfniadau dethol penodol.⁴³⁴ Er enghraifft, yn achos Zevnik yn erbyn Slofenia⁴³⁵, dywedodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn un o brif nodau aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop erbyn heddiw, a bod ei sefydliadau'n ystyried bod diffyg cydbwysedd o ran rhywedd mewn gwleidyddiaeth yn fygythiad i ddilysrwydd democratiaeth ac yn groes i'r hawl i gydraddoldeb o ran rhywedd. Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod cwotâu rhywedd statudol Slofenia yn gydnaws â'r nod dilys o gryfhau dilysrwydd democratiaeth drwy sicrhau cyfranogiad mwy cytbwys gan fenywod a dynion yn y gwaith o wneud penderfyniadau gwleidyddol. Daeth Elisabeth Jones i'r casgliad nad oedd y Bil yn anghydnaws ag Erthygl 3 o Brotocol 1.⁴³⁶

371. Gan amlinellu ei safbwynt i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y Bil yn gydnaws ag Erthygl 3 o Brotocol 1, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Nothing in the Bill prevents a person from standing. And I think that's crucial. The impact assessment recognises this. And I think, if you look at this, for example, in terms of article 14 [protection against discrimination], the rules may result in people who would have stood not being selected, or it may affect the likelihood of their being elected. As I've said, the conclusion of our assessment is that any interference with this right or any of the rights can be objectively justified.

And I think that's, as you say, bringing the interaction of those two articles together, because the impact on people's rights and parties' rights to stand is not restricted beyond that which is necessary to safeguard a proportion of the more favourable list positions for women, with a view to achieving that legitimate aim of a more

⁴³³ SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis

⁴³⁴ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴³⁵ Zevnik yn erbyn Slofenia 54893/18 (Saesneg yn unig)

⁴³⁶ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

effective Senedd by having a more representative gender make-up of the Welsh population".⁴³⁷

Erthygl 8 (parch at fywyd preifat a theuluol)

372. Mae Erthygl 8 yn diogelu'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Hawl amodol yw hon hefyd, nid hawl absoliwt, ac felly gellir ymyrryd â hi, ar yr amod bod cyfiawnhad dros wneud hynny. Daeth Elisabeth Jones i'r casgliad nad yw'r Bil yn anghydnaws ag Erthygl 8, ond pwysleisiodd, pe bai'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch datganiadau ymgeiswyr, y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i gydnawsedd ag Erthygl 8.⁴³⁸

373. Gan gydnabod yr angen i ystyried cydnawsedd â hawliau dynol wrth ddatblygu'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

"So, the impacts and potential mitigations to address them, of course we'll consider as we progress through subordinate legislation, as that's developed. But I think the key point really is that the rules in the Bill are clear, the consequences will be foreseeable and proportionate to the legitimate aim of a more representative Senedd, and we also believe that the proposals for the subordinate legislation are objectively justified".⁴³⁹

Goblygiadau ansicrwydd

374. Fel y trafodwyd uchod, mae safbwyntiau gwahanol ynghylch a yw'r darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi nodi'n glir ei bod o'r farn bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Llywydd wedi nodi yr un mor glir nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd yn ei barn hi. Mae'r arbenigwyr cyfreithiol sydd wedi ystyried y Bil fel y'i cyflwynwyd a chyfrannu at ein gwaith wedi dod i gasgliadau amrywiol:

- Nododd Thomas Glyn Watkin fod ffin denau rhwng y dadleuon ar y ddwy ochr ac y byddai'n rhaid bod yn eithaf dewr, felly, i ragweld beth

⁴³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraffau 92-93], 29 Ebrill 2024

⁴³⁸ SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 90], 29 Ebrill 2024

fyddai canlyniad cyfeiriad i'r Goruchaf Lys. Daeth i'r casgliad yn y pen draw fod y Bil, ar y cyfan, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yn ei farn ef, ond ychwanegodd fod ffin denau iawn rhwng y dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn ac y byddai'n ffôl iddo ddweud ei fod yn gwbl hyderus am ei gasgliadau.⁴⁴⁰

- Daeth Keith Bush i'r casgliad nad oedd y Bil yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, ond y byddai y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd serch hynny, gan fod y darpariaethau'n ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal.⁴⁴¹
- Daeth Elisabeth Jones i'r casgliad bod y Bil yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ac yn ymwneud, at ei gilydd, â mater a gedwir yn ôl. Daeth i'r casgliad hefyd, o ran adran 154 o Ddeddf 2006 (sy'n darparu bod rhaid darllen darpariaethau Bil gan y Senedd mor gul ag sy'n ofynnol er mwyn iddynt fod o fewn cymhwysedd os yw darlleniad o'r fath yn bosibl), nad yw'n gymwys at ddibenion y Bil gan nad yw'r materion sy'n ymwneud â chymhwysedd yn deillio o ba mor eang neu gul yw'r darlleniad o'r darpariaethau o ran cwotâu.⁴⁴²

375. Yn wahanol i'r arbenigwyr cyfreithiol eraill, ni chynigiodd yr Athro Lewis gasgliad ynghylch a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ai peidio. Yn lle hynny, nododd fod dwy ffordd bosibl o symud y "maen tramgwydd" rhwng y Llywydd a'r Aelod sy'n gyfrifol:

- Bod y Senedd yn "derbyn y pŵer i basio'r Bil, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor" yn unol ag adran 109(1) o Ddeddf 2006 neu drwy Ddeddf Senedd y DU.
- Penderfyniad gan y Goruchaf Lys yn dilyn cyfeiriad o dan Ddeddf 2006.⁴⁴³

376. Dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym na fu unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁴⁴⁴ Mewn llythyr dyddiedig 10 Mai 2024, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

⁴⁴⁰ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

⁴⁴¹ SCECLB1-P Keith Bush CB (Saesneg yn unig)

⁴⁴² SCECLB35-P Elisabeth Jones (Saesneg yn unig)

⁴⁴³ SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis

⁴⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 13 Mawrth 2024

“Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ni fu unrhyw ymgysylltiad penodol â Swyddfa Cymru wrth ddatblygu'r deddfwriaeth. O ystyried fy marn i fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel y mae'n ymwneud â'r Senedd ac etholiadau'r Senedd, a chan nad yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen am unrhyw gydsyniad Gweinidog y Goron mewn perthynas ag ef, ni ystyriwyd bod angen ymgysylltu â Swyddfa Cymru yn ystod datblygiad y Bil. Mae hyn yn unol â'r ymarfer arferol ar gyfer Biliau'r Llywodraeth”.⁴⁴⁵

Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 109

377. Mae Adran 109 o Ddeddf 2006 yn darparu y caiff Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddiwygio Atodlenni 7A neu 7B o Ddeddf 2006, ac addasu unrhyw ddarnau eraill o deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth yr ystyrir eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wneir yn y Gorchymyn.

378. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd wedi ystyried gofyn am Orchymyn o dan adran 109 i wneud y sefyllfa'n gliriach o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chwotâu ymgeiswyr, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yn ei barn hi.⁴⁴⁶

Cyfeiriad i'r Goruchaf Lys

379. Pan fydd Bil yn cael ei basio gan y Senedd yng Nghyfnod 4 o'r broses deddfwriaethol, mae cyfnod o bedair wythnos yn dechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Deddf 2006 yn darparu y caiff Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru a Thwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU, yn unol ag adran 112, gyfeirio'r cwestiwn ynghylch a fyddai'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r Goruchaf Lys am benderfyniad

380. Yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin 2023, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno darpariaethau ynghylch cwotâu ymgeiswyr mewn Bil ar wahân:

⁴⁴⁵ Llythyr oddi wrth yr Aelod sy'n gyfrifol, 10 Mai 2024 [gweler y llythyr atodedig]

⁴⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraffau 80, 82 a 84], 29 Ebrill 2024

“O ran diwygio'r Senedd, roedd hynny'n destun trafodaethau manwl rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru, a'r cyngor a gawsom ni oedd y dylem ni ddod o hyd i ffordd o ymdrin ag unrhyw wendidau i sicrhau y gall y prif Fil fod yno a'i weithredu yn llwyddiannus ar gyfer etholiad 2026, ac y dylem ni ganfod ffordd o ymdrin ag unrhyw wendidau a allai fod a fyddai'n herio'r agwedd o ran cwotâu rhywedd. Rydym ni'n hyderus fod ganddom y cwmpas cyfreithiol yma yng Nghymru i ddeddfu yn y maes hwn, ac fe fyddwn ni'n cyflwyno Bil gyda ffydd yn y sail yr ydym ni'n gwneud hynny arni. Ond mae hwn yn faes lle gallai safbwyntiau eraill fod yn bosibl, a lle gellid wynebu her. I sicrhau nad yw'r prif ddiwygiadau yn agored i her, rydym ni wedi rhannu'r ddwy agwedd”.⁴⁴⁷

381. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ar 13 Mawrth 2024 nad craffu Cyfnod 1 oedd yr amser i drafod y potensial i'r Bil gael ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys.⁴⁴⁸ Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 1 Mai 2024, dywedodd:

“[...] the scrutiny process has revealed a range of opinions on legislative competence, and we have to be mindful of the possibility of a challenge. But, obviously, it remains the case it is only the Attorney-General or the Counsel General who can refer the Bill to the Supreme Court, and that has to be done at a time after a Bill has been passed by the Senedd, when the final provisions of the Bill are settled. So, we don't need to speculate about what that view would be until the relevant time”.⁴⁴⁹

382. Pwysleisiodd swyddogion yr Aelod sy'n gyfrifol fod swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas ag adran 112 o Ddeddf 2006 yn cael eu harfer yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor y Cwnsler Cyffredinol ynghylch a fyddai'n cyfeirio'r Bil pe bai'n cael ei basio gan y Senedd.⁴⁵⁰

⁴⁴⁷ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 27 Mehefin 2023

⁴⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 13 Mawrth 2024

⁴⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 184], 1 Mai 2024

⁴⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 189 a 192], 1 Mai 2024

Gorchymyn yn gwahardd y Bil rhag cael ei gyflwyno ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol

383. Caiff Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn unol ag adran 114 o Ddeddf 2006, wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno'r Bil er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys.⁴⁵¹

384. Pan ofynnwyd iddi am bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weinidog wedi cyfnewid gohebiaeth. Ychwanegodd:

"It's only after a Bill is passed where the Secretary of State could exercise such a function. We can't speculate what his decision would be at the relevant time".⁴⁵²

385. Rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol gopiâu o'r ohebiaeth inni ar 10 Mai 2024. Yn llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol, dyddiedig 21 Mawrth 2024, dywedodd fod ganddo bryderon difrifol am benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil yr oedd y Llywydd wedi dweud ei fod y tu allan i gymhwysedd yn ei barn hi. Gan ofyn am gyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru at ddibenion egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil, ychwanegodd:

"Given that a key aspect of the role of Secretary of State for Wales is ensuring that legislation in both the UK Parliament and Senedd reflects the devolution boundary, I am therefore duty bound to express my grave concern that the Llywydd and the Welsh Government are not in agreement on this Bill".⁴⁵³

386. Wrth ymateb ar 22 Ebrill 2024, dywedodd y Prif Weinidog fod safbwynt Llywodraeth Cymru wedi'i nodi yn y Memorandwm, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wedi egluro'r safbwynt hwn yn ei datganiadau llafar ac ysgrifenedig.

⁴⁵¹ Y byddai darpariaeth/darpariaethau yn effeithio'n andwyol ar fater a gedwir yn ôl (114(1)(a)) neu weithrediad y gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr (114(1)(c)), neu y byddai'n anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol neu fuddiannau amddiffyn neu ddiogelwch gwladol (114(1)(d)).

⁴⁵² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 29 Ebrill 2024

⁴⁵³ [Llythyr oddi wrth yr Aelod sy'n gyfrifol](#), 10 Mai 2024 [gweler y llythyr atodedig]

Cytunodd i gyfarfod rhwng swyddogion ar adeg briodol yn y dyfodol, yn fuan ar ôl i'r Pwyllgorau gwblhau eu gwaith craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1.⁴⁵⁴

Her gyfreithiol ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol

387. Yn eu cyfraniadau i'n gwaith, ystyriodd yr Athro Lewis a Thomas Glyn Watkin beth fyddai'r goblygiadau posibl pe na bai'r ansicrwydd ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei ddatrys cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

388. Eglurodd Thomas Glyn Watkin y byddai unigolion yn gallu herio dilysrwydd y ddeddfwriaeth fel mater datganoli mewn trafodion o dan ddarpariaethau Atodlen 9 i Ddeddf 2006. Dywedodd fod achos cryf dros gael dyfarniad diffiniol ar ddilysrwydd darpariaethau'r Bil cyn iddo ddod yn ddeddf a chael ei weithredu, a hynny ar y sail a ganlyn:

"It is not difficult to imagine scenarios in which potential candidates or nominees disgruntled by the operation of the legislation would choose to wage such a challenge. It is not beyond imagining that the actions of parties opposed to Welsh devolution might lead to such challenges. The disruption to a Senedd General Election which such challenges might occasion cannot fail to be a cause of concern".⁴⁵⁵

389. Mynegodd yr Athro Lewis bryderon tebyg am yr hyn a ddisgrifiodd fel "risg sylweddol":

"Y perygl yw y gallai rhywun herio'r darpariaethau yn y llysoedd wedi i'r Bil ddod yn Ddeddf y Senedd (er enghraifft, drwy fod plaid wleidyddol sy'n dymuno cyflwyno rhestr fer o ddynion yn unig yn gwneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniad, gan y swyddog cydymffurfio enwebiadau cenedlaethol, i wrthod y rhestr honno). Byddai her o'r fath yn debygol o darfu'n ddifrifol ar etholiad nesaf y Senedd, boed yr her honno yn llwyddiannus ai peidio. Pe bai'r her yn llwyddo, byddai hynny'n golygu nad yw'r Bil (neu'r ddarpariaeth gafodd ei herio) 'yn gyfraith'. Byddai sgil-effaith dyfarniad o'r fath yn peryglu integriti yr etholiad ei hun a gallai fod yn niweidiol iawn i'r Senedd ac i ddemocratiaeth yng Nghymru".⁴⁵⁶

⁴⁵⁴ Llythyr oddi wrth yr Aelod sy'n gyfrifol, 10 Mai 2024 [gweler y llythyr atodedig]

⁴⁵⁵ SCECLB42-P Thomas Glyn Watkin CB (Saesneg yn unig)

⁴⁵⁶ SCECLB6-P Yr Athro Emyr Lewis

390. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol y potensial i unigolion gyflwyno her gyfreithiol, ond dywedodd y byddai'r risg o her o'r fath yn cael ei rheoli drwy ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Bil a'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.⁴⁵⁷

Ein barn ni

391. Nid yw bob amser yn hawdd asesu a yw darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio, ac rydym wedi clywed safbwyntiau gwahanol a gwrthgyferbyniol ynghylch p'un a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i basio'r Bil hwn ai peidio. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu eu harbenigedd ar y mater hwn. Rydym wedi ystyried eu safbwyntiau a'u dadansoddiadau yn ofalus ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gawsom gan yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Llywydd, a'r cyngor a gawsom gan ein cynghorwyr cyfreithiol ein hunain.

392. Mae'r Bil wedi'i gyfeirio atom er mwyn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1. Ein rôl ni yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, a thrwy hynny lywio penderfyniad y Senedd ynghylch a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 ai peidio. Nid ein rôl ni yw penderfynu a yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio, ond mae'n bosibl y daw Aelodau unigol i'w casgliadau eu hunain ar y pwynt hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor a gawsom. Y Goruchaf Lys yw'r unig gorff a all ateb yn bendant a yw darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Dim ond ar ôl i Fil gael ei basio y gellir ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys o ran y cwestiwn hwn.

393. Nid ein rôl ni ychwaith yw rhagnodi i ba raddau y dylai Aelodau o'r Senedd ystyried bod y diffyg consensws ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol yn ffactor perthnasol wrth i'r Senedd benderfynu a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 neu basio'r Bil yng Nghyfnod 4. Unwaith eto, bydd gan Aelodau unigol eu barn eu hunain ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, rydym i gyd yn poeni am y risgiau posibl a allai godi os na fydd yr ansicrwydd hwn yn cael ei ddatrys cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol a chael ei weithredu. Mae arbenigwyr cyfreithiol wedi rhybuddio y gallai heriau gan unigolion amharu ar hwylustod etholiad y Senedd yn 2026 neu arwain at beryglu ei ddilysrwydd neu'r canfyddiad o'i ddilysrwydd. Rydym yn cydnabod barn Llywodraeth Cymru y gallai pob darn o ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth fod yn destun her gyfreithiol.⁴⁵⁸ Ond, pan fydd y risg o her yn amlwg ymlaen llaw, a phan allai'r

⁴⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 29 Ebrill 2024

⁴⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 29 Ebrill 2024

risgiau effeithio ar un o brif gonglfeini ein prosesau democrataidd, mae'n briodol cymryd camau i reoli ac i liniaru'r risgiau hyn.

Argymhelliad 17. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda'r Llywydd, y Comisiwn Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol i ddatblygu a chyhoeddi llwybr clir ar gyfer nodi, rheoli a liniaru unrhyw risgiau i'r broses o gynnal etholiad y Senedd yn 2026, a/neu i ganlyniadau'r etholiad hwnnw, a allai ddeillio o'r diffyg consensws ynghylch a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i basio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ai peidio. Rhaid cyhoeddi'r llwybr cyn y gofynnir i'r Senedd basio'r Bil yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol.

394. Cytunwn â'r Athro Lewis fod dau fecanwaith ar gyfer datrys yr ansicrwydd ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol:

- Eglurhad ar y mater drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf 2006 neu Ddeddf gan Senedd y DU.
- Penderfyniad gan y Goruchaf Lys yn dilyn cyfeiriad o dan adran 112 o Ddeddf 2006.

395. O ran y cyntaf o'r rhain, nodwn mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg consensws ar y mater hwn, rydym yn siomedig nad ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar y cwestiwn ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, ac na ddisgwylir i'r ymgysylltu y cytunodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol arno ddigwydd tan ar ôl i ni gwblhau ein gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

396. Nodwn y gallai amseriad etholiad cyffredinol y DU ar 4 Gorffennaf 2024 beri oedi pellach o ran unrhyw ymgysylltu, ac rydym yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol yn gryf i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad.

Argymhelliad 18. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, ar ôl cyfnod cyfredol etholiad cyffredinol y DU, drafod â Llywodraeth y DU y mecanweithiau ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth o ran y cwestiwn ynghylch a fyddai Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys unrhyw ddefnydd posibl o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu Ddeddf gan Senedd y DU gyda'r nod o osgoi trafodaeth gyfreithiol hir a sicrhau bod unrhyw ansicrwydd yn cael ei ddatrys cyn etholiad y Senedd yn 2026. Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol osod datganiad

gerbron y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn cyn y gofynnir i'r Senedd basio'r Bil yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol.

397. O ran yr ail fecanwaith a nodir uchod, nodwn fod Theodore Huckle CB, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, wedi cyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys yn 2013, er mwyn cael penderfyniad ynghylch a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mewn llythyr at Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, dywedodd:

"I am aware that bodies representing the insurance industry have consistently disputed the Assembly's competence to pass this Bill. I am of the view that this Bill is within the competence of this Assembly. I consider, however, it is appropriate in all the circumstances of this case, and in the public interest, to have the issue of the competence of this Bill clearly resolved before the Bill comes into force. I have therefore decided to make a reference to the Supreme Court to ensure this matter is put beyond doubt".⁴⁵⁹

Argymhelliad 19. Os bydd y Senedd yn pasio Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfwriaethol, yna er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch a fyddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol arfer ei bŵer o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyfeirio'r Bil i'r Goruchaf Lys a gofyn i'r mater gael ei ystyried, os yn bosibl, o fewn amserlen gyflym na fyddai, pe ceid bod y Bil o fewn cymhwysedd, yn atal cwotâu ymgeiswyr rhag cael eu gweithredu ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.

⁴⁵⁹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol at Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, 11 Rhagfyr 2013 (Saesneg yn unig)

9. Mynd i'r afael â rhwystrau: dull 'mwy na chwotâu'

Dull 'mwy na chwotâu'

398. Mae ein gwaith craffu wedi canolbwyntio ar y Bil, a'r cwotâu ymgeiswyr y byddai'n eu cyflwyno. Ond, un o brif themâu'r dystiolaeth yw na fyddai cwotâu yn unig yn ddigon i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu menywod a all fod yn ystyried cynnig eu hunain ar gyfer eu dethol neu eu hethol, neu aros mewn swyddi etholedig. Rhybuddiodd y rhai nad oeddent yn cefnogi cwotâu y gallai cwotâu leihau'r ffocws ar fentrau a pholisïau, megis rhannu swydd a chyfnod mamolaeth a ariennir, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi menywod a goresgyn y rhwystrau y maent yn eu hwynebu.⁴⁶⁰ Roedd consensws ynghylch yr angen am gamau ategol, anneddfwriaethol i fynd i'r afael â'r rhwystrau y gall menywod eu hwynebu.⁴⁶¹ Disgrifiodd yr Athro McAllister a'r Athro Childs hyn fel dull sy'n ymwneud â mwy na chwotâu⁴⁶² h.y. dull cyfunol o gwotâu a mesurau ychwanegol i wella cynrychiolaeth menywod.

Menywod fel grŵp amrywiol

Amrywiaeth menywod

399. Nid yw menywod yn grŵp homogenaidd, ac roedd rhai cyfranwyr yn amau a fyddai'r Bil o reidrwydd yn arwain at ddethol ymgeiswyr benywaidd o ystod amrywiol o gefndiroedd. Rhybuddiodd cyfranwyr gan gynnwys 5050Amrywiol, Dr Jenichen, Rhwydwaith Hawliau Menywod a Merched Cymru y gallai methu â chydabod a mynd i'r afael â ffactorau a rhwystrau cymdeithasol ehangach olygu bod y Bil o fudd i fenywod sydd eisoes mewn swyddi mwy breintiedig neu a all fod yn llai tebygol o wynebu rhwystrau i'w dethol neu eu hethol, a gwneud llai i gefnogi menywod o gymunedau ymylol neu nad ydynt eisoes yn ymwneud â'r byd gwleidyddol.⁴⁶³

⁴⁶⁰ SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig)

⁴⁶¹ Er enghraifft: SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB17-P Cynulliad Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECL28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig), SCECL36-P Welsh Women Speak Out (Saesneg yn unig)

⁴⁶² Cofnod y Trafodion [paragraffau 50 a 104], 18 Ebrill 2024

⁴⁶³ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB7-P Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (Saesneg yn unig), SCECLB22-P Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB25-P Dr Anne Jenichen, Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Aston (Saesneg yn unig)

400. Wrth gytuno bod angen cymorth ar fenywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol, menywod sy'n nodi eu bod yn anabl, menywod o bob cefndir⁴⁶⁴ i gynnig eu hunain, dywedodd Tîm Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru ('EYST Cymru') ei fod yn hyderus y byddai'r Bil yn arwain at fwy o gynrychiolaeth i fenywod o gymunedau ethnig leiafrifol:

"[...] it's not like we're drawing a line, 'This is it and this is the Bill, and it's only the white-background women who are going to come forward or who can come forward'; this is for all women".⁴⁶⁵

401. Disgrifiodd Race Council Cymru y Bil fel catalydd ar gyfer dull mwy na chwotâu a allai gydnabod menywod yn eu holl amrywiaeth:

"If we take an intersectional approach to this, I think we can go a really long way, and that's not just women, that's not just ethnic minority women, but women with disabilities, women with neurodiverse conditions and so on".⁴⁶⁶

402. Dywedodd yr Athro Childs wrthym y byddai'n fwy amlwg mewn system etholiadol rhestr nag o dan system y cyntaf i'r felin pe na bai'r pleidiau'n cyflwyno mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr.⁴⁶⁷ Cytunodd Dr Jenichen y gall chwotâu rhywedd neu ryw fod o fudd i fenywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol, ond rhybuddiodd y gall pleidiau, yn absenoldeb mesurau ffurfiol neu anffurfiol ategol, ystyried bod ymgeiswyr o'r fath yn ticio dau flwch, gan adael mwy o leoedd i ddynion gwyn.⁴⁶⁸

403. Pwysleisiodd cyfranwyr eraill hefyd yr angen am fesurau ychwanegol i gynyddu amrywiaeth ar gyfer grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl anabl, pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol a phobl LHDTC+.⁴⁶⁹

⁴⁶⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 124], 24 Ebrill 2024

⁴⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 24 Ebrill 2024

⁴⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 24 Ebrill 2024

⁴⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 18 Ebrill 2024

⁴⁶⁸ SCECLB25-P Dr Anne Jenichen, Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Aston (Saesneg yn unig)

⁴⁶⁹ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig)

Cwotâu amrywiaeth

404. Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y dylid gwneud rhagor o waith i ymchwilio i gwotâu ar sail nodweddion gwarchoddedig eraill.⁴⁷⁰ Nododd 5050Amrywiol nad yw'r gwaith hwn wedi'i wneud.⁴⁷¹

405. Dywedodd Race Council Cymru wrthym fod cwotâu rhyngwladol yn aml yn canolbwyntio ar un grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol, megis menywod neu bobl o leiafrifoedd ethnig. Galwodd am gwotâu sydd wedi'u hymgorffori'n groestoriadol neu ar ffurf cwotâu wedi'u nythu.⁴⁷² Cytunodd yr Athro Kenny a Dr Gomes y gellid ystyried ymchwilio i gwotâu croestoriadol.⁴⁷³ Dywedodd yr Athro Kenny y gallai'r rhain fod, er enghraifft, yn gwotâu 'tandem' wedi'u targedu at wahanol grwpiau (ond sy'n gweithredu'n annibynnol i raddau helaeth) neu'n gwotâu 'wedi'u nythu' lle y mae cyfran o'r seddi yn mynd i is-grŵp o aelodau wedi'u targedu (e.e. menywod o gefndir ethnig leiafrifol).⁴⁷⁴

406. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a ellid defnyddio fframwaith y Bil i ddarparu ar gyfer agweddau eraill ar amrywiaeth, er enghraifft i'w gwneud yn ofynnol i gyfran benodol o'r ymgeiswyr ar frig y rhestr fod â phrofiad bywyd o anabledd, neu ddod o gefndiroedd ethnig leiafrifol neu grwpiau ffydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, a dywedodd:

"There is less evidence across the world in terms of wider diversity quotas. We're learning from the evidence that is developing, but I think that if we can do the gender quotas and the diversity and inclusion guidance, and if that could be made statutory, then I think we'd be taking further steps than even the SPC report identified".⁴⁷⁵

⁴⁷⁰ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#), Medi 2020, argymhelliad 21

⁴⁷¹ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

⁴⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 24 Ebrill 2024

⁴⁷³ SCECLB14-P Meryl Kenny, Athro Rhywedd a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig), SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

⁴⁷⁴ SCECLB14-P Yr Athro Meryl Kenny, Athro Rhywedd a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

⁴⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 268], 13 Mawrth 2024

Y Senedd

Diwylliant cynhwysol, ffyrdd o weithio a chyfleusterau

407. Dywedodd Race Council Cymru wrthym:

"I think it's important that if you're invited to a party that you're also invited to dance at that party, which means that you cannot have diversity without inclusion".⁴⁷⁶

408. Clywsom fod ymchwil yn awgrymu y gall menywod sy'n cael eu hethol i seneddau y mae'r rhan fwyaf o'u haelodau yn ddynton wynebu cyfyngiadau o ran rhywedd yn eu gwaith deddfwriaethol, yn enwedig pan fyddant yn ceisio diwygio polisiau sy'n cynnal awdurdod traddodiadol gwrywaidd.⁴⁷⁷ Mae cynrychiolaeth menywod yn y Senedd wedi bod yn gymharol uchel, ond pwysleisiodd y rhai a gyfrannodd at ein gwaith bwysigrwydd sicrhau nad yw amodau gwaith a diwylliant y Senedd yn rhwystr i fenywod a allai fel arall sefyll mewn etholiad neu aros mewn swydd etholedig.⁴⁷⁸

409. Cytunodd yr Aelod sy'n gyfrifol â hyn, gan ychwanegu:

"[...] culture is also about how we treat each other, just in terms of our debate and scrutiny and work together. It's about women being in powerful positions within the Senedd. But, to do that, we need the support systems like childcare".⁴⁷⁹

410. Roedd consensws ynghylch pwysigrwydd y cyfleusterau a'r arferion gwaith cywir i adlewyrchu anghenion amrywiol menywod a sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Effaith oriau gwaith y Senedd ar Aelodau sy'n rhieni neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill. Awgrymwyd y byddai darparu creche yn ffordd syml o anfon neges bod croeso i rieni fod yn Aelodau.⁴⁸⁰

⁴⁷⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 24 Ebrill 2024

⁴⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 24 Ebrill 2024

⁴⁷⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 132], 24 Ebrill 2024

⁴⁷⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 1 Mai 2024

⁴⁸⁰ Er enghraifft: Cofnod y Trafodion [paragraff 202], 18 Ebrill 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 240], 24 Ebrill 2024

- Effaith diffyg cyfleusterau gweddïo addas ar Aelodau sy'n Fwslimiaid sy'n arfer eu crefydd.⁴⁸¹

411. Cytunodd yr Aelod sy'n gyfrifol na ddylai cyfleusterau'r Senedd greu rhwystrau, ond dywedodd mai mater i Gomisiwn y Senedd oedd hwn.⁴⁸²

412. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Llywydd wrthym:

- Bydd prosiect Tŷ Hywel 2026 yn canolbwyntio ar swyddfeydd ychwanegol i ddiwallu anghenion Aelodau a staff cymorth ychwanegol, Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, a staff Comisiwn y Senedd sy'n deillio o weithredu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Ymgynghorir â'r Aelodau ar eu hanghenion mewn ystod o ffyrdd, a bydd y prosiect yn ystyried addasiadau angenrheidiol os bydd Aelodau'n cyflwyno sylwadau i'r perwyl hwnnw.
- Bydd prosiect Bae Caerdydd 2032 yn nodi ac yn diwallu anghenion hirdymor ystad a llety'r Senedd, gan gynnwys ystyried ystod eang o gyfleusterau sydd eu hangen i gefnogi'r Senedd a'i Haelodau, o fewn y paramedrau ariannu y mae'r Senedd yn cytuno arnynt. Ar yr adeg briodol yn natblygiad y prosiect, bydd Comisiwn y Senedd yn ymgysylltu'n fanwl â grwpiau'r pleidiau i sicrhau bod anghenion yr Aelodau'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y cynlluniau ar gyfer unrhyw opsiwn arfaethedig ar gyfer llety yn y dyfodol.
- Fel rhan o'r gwaith i gwmpasu'r adolygiad sydd ei angen o'r Rheolau Sefydlog a'r canllawiau cysylltiedig i adlewyrchu deddfwriaeth diwygio'r Senedd, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried, ymhlith pethau eraill, a ddylid cynnwys materion fel trefnu busnes yn wahanol a/neu ystyried effaith unrhyw newidiadau gweithdrefnol sydd eisoes ar y gweill, neu newidiadau gweithdrefnol posibl, ar allu'r Senedd i ddenu ystod mor eang ac amrywiol o Aelodau â phosibl.
- Mae'r Senedd wedi cytuno i gadw trafodion hybrid, ac mae canllawiau ar gyfer cymryd rhan ar waith ac yn cael eu hadolygu'n barhaus.
- Mae Comisiwn y Senedd wedi rhoi ystod o dechnolegau ar waith i helpu i gael gwared ar rwystrau i gymryd rhan, ac mae'n ystyried manteision posibl deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae ystyried y technolegau

⁴⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 24 Ebrill 2024

⁴⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 1 Mai 2025

sy'n sail i Gyfarfodydd Llawn yn rhan o brosiect Siambr 2026, a fydd hefyd yn cael ei lywio gan asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.⁴⁸³

Archwiliad sy'n sensitif i rywedd

413. Mae rhai seneddau eraill wedi cynnal archwiliadau sy'n sensitif i rywedd (gan gynnwys Senedd y DU yn 2022⁴⁸⁴ a Senedd yr Alban yn 2023⁴⁸⁵).

414. Roedd cefnogaeth eang i gynnal archwiliad tebyg gan y Senedd, er bod ERS Cymru wedi rhybuddio na ddylai ohirio gwaith arall sy'n ystyried rhwystrau ac atebion—er enghraifft, cyflwyno cyfleoedd i rannu swyddi.⁴⁸⁶ Dywedwyd wrthym y byddai archwiliad yn nodi camau gweithredu a allai gael gwared ar rwystrau, yn arddangos i'r cyhoedd fod eisiau pobl o bob cefndir a chymuned a'u bod yn cael eu croesawu, ac y gallai annog menywod i sefyll ac aros mewn rolau gwleidyddol.⁴⁸⁷

415. Roedd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn gefnogol mewn egwyddor, ond dywedodd mai mater i Gomisiwn y Senedd ydoedd.⁴⁸⁸

Pleidiau gwleidyddol

Diwylliant, strwythurau a ffyrdd o weithio

416. Dywedwyd wrthym fod rhywiaeth a gwahaniaethu yn parhau o fewn diwylliannau, strwythurau a ffyrdd o weithio pleidiau gwleidyddol, gan ymddangos mewn meysydd fel amseriad ac 'amgylchedd gwrywaidd' cyfarfodydd, parhau i ofyn cwestiynau amhriodol am statws priodasol darpar ymgeiswyr, eu teuluoedd a a'u trefniadau gofal plant yn ystod prosesau dethol, a chanfyddiadau mai'r math cywir o ymgeisydd, yn ddiofyn, yw ymgeisydd sy'n wyn ac yn ddyn ac nad yw'n anabl.⁴⁸⁹

⁴⁸³ SCECLB40-P Y Llywydd

⁴⁸⁴ Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Tŷ'r Cyffredin, [Fifth report - Equality in the heart of democracy: A gender sensitive House of Commons](#), 2 Mawrth 2022 (Saesneg yn unig)

⁴⁸⁵ Senedd yr Alban, [A parliament for all: report of the Parliament's gender sensitive audit](#), Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

⁴⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 24 Ebrill 2024

⁴⁸⁷ Er enghraifft: Cofnod y Trafodion [paragraffau 157 a 203], 18 Ebrill 2024

⁴⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 1 Mai 2025

⁴⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 166], 18 Ebrill 2024

417. Gan sôn am enghraifft⁴⁹⁰ lle roedd plaid wleidyddol wedi methu â sicrhau bod menyw anabl wedi gallu cael mynediad i'r podiwm yr oedd disgwyl i ddarpar ymgeiswyr siarad ohono, ychwanegodd Cymdeithas Fawcett:

"[...] it is incumbent on parties, as the main vehicle for people accessing political office, to address that, and so instead of a focus on encouraging women to stand [...] we're also asking parties to stop discouraging women to stand".⁴⁹¹

418. Tynnodd Elect Her sylw at natur gyfyngol prosesau penderfynu, a'r heriau i aelodau mwy newydd ddod o hyd i wybodaeth am sut y mae'r blaid yn gweithio, dysgu am gyfleoedd, neu gael mynediad at rwydweithiau mewnol pleidiau.⁴⁹²

419. Wrth ystyried y cyfle a roddir yn sgil diwygio'r Senedd i ysgogi newid, dywedodd yr Athro Childs nad yw'r pleidiau wedi rhoi digon o sylw iddynt eu hunain eto nac wedi trawsnewid eu hunain i fod yn lleoedd y mae menywod yn teimlo eu bod yn gyfforddus ac yn agored i fenywod ac aelodau eraill o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn hanesyddol.⁴⁹³

420. Dywedodd cynrychiolwyr o Banel Pleidiau Senedd Cymru wrthym am eu prosesau dethol ymgeiswyr, a'r rolau y mae swyddfeydd canolog y pleidiau, gwirfoddolwyr ac aelodau'r pleidiau yn eu chwarae.⁴⁹⁴ Bu cadeirydd Cawcws Menywod y Senedd yn myfyrio ar y cynnydd a wnaed yn ei phlaid wleidyddol, gan gynnwys gwahardd cwestiynau mewn cyfweiliadau dethol ymgeiswyr ynghylch cael plant, mwy o gydnabyddiaeth o'r sgiliau a'r profiadau y gallai fod gan fenywod, ac ymestyn y tu hwnt i rwydweithiau sy'n cynnwys dynion yn bennaf yn draddodiadol.⁴⁹⁵

421. Anogodd yr Athro McAllister y pleidiau i ystyried eu prosesau, ac nid i ailadrodd y prosesau dethol sydd gennym eisoes ar gyfer dynion a menywod heb ddefnyddio cwotâu. Galwodd ar bleidiau i roi blaenoriaeth i sicrhau amrywiaeth ehangach drwy eu prosesau dethol:

"Because with a limited pool of candidates, even in a 96-seat Senedd, there's going to be choices to be made about candidates, and I'm

⁴⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 18 Ebrill 2024

⁴⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 166], 18 Ebrill 2024

⁴⁹² Cofnod y Trafodion [paragraff 162], 18 Ebrill 2024

⁴⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 98-99], 18 Ebrill 2024

⁴⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 285, 287-289 a 291], 18 Ebrill 2024

⁴⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 309-310], 24 Ebrill 2024

afraid that means there are winners and losers in that equation. But we do need to make sure that the women who come forward, and that we bring forward, are not just white women of the types that we've talked about already. There has to be more variety or we lose legitimacy and we lose credibility in the importance of the diversity element of this intervention".⁴⁹⁶

422. Dywedodd Llafur Cymru wrthym ei fod yn ymdrechu'n gyson i addasu a newid ei gweithdrefnau dethol, a rhoddodd yr enghraifft o wneud prosesau dethol yn fyrrach er mwyn lleihau costau i ymgeiswyr.⁴⁹⁷

Strategaethau Amrywiaeth a Chynhwysiant

423. Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd:

"Dylai pleidiau gwleidyddol sy'n ymladd etholiadau'r Senedd baratoi a chyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant sy'n asesu amrywiaeth a chynhwysiant eu diwylliant, eu prosesau, eu ffyrdd o weithio a'u cynrychiolaeth, a nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gynyddu amrywiaeth eu haelodaeth, ymgeiswyr ac Aelodau etholedig".⁴⁹⁸

424. Yn yr un modd, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd gynnwys darpariaethau sy'n annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi sut y mae wedi ceisio hwyluso amrywiaeth o ran ei hymgeiswyr, o leiaf chwe mis cyn etholiad y Senedd sydd wedi'i drefnu.⁴⁹⁹

425. Yn gyffredinol, roedd croeso mewn egwyddor i strategaethau o'r fath fel modd i sicrhau bod pob plaid yn perfformio i'r un safonau, creu atebolrwydd, a nodi pleidiau a oedd yn tanberfformio. Rhybuddiodd cyfranwyr, fodd bynnag, fod rhaid i strategaethau:

- Gael eu gweithredu, a chynnwys mesurau ystyrlon i sicrhau newid.⁵⁰⁰

⁴⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 108], 18 Ebrill 2024

⁴⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 356], 18 Ebrill 2024

⁴⁹⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, argymhelliad 19

⁴⁹⁹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, argymhelliad 16

⁵⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 194], 18 Ebrill 2024

- Cael eu teilwra i fynd i'r afael â'r amgylchiadau penodol o fewn pob plaid.⁵⁰¹
- Cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys deddfwriaeth ynghylch cydraddoldebau.⁵⁰²

426. Dywedodd pleidiau gwleidyddol wrthym eu bod eisoes yn datblygu ac yn cyhoeddi strategaethau:

- Cadarnhaodd Llafur Cymru ei barodrwydd i gyhoeddi ei strategaeth ei hun ar ôl ei chwblhau.⁵⁰³
- Roedd y Blaid Geidwadol wedi cyhoeddi strategaeth ar lefel y DU a dywedodd ei bod yn fodlon cyhoeddi strategaeth ar gyfer Cymru.⁵⁰⁴
- Roedd strategaeth Plaid Cymru yn cael ei datblygu, ac roedd disgwyl iddi gael ei chyhoeddi.⁵⁰⁵

427. Clywsom rai galwadau am i strategaethau fod yn ofyniad statudol.⁵⁰⁶

Dadleuodd Race Council Cymru na all strategaethau fod yn effeithiol o fewn amserlen resymol oni bai eu bod yn fandadol.⁵⁰⁷ Blaenoriaeth 5050 Amrywiol oedd sicrhau y gellid gweithredu cwotâu ymgeiswyr ochr yn ochr â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac awgrymodd:

"In order to not further stress the already tight timeline for this Bill, it is our view that a statutory requirement for political parties D&I strategies should be pursued alongside this Bill, not as a part of it".⁵⁰⁸

428. Wrth siarad am gyflwyno'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Fe fyddwn ni'n ceisio cyhoeddi canllawiau i annog y pleidiau gwleidyddol, sef amddiffynwyr pwysig cynrychiolaeth wleidyddol, i

⁵⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 24 Ebrill 2024

⁵⁰² Cofnod y Trafodion [paragraffau 254 a 256], 24 Ebrill 2024

⁵⁰³ SCECLB29-P Llafur Cymru (Saesneg yn unig)

⁵⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 324], 18 Ebrill 2024

⁵⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 326], 18 Ebrill 2024

⁵⁰⁶ SCECLB41-P Plaid Cymru (Saesneg yn unig)

⁵⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 146-147], 24 Ebrill 2024

⁵⁰⁸ [Cwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Amrywiol5050 yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 24 Ebrill.](#) (Saesneg yn unig).

gyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer etholiadau Cymru.⁵⁰⁹

429. Dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ar 1 Mai 2024 y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar ddatblygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant.⁵¹⁰ Mae'r gwelliant⁵¹¹, a gyflwynwyd ar 1 Mai 2024 ac a drafodwyd ac a dderbyniwyd⁵¹² gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 16 Mai 2024:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig ymdrin â datblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau ar gyfer “hybu amrywiaeth yn nodweddig penodedig ac amgylchiadau penodedig ymgeiswyr” a helpu ymgeiswyr i “oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan [...] sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod ganddynt y nodweddig neu'r amgylchiadau hynny”.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau cyntaf a ddyroddir gan Weinidogion Cymru gael eu cyhoeddi erbyn 1 Mai 2025, ac i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau a gyhoeddir ar adegau addas (gan ystyried cylchoedd etholiadol ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru).

Rhwysterau ariannol

Rhwysterau ariannol

430. Cododd llawer o gyfranwyr gyllid fel rhwystr a all gael effaith anghymesur ar rai menywod, gyda goblygiadau ar gyfer amrywiaeth menywod sy'n sefyll i'w dethol neu i'w hethol. Pwysleisiodd yr Athro McAllister bwysigrwydd mynd i'r afael â rhwystrau ariannol:

“[...] because when we talk about quotas, we often get criticised for presenting it as if it's the same type of women who will come through as men who are already there, and that's not the intent. We know

⁵⁰⁹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 128], 12 Mawrth 2024

⁵¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 1 Mai 2024

⁵¹¹ [Hysbysiad ynghylch Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#), 1 Mai 2024, Gwelliant 32

⁵¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion [paragraffau 234-257 a 346], 16 Mai 2024

that there is a lot of intersectionality that needs to be reflected through a quota approach on a sex basis, to ensure that it's not just middle-class women who are university educated, who are middle aged, who are white and so on, that we use it as a platform for ensuring that other women come through that system and, therefore, the diversity dividend is bigger".⁵¹³

431. Clywsom fod menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi, cael incwm is a bod â chyfrifoldebau gofal, ac yn syml na all llawer o fenywod fforddio sefyll mewn etholiad.⁵¹⁴ Roedd ymchwil Elect Her yn dangos bod menywod yn gwario hyd at £1,000 yn ystod ymgyrchoedd llywodraeth leol, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y byddai hyn yn uwch ar gyfer etholiadau'r Senedd o ganlyniad i gyfnodau etholiadol hirach ac etholaethau mwy. Ychwanegodd Elect Her na all pleidiau gwleidyddol gyfrannu at gostau yr ystyrir eu bod yn wariant personol yn hytrach na gwariant ymgyrchu, fel dillad ac esgidiau addas ar gyfer ymgyrchu, neu dechnoleg i'w defnyddio ar gyfer ymgyrchu digidol.⁵¹⁵ Clywsom hefyd am gostau sy'n ymwneud â diogelwch, fel costau cymryd tacsï os oedd menyw yn teimlo'n anniogel yn cerdded adref yn y nos ar ôl ymgyrchu.⁵¹⁶

432. At hynny, disgrifiwyd costau sy'n ymwneud â gofal plant a chyfrifoldebau gofal fel mater nad yw'n cael ei drafod mewn perthynas ag ymgeiswyr. Argymhellodd Cymdeithas Fawcett a 5050Amrywiol y dylid datblygu cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr â chyfrifoldebau gofal.⁵¹⁷ Dywedodd Elect Her ei fod yn cynnig grantiau i gynorthwyo menywod heb gynrychiolaeth ddigonol â chostau personol sy'n gysylltiedig â sefyll mewn etholiad. Roedd y gwaith wedi tynnu sylw at bryderon menywod am gostau, yn benodol yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw, ac effaith y rhwystrau ariannol ar iechyd meddwl menywod.⁵¹⁸

Cymorth ariannol i ymgeiswyr

433. Dywedodd pleidiau gwleidyddol wrthym eu bod naill ai wedi cynnig cymorth ariannol i ymgeiswyr neu wedi cymryd camau i liniaru'r costau i unigolion. Fodd bynnag, nododd Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig fod y cyllid ar gyfer cymorth o'r fath yn gyfyngedig. Pwysleisiwyd bod pleidiau gwleidyddol yn

⁵¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 18 Ebrill 2024

⁵¹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 18 Ebrill 2024

⁵¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 169-171], 18 Ebrill 2024

⁵¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 177], 18 Ebrill 2024

⁵¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 18 Ebrill 2024, SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig)

⁵¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 170-171], 18 Ebrill 2024

sefydliadau gwirfoddol i raddau helaeth ac yn ddibynnol ar roddion.⁵¹⁹ Wrth groesawu'r cymorth a oedd wedi'i ddarparu i ymgeiswyr anabl drwy'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, nododd Plaid Cymru y byddai angen ystyried yn ofalus y costau a'r dull o ddarparu cyllid tebyg i grwpiau mwy, fel menywod.⁵²⁰

434. Dywedodd academyddion wrthym fod enghreifftiau rhyngwladol, gan gynnwys cymhellion ariannol i gefnogi menywod ac ymgyrchoedd menywod, megis darparu beiciau i fenywod yn Nwyrain Timor, neu slotiau darlledu gwleidyddol ychwanegol sydd ar gael i bleidiau sy'n cyflawni cwota ar gyfer ymgeiswyr penodol.⁵²¹ Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen mwy o ymchwil i ddeall sut y byddai cyllid i gefnogi unigolion yn gweithio'n ymarferol yng Nghymru, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol ac agweddau eraill ar amrywiaeth, a sut y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i ymgeiswyr neu ddarpar ymgeiswyr.⁵²²

435. Treialodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 ac etholiadau lleol 2022 yng Nghymru fel mecanwaith ar gyfer darparu cymorth ymarferol i bobl anabl gymryd rhan yn y broses wleidyddol. Ni chaniateir ei defnyddio ar gyfer costau ymgyrchu, ond caiff gynnwys addasiadau rhesymol sy'n golygu bod y broses yn un gyfartal a theg i bawb – i ymgeiswyr anabl a'r rheini nad ydynt yn anabl.⁵²³

436. Mae'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig yn cynnwys:

- Gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cynllun cymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiadau Cymreig i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.
- Pŵer galluogi y caiff Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio i ddarparu cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr mewn etholiadau Cymreig sydd â nodweddion penodol neu amgylchiadau penodol i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan.

437. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried darparu cymorth ariannol i ymgeiswyr sy'n fenywod dalu am unrhyw

⁵¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 347 a 352], 18 Ebrill 2024

⁵²⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 350], 18 Ebrill 2024

⁵²¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 111 a 512], 18 Ebrill 2024

⁵²² Cofnod y Trafodion [paragraff 110], 18 Ebrill 2024

⁵²³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig](#), 22 Hydref 2021

gostau ychwanegol a allai fod yn rhwystr sy'n eu hatal rhag sefyll mewn etholiad.⁵²⁴

Cyllid i sefydliadau amrywiaeth

438. Trafodwyd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol yr heriau cyllido sy'n wynebu sefydliadau sy'n gweithio ar amrywiaeth a chynrychiolaeth. Dywedodd ei bod yn siomedig iawn bod elusen Chwarae Teg a llawer o sefydliadau blaengar eraill wedi cael eu colli. Priodolodd hynny i golli cyllid yr UE a phwysau ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, ond cydnabu fod hyn yn ymwneud â blaenoriaethau, a bod rhaid i bleidiau gwleidyddol a'r Llywodraeth weld hyn fel blaenoriaeth o ran ble y mae cyllid yn mynd.⁵²⁵

439. Gwnaethom ofyn iddi a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried sefydlu corff parhaol wedi'i ariannu sy'n gyfrifol am hyrwyddo cynhwysiant mewn democratiaeth. Dywedodd nad oedd wedi gwneud hynny, ond bydd trafodaeth ynghylch a oes angen hyn ai peidio yn datblygu fel rhan o raglen ddiwygio'r Senedd.⁵²⁶

Aflonyddu a cham-drin

440. Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at arolwg⁵²⁷ a gynhaliwyd yn dilyn etholiadau lleol 2022 yng Nghymru a ganfu fod 40 y cant o'r ymgeiswyr wedi wynebu rhyw fath o gamdriniaeth neu fygythiad.⁵²⁸ Dywedodd yr Athro Campbell fod aflonyddu, brawychu a cham-drin ymgeiswyr yn cynyddu ac yn uwch yn achos menywod, yn enwedig menywod o liw.⁵²⁹ Cododd Dr Gomes bryderon ynghylch bygythiad trais y gallai darpar ymgeiswyr ei wynebu, yn enwedig menywod, o ganlyniad i gwotâu. Cyfeiriodd at brofiad gwledydd fel Bolifia, Costa Rica, Ecwador a Mecsico lle y bu cynnydd, pan gyflwynwyd cwotâu, mewn trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth, yn amrywio o drais seicolegol a symbolaidd i drais corfforol, a bygythiadau i'w lladd gan ddynion.⁵³⁰

441. Clywsom alwadau ar bleidiau i ddatblygu canllawiau ar gyfer menywod i helpu i greu amgylcheddau diogel a grymusol i ymgeiswyr, ar gyfer llwybrau clir i gefnogi ac amddiffyn cynrychiolwyr etholedig rhag cam-drin ac aflonyddu o fewn

⁵²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 208], 13 Mawrth 2024

⁵²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 41], 1 Mai 2024

⁵²⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 1 Mai 2024

⁵²⁷ Y Comisiwn Etholiadol, [Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru](#), Medi 2022

⁵²⁸ SCECLB32-P Y Comisiwn Etholiadol

⁵²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 40], 18 Ebrill 2024

⁵³⁰ SCECLB16-P Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin (Saesneg yn unig)

cyrff a sefydliadau gwleidyddol, ac ar gyfer systemau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu a cham-drin a chefnogi pobl sy'n eu hwynebu.⁵³¹

442. Dywedodd yr Athro Childs wrthym fod corff o waith academiaidd ar drais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth, gan gynnwys strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag ef, ond mai'r hyn sydd ei angen bellach oedd ewyllys wleidyddol ac arweinyddiaeth gan bleidiau a sefydliadau gwleidyddol.⁵³² Rhannodd Dr Sofia Collignon ystod o adnoddau ar-lein a phapurau academiaidd ar y materion hyn, gan gynnwys canllawiau ac adnoddau y bwriedir iddynt gefnogi cyngorwyr lleol.⁵³³

443. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol fod y byd gwleidyddol yn gallu bod yn wenwynig ac yn ymwithiol, yn enwedig i fenywod. Cyfeiriodd at ddeddfwriaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dywedodd fod y strategaeth yn cael ei hestyn i drais yn y cartref ac mewn gweithleoedd. Gan nodi bod hyn yn cynnwys y Senedd, tynnodd sylw at yr angen i bob Aelod godi llais yn erbyn cam-drin ac aflonyddu yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth, a phwysleisiodd rôl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Ychwanegodd fod Comisiwn y Senedd a grwpiau gwleidyddol yn y Senedd wedi cael hyfforddiant ar urddas a pharch, ac aflonyddu rhywiol.⁵³⁴

Rhannu swyddi

444. Mae adran 7 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, yn dilyn etholiad cyntaf y Senedd ar ôl 7 Tachwedd 2025, gyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu materion sy'n ymwneud â rhannu swyddi perthnasol y Senedd. Yn ystod ein gwaith ar y Bil hwnnw, mynegodd yr Athro McAllister a Dr Gomes siom â'r dull gweithredu.⁵³⁵ Dywedodd yr Athro McAllister wrthym ar 18 Ebrill 2024:

"I think we really need to reinvigorate the debate about job share in the context of the previous Bill and this one. I know it's loosely connected to both of them but not explicitly relevant to either, in a sense, but it mustn't fall between them, because it's a real opportunity

⁵³¹ SCECLB28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig), Cofnod y Trafodion [paragraff 208], 18 Ebrill 2024, Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 24 Ebrill 2024

⁵³² Cofnod y Trafodion [paragraffau 97-98], 18 Ebrill 2024

⁵³³ [Gwybodaeth ychwanegol gan Dr Sofia Collignon](#)

⁵³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 108-109], 1 Mai 2024

⁵³⁵ [Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Athro Laura McAllister a Dr Larissa Peixoto Vale Gomes yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig)

for us to change the type of candidates—by the way, male candidates as well as female candidates—who could be elected to the Senedd”.⁵³⁶

445. Dywedodd cefnogwyr rhannu swyddi y gallai annog mwy o fenywod i ystyried sefyll i'w dethol neu i'w hethol, ac y gallai hefyd fynd i'r afael â rhwystrau y mae pobl â nodweddion eraill yn eu hwynebu, gan gynnwys pobl anabl.⁵³⁷

446. Cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol y gall rhannu swyddi fod yn ffordd bwerus o alluogi Aelodau i weithio a chael teulu. Dywedodd wrthym fod Pwyllgor Busnes y Senedd yn edrych ar faterion yn ymwneud â rhannu swyddi.⁵³⁸ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Llywydd wrthym fod rhannu swyddi mewn perthynas â chadeiryddion pwyllgorau yn cael ei ystyried fel rhan o raglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes. Cydnabu ein bod, yn ein hadroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd, neu ofyn i bwyllgor presennol ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â rhannu swyddi ar draws ystod o swyddi'r Senedd (gan gynnwys swydd Aelod o'r Senedd). Dywedodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n ystyried y mater yn haf 2024.⁵³⁹

447. Pwysleisiodd Sioned Williams AS, wrth siarad fel aelod o Gawcws Menywod y Senedd, yr angen, wrth ystyried ymhellach a ddylid caniatáu rhannu swyddi ar gyfer swyddfeydd perthnasol y Senedd, i:

“[gael] pobl yn yr ystafell sydd wir yn deall sut mae hynny'n gweithio a heb unrhyw fath o ragfarn neu unrhyw stereoteipiau ynglŷn â beth mae hynny'n golygu”.⁵⁴⁰

448. Er ei bod yn gefnogol i rannu swyddi, rhybuddiodd Dr Gomes y gallai fod heriau ymarferol wrth ei weithredu o fewn y rheolau cwota a ragwelir gan y Bil. Er enghraifft, pe bai partneriaid rhannu swyddi yn cael eu hystyried yn un endid cyfreithiol, byddai angen ystyried sut i ymdrin â'r posibilrwydd y byddai angen i'r partneriaid unigol wneud gwahanol ddatganiadau ymgeisydd ynghylch a oeddent yn fenyw ai peidio.⁵⁴¹

⁵³⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 18 Ebrill 2024

⁵³⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 114, 213-214 a 216], 18 Ebrill 2024

⁵³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 1 Mai 2024

⁵³⁹ SCECLB40-P Y Llywydd

⁵⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 317], 24 Ebrill 2024

⁵⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 426], 18 Ebrill 2024

Mentora a hyfforddiant

449. Clywsom alwadau am hyfforddiant, cefnogaeth a rhwydweithiau i alluogi menywod i ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol.⁵⁴² Roedd llawer o'r rhai a gyfrannodd at ein gwaith hefyd yn siarad am y rhagfarn y gall menywod ei hwynebu, a'r effaith y gall ei chael ar eu hyder. Amlygodd EYST Cymru rôl rhaglenni mentora:

"[...] even a little bit of mentoring, seeing somebody out there who's the same as you, who's in that position already, gives you that boosted confidence".⁵⁴³

450. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod cynllun mentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal yn bartneriaeth rhwng ystod o sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau a nodweddion demograffig. Dywedodd fod hyn yn dangos yr amrywiaeth ehangach yr ydym yn ceisio ei hyrwyddo.⁵⁴⁴

Data amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau

Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

451. Byddai adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol, pe bai'n cael ei chychwyn, i bleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiadau i'r Senedd, Senedd y DU neu Senedd yr Alban gyhoeddi gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig eu hymgeiswyr. Nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chychwyn, a Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i wneud hynny.

452. Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai Llywodraeth y DU gychwyn adran 106, neu drosglwyddo'r pwerau i wneud hynny ar gyfer etholiadau'r Senedd i Weinidogion Cymru.⁵⁴⁵ Yn yr un modd, argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gychwyn adran 106 mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd. Galwodd hefyd ar bleidiau gwleidyddol,

⁵⁴² SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB17-P Cynulliad Merched Cymru (Saesneg yn unig), SCECLB-28-P Stonewall Cymru (Saesneg yn unig), Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 18 Ebrill 2024

⁵⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 72], 24 Ebrill 2024

⁵⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 1 Mai 2024

⁵⁴⁵ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, argymhelliad 9

yn absenoldeb unrhyw ofynion statudol, i gyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr ar sail wirfoddol o etholiad 2021 ymlaen.⁵⁴⁶

453. Wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ym mis Hydref 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gychwyn adran 106 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac i roi ystyriaeth i gynnwys etholiadau lleol yng Nghymru.

“Mae'n destun siom imi orfod adrodd mai ymateb diweddar Llywodraeth y DU oedd y byddai'n parhau i adolygu adran 106, ac yn parhau hefyd i annog pleidiau gwleidyddol i adrodd ar sail wirfoddol.”⁵⁴⁷

454. Pan holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU, cyfeiriodd at yr ohebiaeth o 2020⁵⁴⁸, ond ni nododd a fu unrhyw ymgysylltu er 2020.

455. Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig fod dyletswydd yn cael ei gosod ar Awdurdod datganoledig yng Nghymru i gasglu a chyhoeddi data dienw ar amrywiaeth ymgeiswyr.⁵⁴⁹

Casglu a chyhoeddi data amrywiaeth

456. Dywedwyd wrthym, heb ddata cadarn a chyson, ei bod yn anodd nodi meysydd o dangynrychiolaeth neu fesur cynnydd, ac y byddai data tryloyw yn hwyluso'r gwaith o weithredu a monitro effaith cwotâu ac yn grymuso pleidleiswyr a chymdeithas sifil i ddwyn pleidiau gwleidyddol i gyfrif.⁵⁵⁰

457. Galwodd Elect Her am gasglu a chyhoeddi data am ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol yn ogystal ag etholiadau'r Senedd, gan ddadlau ei bod yn anodd gwahanu'r llif o ddarpar ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau gwahanol. Ychwanegodd y byddai data am bobl sy'n gwneud cais i fod yn ymgeiswyr hefyd yn ddefnyddiol:

⁵⁴⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#), Medi 2020, argymhellion 9 a 10

⁵⁴⁷ Llywodraeth Cymru, [Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), Hydref 2020

⁵⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 1 Mai 2024

⁵⁴⁹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, argymhelliad 12

⁵⁵⁰ SCECLB5-P 5050Amrywiol (Saesneg yn unig), SCECLB14-P Yr Athro Meryl Kenny (Saesneg yn unig), Cofnod y Trafodion [paragraffau 117, 193 a 197], 18 Ebrill 2024

"I think that would tell you a huge amount about the parties and the actions that they're taking to create a more inclusive environment where more diverse communities and greater numbers of women feel that they can step forward to represent them".⁵⁵¹

458. Dywedodd pleidiau gwleidyddol wrthym eu bod wedi casglu a defnyddio rhywfaint o ddata amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau blaenorol:

- Dywedodd Llafur Cymru fod data yn cael eu defnyddio cyn y broses ddethol i nodi meysydd lle roedd diffyg menywod yn dod ymlaen i gael eu dethol, ac fel rhan o gyfarfodydd ar ôl y broses ddethol gydag ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i nodi heriau neu welliannau i brosesau mewnol.⁵⁵²
- Eglurodd Plaid Cymru fod data wedi cael eu defnyddio i weithredu ei rheolau mewnol ynghylch rhoi menywod ar restrau ymgeiswyr rhanbarthol a gefeillio etholaethau.⁵⁵³
- Dywedodd y Ceidwadwyr Cymreig fod data wedi cael eu defnyddio wrth greu eu rhestr o ymgeiswyr cymeradwy y gallai aelodau'r blaid ddethol ymgeiswyr ohonynt, ac i lywio gwaith maes ar ôl y broses ddethol i nodi rhwystrau a heriau sy'n wynebu grwpiau penodol.⁵⁵⁴

459. Pwysleisiodd pob plaid yr angen i sicrhau bod data'n cael eu casglu, eu trin a'u cyhoeddi yn unol â rheolau diogelu data, ac ar gyfer hyfforddi staff a gwirfoddolwyr y blaid.⁵⁵⁵ Ychwanegodd Llafur Cymru fod rhaid i ddata sydd wedi'u cyhoeddi fod yn ddienw er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unigolion.⁵⁵⁶

460. Ar 12 Mawrth 2024, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrth y Senedd fod gwaith yn mynd rhagddo ynghylch "tryloywder ... o ran gwybodaeth ynglŷn ag amrywiaeth ar gyfer ymgeiswyr i'r Senedd" a bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i sut y gall "annog a chefnogi'r pleidiau gwleidyddol i wneud rhagor yn y maes hwn".⁵⁵⁷ Ar 1 Mai 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliant i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig a fyddai'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru

⁵⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 198-199], 18 Ebrill 2024

⁵⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 336], 18 Ebrill 2024

⁵⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 342], 18 Ebrill 2024

⁵⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 338 a 340], 18 Ebrill 2024

⁵⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 390 a 392-393], 18 Ebrill 2024

⁵⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 333], 18 Ebrill 2024

⁵⁵⁷ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 12 Mawrth 2024

i gyhoeddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig cyn 1 Mai 2025 (ac i adolygu'r canllawiau hynny o bryd i'w gilydd wedi hynny, gan ystyried cylchoedd etholiadol) ynghylch casglu, coladu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth eu hymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd.⁵⁵⁸ Cafodd y gwelliant ei gyflwyno a'i dderbyn gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 16 Mai 2024.⁵⁵⁹

Ein barn ni

461. Mae rhwystrau sylweddol sy'n gallu atal neu rwystro menywod rhag cynnig eu hunain i'w dethol neu i'w hethol, neu i aros mewn swydd etholedig. Mae rhai rhwystrau'n cael effaith anghymesur ar fenywod o gymunedau penodol neu o dan amgylchiadau penodol. Nid yw rhai yn effeithio ar fenywod yn unig. Bydd rhwystrau sy'n effeithio ar rieni neu bobl sydd â chyfrifoldebau gofal hefyd yn effeithio ar ddynion sydd â'r cyfrifoldebau hynny, ac nid yw materion sy'n ymwneud â diogelwch, cam-drin ac aflonyddu yn gyfyngedig i fenywod yn unig, er bod yn aml iddynt ddimensiwn sy'n ymwneud â rhyw neu rywedd.

462. Nid ydym wedi cyrraedd barn unfrydol fel Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ond rydym yn unedig yn ein barn ni fod angen cymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau o ran dethol ac ethol. Rydym am i'r camau hyn gael eu datblygu a'u dylunio mewn ffyrdd sy'n parchu ac yn adlewyrchu hunaniaethau croestoriadol menywod, a'r effeithiau anghymesur sy'n wynebu menywod sy'n dod o gymunedau penodol neu fenywod sydd â nodweddion penodol.

463. Mae'n hanfodol bod y Senedd ei hun yn fan lle y mae pawb, waeth beth fo'i nodweddion, ei gefndir neu ei amgylchiadau, yn teimlo ei fod yn perthyn. Mae hyn yn berthnasol i drafodion ffurfiol y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, ac i weithgareddau eraill gan gynnwys gwaith yr Aelodau o ddydd i ddydd ym Mae Caerdydd ac etholaethau ledled Cymru.

464. Rydym yn cefnogi galwadau am archwiliad sy'n sensitif i rywedd o'r Senedd, ond rydym yn cytuno, pan fo camau eisoes wedi'u nodi i wella diwylliant, ffyrdd o weithio neu gyfleusterau, na ddylid gohirio eu gweithredu'n ddiangen.

Argymhelliad 20. Dylai Comisiwn y Senedd gomisiynu archwiliad sy'n sensitif i rywedd o ddiwylliant, ffyrdd o weithio a chyfleusterau'r Senedd. Dylai canlyniadau'r archwiliad fod ar gael mewn digon o amser i lywio penderfyniadau

⁵⁵⁸ [Hysbysiad ynghylch Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig \(Cymru\)](#), 1 Mai 2024, Gwelliant 32

⁵⁵⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion [paragraffau 234-257 a 346], 16 Mai 2024

ar brosiect Bae Caerdydd 2032, a phenderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Seithfed Senedd ynghylch ei ffyrdd o weithio.

465. O ran cyfleusterau, rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan y Llywydd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi cyn etholiad 2026 i swyddfeydd Bae Caerdydd drwy brosiect Tŷ Hywel 2026 ac i'r Siambr drwy brosiect Siambr 2026. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i sicrhau bod cyfleusterau cyfarfod pwyllgorau yn gwbl hygyrch ac yn diwallu anghenion amrywiol yr Aelodau, staff y Comisiwn a phawb sy'n cyfrannu at waith y pwyllgorau.

Argymhelliad 21. Dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod ei brosiectau Tŷ Hywel 2026, Siambr 2026 a Bae Caerdydd 2032 yn cael eu llywio drwy ymgysylltu ac ymgynghori â sefydliadau amrywiaeth i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan arfer gorau a'u bod yn cael eu diogelu at y dyfodol o ran anghenion posibl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, yn ogystal â'r anghenion a nodwyd gan Aelodau presennol, staff cymorth, staff Llywodraeth Cymru, staff y Comisiwn ac undebau llafur cysylltiedig. Dylid gwneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori tebyg i lywio gwaith i sicrhau bod pwyllgorau, eu cyfarfodydd a'u gweithgareddau anffurfiol yn gwbl hygyrch i'r Aelodau, staff y Comisiwn a chyfranwyr at eu gwaith.

466. Gobeithiwn y bydd pleidiau gwleidyddol yn myfyrio ar y dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed ynghylch a ydynt yn lleoedd diogel, croesawgar a chynhwysol i fenywod. Rydym yn cytuno y bydd o fudd i bleidiau gwleidyddol lunio a chyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u teilwra'n benodol sy'n nodi'n glir y camau y bydd pleidiau yn eu cymryd a sut y byddant yn mesur cynnydd.

467. Rydym hefyd yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig sy'n rhoi'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar sylfaen statudol, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol eraill i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau y gall rhai grwpiau neu gymunedau eu hwynebu. Dylai dyluniad cynlluniau o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn cytuno y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil i'r ffordd y gellir dylunio a gweithredu cynlluniau fel rhan o ddull mwy na chwotâu i gynyddu cynrychiolaeth menywod amrywiol yn y Senedd. Dylai hyn gynnwys ystyried y ffurf y darperir cymorth ariannol, gan gynnwys darparu arian, nid ad-daliad teithio na mynediad at hyfforddiant neu fentora yn unig.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i'r ffyrdd gorau o ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr sy'n fenywod o grwpiau heb

gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gellir targedu a dyrannu cyllid, ac ar ba ffurf y rhoddir y cymorth ariannol hwn. Dylai'r gwaith ymchwil gael ei gwblhau mewn pryd i sicrhau y gall cynlluniau cymorth ariannol newydd fod ar waith mewn digon o amser i alluogi darpar ymgeiswyr i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch p'un a ddylent sefyll i gael eu dethol neu eu hethol yn etholiad Senedd yn 2026.

468. Rydym yn rhannu gofid yr Aelod sy'n gyfrifol bod sefydliadau sy'n gweithio ym maes amrywiaeth a chynrychiolaeth wedi cael eu colli oherwydd diffyg cyllid. Mae'r sefydliadau hynny yn chwarae rhan allweddol wrth ddwyn pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol i gyfrif, wrth ddarparu arbenigedd i lywio datblygiad polisi a deddfwriaeth, ac wrth feithrin rhwydweithiau i gefnogi a chysylltu menywod a phobl â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn croesawu pwynt yr Aelod sy'n gyfrifol y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach a oes angen corff a ariennir yn barhaol i hyrwyddo cynhwysiant mewn democratiaeth.

469. Rydym yn condemnio'r cam-drin a'r aflonyddu a wynebier gan ymgeiswyr ac Aelodau etholedig ar-lein ac yn bersonol. Mae'n annerbyniol y dylai unrhyw un orfod wynebu triniaeth o'r fath. Rydym yn croesawu'r ffocws cynyddol ar gefnogi ymgeiswyr ac Aelodau.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a phartneriaid eraill i sicrhau bod digon o arweiniad a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr ac Aelodau etholedig ar fynd i'r afael â cham-drin ac aflonyddu, gan gynnwys sut i roi gwybod amdano a pha gymorth sydd ar gael i'r rhai y mae'n effeithio arnynt.

470. Nodwn y bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd yn haf 2024 i ystyried ein hargymhelliad y dylid ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â rhannu swyddi ar gyfer swyddi perthnasol y Senedd yn y Chweched Senedd. Rydym yn cytuno â Dr Gomes y bydd angen ystyried sut y gall cwotâu ymgeiswyr, os cânt eu cyflwyno, ddarparu ar gyfer partneriaid rhannu swyddi y mae angen iddynt wneud datganiadau gwahanol ynghylch a ydynt yn fenyw ai peidio.

471. Mae'n siomedig na fydd adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru) yn cael ei chychwyn er mwyn ei gwneud yn ofynnol casglu a chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr. Nodwn fod gohebiaeth o 2020 rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn nodi y byddai Llywodraeth y DU yn parhau i adolygu adran 106.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth y DU i ofyn am wybodaeth am sut y mae Llywodraeth y DU wedi dal ati i adolygu adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ers 2020, a pha ystyriaeth bellach y mae wedi'i rhoi i gychwyn y ddarpariaeth. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ailadrodd ei galwad i gychwyn adran 106 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd (a/neu i'r pŵer i wneud hynny gael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru).

472. Gobeithiwn y bydd pob plaid wleidyddol sy'n cystadlu yn etholiad y Senedd yn 2026 yn ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i'r canllawiau y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi (os caiff y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig ei basio). Os bydd profiad etholiad 2026 yn awgrymu nad dyna'r achos, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y camau pellach y gall fod eu hangen i sicrhau bod y data hyn yn cael ei casglu a'u bod ar gael.

473. At hynny, nid yw'n glir i ni pam mae'r canllawiau sydd i'w cyhoeddi o dan y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig mewn perthynas â chasglu data yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd yn unig ac nid i etholiadau lleol hefyd, yn enwedig gan ein bod yn nodi bod y canllawiau ar strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant yn ymwneud â phob etholiad datganoledig. Rydym yn cydnabod bod rhai trefniadau eisoes ar waith yng Nghymru i gynnal arolwg ar ôl etholiadau lleol, ond ein barn ni yw y byddai dull cyson ar draws pob etholiad datganoledig yn briodol. Byddai'r cysondeb hwn yn ei gwneud yn fwy posibl cymharu data ar draws pleidiau gwleidyddol ac etholiadau, ac i fonitro cynnydd dros gyfnod.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam y mae adran 30 o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (fel y'i mewnosodwyd gan welliant yng Nghyfnod 2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chasglu a chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol gwmpasu etholiadau'r Senedd yn unig, ac nid pob un o etholiadau datganoledig Cymru.

Atodiad 1 Canfyddiadau arolwg YouGov

Cefndir

Er mwyn llywio ei waith craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), comisiynodd y Pwyllgor Biliau Diwygio YouGov i ofyn y cwestiwn a ganlyn.

I ba raddau, os o gwbl, y byddech yn cefnogi neu'n gwrthwynebu gorfodi pleidiau gwleidyddol i ddefnyddio cwotâu rhywedd i ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Senedd Cymru?

[Cefnogi'n gryf / Cefnogi rhywfaint / Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu / Gwrthwynebu rhywfaint / Gwrthwynebu'n gryf]

To what extent, if at all, would you support or oppose political parties being required to use gender quotas to choose candidates for Senedd Cymru (Welsh Parliament) elections?

[Strongly support / Somewhat support / Neither support nor oppose / Somewhat oppose / Strongly oppose]

Canfyddiadau

Daw'r holl ffigurau, oni nodir yn wahanol, gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,050 o oedolion. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 19 a 24 Ebrill 2024. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (16+ oed). Rhoddwyd y dewis i'r ymatebwyr ateb y cwestiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ymatebion

| | Cyfanswm | Pleidlais yn Etholiad Cyffredinol 2019 | | | Refferendwm yr UE 2016 | | Rhywedd | | Oedran | | | |
|-----------------------------|----------|--|------|-------|------------------------|--------|---------|-------|--------|-------|-------|-----|
| | Cyfanswm | Ceid | Llaf | Plaid | Aros | Gadael | Gwryw | Benyw | 16-24 | 25-49 | 50-64 | 65+ |
| Sampl wedi'i bwysoli | 1050 | 266 | 301 | 74 | 353 | 382 | 508 | 542 | 137 | 381 | 260 | 272 |
| Sampl heb ei bwysoli | 1050 | 260 | 302 | 85 | 422 | 374 | 464 | 586 | 122 | 380 | 255 | 293 |

| | Cyfanswm | Gradd gymdeithasol | | Rhanbarth | | | | | Ethnigrwydd | | Materion iechyd/anabledd (12 mis) | | |
|-----------------------------|----------|--------------------|------|------------------------|---------|----------------------------|-------------------|-------------------|-------------|------------------|-----------------------------------|--------------------------|---------|
| | Cyfanswm | ABC1 | C2DE | Canolbarth a Gorllewin | Gogledd | Caerdydd a Chanol De Cymru | De-ddwyrain Cymru | De-orllewin Cymru | Gwyn | Lleiafrif Ethnig | Oes, cyfyngus iawn | Oes, ychydig yn gyfyngus | Nac oes |
| Sampl wedi'i bwysoli | 1050 | 525 | 523 | 201 | 217 | 234 | 217 | 181 | 997 | 41 | 140 | 191 | 575 |
| Sampl heb ei bwysoli | 1050 | 561 | 487 | 206 | 215 | 230 | 220 | 179 | 996 | 42 | 137 | 192 | 577 |

Canrannau

| | Cyfanswm | Pleidlais yn Etholiad Cyffredinol 2019 | | | Refferendwm yr UE 2016 | | Rhywedd | | Oedran | | | |
|---|----------|--|------|------|------------------------|------|---------|-------|--------|-------|-------|-------|
| | | Cyfanswm | Ceid | Llaf | Plaid | Aros | Gadael | Gwryw | Benyw | 16-24 | 25-49 | 50-64 |
| Cefnogi'n gryf | 3 | 1 | 5 | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 | 5 | 3 | 3 | 2 |
| Cefnogi rhywfaint | 11 | 4 | 17 | 25 | 17 | 5 | 8 | 15 | 19 | 14 | 9 | 6 |
| CYFANSWM YN CEFNOGI | 14 | 5 | 22 | 28 | 20 | 7 | 11 | 18 | 24 | 17 | 11 | 9 |
| Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu | 43 | 26 | 46 | 40 | 43 | 31 | 38 | 48 | 49 | 50 | 41 | 33 |
| Gwrthwynebu rhywfaint | 15 | 17 | 18 | 16 | 18 | 17 | 16 | 15 | 12 | 13 | 16 | 19 |
| Gwrthwynebu'n gryf | 28 | 52 | 15 | 17 | 19 | 45 | 36 | 20 | 15 | 21 | 32 | 40 |
| CYFANSWM YN GWRTHWYNEBU | 43 | 69 | 32 | 32 | 37 | 62 | 52 | 35 | 27 | 33 | 48 | 59 |

*Nid yw unrhyw ganrannau a gyfrifwyd ar sail llai na 100 o ymatebwyr yn cynrychioli trawstoriad digon eang o'r boblogaeth darged i gael eu hystyried yn ystadegol ddibynadwy. Ni ddylid defnyddio'r ffigurau hyn.

| | Cyfanswm | Gradd gymdeithasol | | Rhanbarth | | | | | Ethnigrwydd | | Materion iechyd/anabledd (12 mis) | | |
|---|----------|--------------------|------|------------------------|---------|----------------------------|-------------------|-------------------|-------------|------------------|-----------------------------------|--------------------------|---------|
| | | ABC1 | C2DE | Canolbarth a Gorllewin | Gogledd | Caerdydd a Chanol De Cymru | De-ddwyrain Cymru | De-orllewin Cymru | Gwyn | Lleiafrif Ethnig | Oes, cyfyngus iawn | Oes, ychydig yn gyfyngus | Nac oes |
| Cefnogi'n gryf | 3 | 3 | 3 | 4 | 2 | 4 | 1 | 4 | 2 | 13 | 4 | 5 | 2 |
| Cefnogi rhywfaint | 11 | 14 | 9 | 12 | 9 | 17 | 10 | 8 | 11 | 22 | 9 | 13 | 12 |
| CYFANSWM YN CEFNOGI | 14 | 17 | 12 | 17 | 12 | 21 | 11 | 11 | 14 | 35 | 13 | 17 | 14 |
| Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu | 43 | 39 | 47 | 44 | 40 | 39 | 47 | 46 | 42 | 58 | 48 | 37 | 41 |
| Gwrthwynebu rhywfaint | 15 | 17 | 13 | 15 | 18 | 13 | 16 | 13 | 16 | 4 | 9 | 15 | 17 |
| Gwrthwynebu'n gryf | 28 | 27 | 28 | 24 | 30 | 27 | 27 | 30 | 28 | 3 | 30 | 31 | 28 |
| CYFANSWM YN GWRTHWYNEBU | 43 | 44 | 42 | 39 | 48 | 40 | 43 | 43 | 44 | 7 | 39 | 46 | 45 |

*Nid yw unrhyw ganrannau a gyfrifwyd ar sail llai na 100 o ymatebwyr yn cynrychioli trawstoriad digon eang o'r boblogaeth darged i gael eu hystyried yn ystadegol ddibynadwy. Ni ddylid defnyddio'r ffigurau hyn.

Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolwg gan ddefnyddio cyfweiliad ar-lein a weinyddwyd i aelodau panel Prydain Fawr YouGov Plc o 185,000+ o unigolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn arolygon. Anfonwyd e-bost at y panelwyr a ddewiswyd ar hap o'r sampl sylfaenol yn ôl diffiniad y sampl, gan eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg a darparu linc i'r arolwg. (Gallai diffiniad y sampl olygu "poblogaeth oedolion Prydain Fawr" neu is-set fel "oedolion benywaidd Prydain Fawr"). Mae YouGov Plc fel arfer yn cael cyfradd ymateb i arolygon sydd rhwng 35 y cant a 50 y cant, ond mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar y pwnc dan sylw, cymhlethdod a hyd yr holiadur. Caiff y sampl sy'n ymateb ei bwysoli i broffil diffiniad y sampl er mwyn darparu sampl adrodd cynrychioliadol. Mae'r proffil fel arfer yn deillio o ddata'r cyfrifiad neu, os nad yw ar gael o'r cyfrifiad, o ddata a dderbynnir gan y diwydiant.

Mae YouGov Plc yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gynrychioliadol. Mae'r holl ganlyniadau yn seiliedig ar sampl ac felly maent yn destun gwallau ystadegol sy'n gysylltiedig fel arfer â gwybodaeth seiliedig ar sampl.

Atodiad 2 Profion cymhwysedd deddfwriaethol

O dan drefn cymhwysedd deddfwriaethol y model cadw pwerau, bydd darpariaeth mewn Bil gan y Senedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oni fydd unrhyw un o'r paragraffau yn adran 108A(2)(a) i (e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Ceir cyfres o brofion y mae rhaid eu hystyried wrth asesu a yw darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Mae crynodeb o'r profion yn Nhabl 5.

Tabl 5 Profion cymhwysedd deddfwriaethol

| Prawf | Nodiadau |
|--|--|
| <p>Prawf 1: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ymwneud â mater a gedwir yn ôl</p> | <p>Nodir rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006.</p> <p>O dan adran 108A(6) o Ddeddf 2006, caiff y cwestiwn ynghylch a yw darpariaeth mewn Bil 'yn ymwneud â' mater a gedwir yn ôl ei benderfynu drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi sylw i'w heffaith ym mhob amgylchiad (ymhlith pethau eraill).</p> |
| <p>Prawf 2: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil addasu (neu roi'r pŵer i addasu) y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl</p> | <p>Diffinnir y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ym mharagraff 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Mae'n ymdrin ag unrhyw ddarpariaethau mewn Deddf gan Senedd y DU, neu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf o'r fath, ynghylch mater a gedwir yn ôl. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw reol cyfraith gyffredin ar fater a gedwir yn ôl.</p> <p>Gall Deddf gan y Senedd addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl os yw'r addasiad yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ar yr amod na chaiff yr addasiad ddim mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sydd ei hangen i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth honno (h.y. y ddarpariaeth y mae'r addasiad yn ategol iddi).</p> |
| <p>Prawf 3: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil addasu (neu roi'r pŵer i addasu) y gyfraith breifat</p> | <p>Mae'r 'gyfraith breifat' yn cael ei diffinio'n gyffredinol fel cyfraith contract, cyfraith asiantaeth, cyfraith beiliaeth, cyfraith camwedd, cyfraith ymgyfoethogi anghyfiawn ac adferiad, cyfraith eiddo, cyfraith ymddiriedolaethau a chyfraith olyniaeth.</p> <p>Nid yw'r cyfyngiad yn gymwys i addasiad sydd at ddiben datganoledig yn unig.</p> |

| Prawf | Nodiadau |
|---|---|
| <p>Prawf 4: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil addasu (neu roi'r pŵer i addasu) y rhestr o droseddau penodol ac elfennau o droseddau ym Mharagraff 4 o Atodlen 7B</p> | <p>Ni all darpariaeth mewn Bil addasu unrhyw eitem ar restr o droseddau difrifol, na rhoi'r pŵer i wneud hynny drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r troseddau hyn yn cynnwys brad, lladdiad, y troseddau treisgar mwyaf difrifol, troseddau rhywiol ac anudon.</p> <p>Mae elfennau eraill o'r gyfraith droseddol hefyd sydd y tu allan i gymhwysedd, gan gynnwys addasu'r gyfraith ar gyfrifoldeb a galluedd troseddol, neu elfennau 'meddyliol' troseddau fel ystyr 'bwriad', 'byrbwylltra' neu 'anonestrwydd'. Mae atebolrwydd troseddol cychwynnol ac eilaidd hefyd y tu allan i gwmpas y Senedd. Nid oes gan y Senedd unrhyw gymhwysedd ychwaith i ddeddfu ynghylch dedfrydu (neu orchmynion llys a gwarediadau eraill) mewn perthynas â diffynyddion mewn achos troseddol, ac ni all ychwaith ddeddfu ynghylch effaith a gweithrediad dedfrydau.</p> |
| <p>Prawf 5: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth Cymru a Lloegr</p> | <p>Ni all darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd fod yn rhan o system gyfreithiol ac eithrio awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr.</p> |
| <p>Prawf 6: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil fod yn gymwys ac eithrio mewn cysylltiad â Chymru, ac ni chaiff roi, gorfodi, addasu na dileu swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru (na rhoi'r pŵer i wneud hynny) oni fodlonir y meini prawf yn adran 108A(3).</p> | <p>Bydd darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd y tu allan i gymhwysedd os yw'n gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru; neu os yw'n rhoi, yn gorfodi, yn addasu neu'n dileu swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru; oni bai ei bod o fewn yr eithriad yn adran 108A(3) o Ddeddf 2006 (sy'n darparu y caiff darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd fod yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru, neu roi, gorfodi, addasu neu ddileu swyddogaethau ac eithrio mewn perthynas â Chymru, os yw'n ategol i ddarpariaeth mewn unrhyw Ddeddf neu Fesur gan y Senedd neu i ddarpariaeth ddatganoledig mewn Deddf gan Senedd y DU, neu os nad yw'r ddarpariaeth yn cael dim mwy o effaith ac eithrio mewn perthynas â Chymru, neu mewn perthynas â swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru, nag sydd ei hangen i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth honno).</p> <p>Mae'r prawf hwn yn ymwneud ag a oes gan Fil gan y Senedd effaith neu gymhwysiad ymarferol ac eithrio mewn perthynas â Chymru; er enghraifft, a</p> |

| Prawf | Nodiadau |
|---|---|
| | yw'n creu pwerau, hawliau, dyletswyddau neu droseddau nad ydynt yn ddigon cysylltiedig â Chymru. Nid yw'n golygu mai dim ond ar bobl yng Nghymru y gall Deddf gan y Senedd effeithio. |
| Prawf 7: Rhaid i bob darpariaeth yn y Bil fod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 | Mae nifer o hawliau'r Confensiwn yn arbennig o berthnasol i'r Bil, gan gynnwys Erthygl 3 o Brotocol 1 (etholiadau rhydd a theg), Erthygl 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu) ynghyd ag Erthygl 3 o Brotocol 1, ac Erthygl 8 (parch at fywyd preifat a theuluol). |
| Prawf 8: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron, na swyddogaethau adrannau'r llywodraeth neu 'awdurdodau eraill a gedwir yn ôl' mewn amrywiaeth o ffyrdd heb gydsyniad 'y Gweinidog priodol' | Mae paragraffau 8 i 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn nodi cyfyngiadau ar gymhwysedd y Senedd i effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion, adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau eraill a gedwir yn ôl. |
| Prawf 9: Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Bil addasu na rhoi'r pŵer i addasu deddfiad gwarchoddedig | Nodir y deddfiadau gwarchoddedig ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 (ac maent yn cynnwys Deddf 2006 ei hun). |

Atodiad 3 Tystiolaeth

Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Bil](#).

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 13 Mawrth 2024 | <p>Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru</p> <p>Catrin Davies, Llywodraeth Cymru</p> <p>Anna Hind, Llywodraeth Cymru</p> <p>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru</p> |
| 21 Mawrth 2024 | <p>Colin Everett, Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru</p> <p>Clare Sim, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol</p> <p>Catherine Uphill, Comisiwn Etholiadol Cymru</p> |
| 18 Ebrill 2024 Panel 1 | <p>Yr Athro Laura McAllister, Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad</p> <p>Yr Athro Rosie Campbell, Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad</p> <p>Yr Athro Sarah Childs, Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad</p> |
| 18 Ebrill 2024 Panel 2 | <p>Jemima Olchawski, Cymdeithas Fawcett</p> <p>Hannah Stevens, Elect Her</p> |
| 18 Ebrill 2024 Panel 3 | <p>Geraint Day, Plaid Cymru</p> <p>Tom James, Ceidwadwyr Cymreig</p> |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|--|
| | Joanna McIntyre, Llafur Cymru |
| 18 Ebrill 2024 Panel 4 | Yr Athro Meryl Kenny, Prifysgol Caeredin Yr Athro Mona Lena Krook, Prifysgol Rutgers Dr Larissa Peixoto Vale Gomes, Prifysgol Caeredin |
| 24 Ebrill 2024 Panel 1 | Nkechi Allen-Dawson, Race Council Cymru Selima Bahadur, Tîm Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru Jessica Blair, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru Victoria Vasey, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |
| 24 Ebrill 2024 Panel 2 | Catherine Larkman, Y Rhwydwaith Hawliau Menywod Claire Loneragan, Y Rhwydwaith Hawliau Menywod Katharine Owen, Y Rhwydwaith Hawliau Menywod |
| 24 Ebrill 2024 Panel 3 | Joyce Watson AS, Cawcws Menywod y Senedd Janet Finch-Saunders AS, Cawcws Menywod y Senedd Rhianon Passmore AS, Cawcws Menywod y Senedd Sioned Williams AS, Cawcws Menywod y Senedd |
| 1 Mai 2024 | Jane Hutt AS, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru Catrin Davies, Llywodraeth Cymru Anna Hind, Llywodraeth Cymru Will Whiteley, Llywodraeth Cymru |

Tystiolaeth ysgrifenedig

Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r ohebiaeth a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar [wefan y Bil](#).